

Agenda – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a

Chyfathrebu

| | |
|----------------------------------|--|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd | Steve George |
| Dyddiad: Dydd Iau, 2 Mawrth 2017 | Clerc y Pwyllgor |
| Amser: 09.45 | 0300 200 6565 |
| | SeneddDGCh@cynulliad.cymru |

Rhag-gyfarfod anffurfiol

(09:45 – 10:00)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09:45)

2 Papurau i'w nodi

(09:45 – 10:00)

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

(Tudalennau 1 – 26)

Llythyr at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

(Tudalen 27)

Craffu ar waith Cyngor Celfyddydau Cymru: Rhagor o wybodaeth gan Nick Capaldi, Prif Weithredwr, Cyngor Celfyddydau Cymru

(Tudalennau 28 – 31)

Llythyr at y Cadeirydd gan Tony Hall, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC

(Tudalennau 32 – 33)

Ailfuddsoddiad y BBC – Datganiad i'r Wasg

(Tudalennau 34 – 36)



**Llythyr at y Cadeirydd oddi wrth Adam Price AC, Comisiwn y Cynulliad: Cynllun
leithoedd Swyddogol Drafft**

(Tudalennau 37 – 103)

3 Dyfodol S4C: Sesiwn dystiolaeth 1

(10:00 – 11:00)

(Tudalennau 104 – 114)

Huw Jones, Cadeirydd Awdurdod S4C

Ian Jones, Prif Weithredwr

4 Dyfodol S4C: Sesiwn dystiolaeth 2

(11:00 – 12:00)

(Tudalennau 115 – 118)

Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni, ITV Wales Cymru

Geraint Evans, Golygydd, Rhaglenni Cymraeg, ITV Cymru Wales

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y
cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 7**

(12:00)

6 Ôl-drafodaeth breifat

(12:00 – 12:30)

Bethan Jenkins
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

16 Chwefror 2017

Annwyl Bethan

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg


Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael gohebiaeth gan Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), sydd wedi amgáu ei drosolwg cenedlaethol a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017–20.

Mae copi o'r e-bost ataf, a chopi o'r ddogfen drosolwg wedi'u hamgáu. Sylwer fod RhAG wedi galw ar y Gweinidog i wrthod y rhan fwyaf o'r Cynlluniau drafft gan nad ydynt yn bodloni'r cynigion uchelgeisiol sydd eu hangen.

Hoffai Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu gyfeirio at y wybodaeth gan RhAG fel rhan o'i ymchwiliad i Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn aros am ganlyniad yr Ymchwiliad hwnnw cyn ystyried unrhyw gamau pellach o ran y Cynlluniau Strategol, gan gynnwys a ddylid ymgymryd ag unrhyw waith dilynol i'n hymchwiliad ar y Cynlluniau Strategol yn y Pedwerydd Cynulliad.

Efallai yr hoffech hefyd gael gwybod fy mod wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn mynegi pryderon y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch yr ohebiaeth a gafwyd gan RhAG a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae copi o'm llythyr at y Gweinidog wedi'i amgáu hefyd.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd



Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 Trosolwg Cenedlaethol

Cyd-destun a chasgliadau cyffredinol

Ar y cyfan bernir fod yr ail gylch o Gynlluniau drafft sydd wedi'u cyflwyno gan y Siroedd yn annigonol ac yn ddi-uchelgais. Yn gyffredinol mae diffyg targedau pendant a mesuradwy. O ystyried mai oddeutu 22% o blant 7 oed sy'n derbyn addysg Gymraeg ar hyn o bryd, breuddwyd wag yw cyrraedd targed 2020, sef 30%.

Pan lansiwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru yn 2010 a chyflwyno cyfundrefn y Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAu), roedd gobaith y byddai'r drefn newydd yn cynnig cyfle hanesyddol i sicrhau cynllunio cadarn, rhagweithiol ar sail statudol, fyddai'n cyfrannu at gyrraedd targedau cenedlaethol y Llywodraeth.

Roedd RhAG yn gadarn ei barn mai cam cyntaf yn unig yn y broses o gyflymu'r ymateb i'r galw cynyddol am Addysg Gymraeg oedd lansio'r Strategaeth ac mai gweithredu'r rhaglen waith yn effeithiol fyddai'r unig ffordd o gyflawni'r targedau â bennir ynddo.

Nôl yn 2013, fel un o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y broses graffu ac a gyfrannodd sylwadau ar ddrafftiau CSGA pob un o'r siroedd, daeth yn amlwg nad oedd y mwyafrif mewn gwirionedd wedi cydio yn y feddylfryd newydd oedd yn ddisgwyliedig ohonynt.

Bron i 7 mlynedd yn ddiweddarach ymddengys bod hanes yn ailadrodd ei hun.

Pryder RhAG ydy nad yw'r Cynlluniau yn eu ffurf bresennol yn adlewyrchu ysbryd na llythyren Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, trwy amlinellu sut y bydd pob awdurdod lleol yn cyflawni'r canlyniadau a'r targedau a bennir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Nid ydynt chwaith yn cynnig unrhyw obaith o ran gwiriadu targed y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan y gyfundrefn addysg rôl greiddiol yn y gwaith o gyrraedd y nod uchelgeisiol hwnnw, ond ni fydd y Cynlluniau presennol yn hwyluso hynny.

Dylai pob cynllun strategol fod yn gerbyd effeithiol i ddatrys y rhwystrau presennol sy'n llesteirio twf addysg Gymraeg a galluogi Awdurdodau Lleol i gynyddu lleoedd ac ehangu'r ddarpariaeth. Mae angen felly i'r siroedd bennu targedau clir a chydlynol yn seiliedig ar y weledigaeth fod dyletswydd arnynt bellach nid yn unig i ddiwallu'r galw ond yn hytrach i hybu twf.

Mae angen Cynlluniau sy'n cynnig gweledigaeth cwbl drawsnewidiol a chwyldroadol.

Isod, rhestrwn y prif feysydd sy'n peri pryder:

1. Fframwaith

Rydym yn bryderus bod fframwaith presennol y CSGAau yn ddiffygiol. Mae angen cyfundrefn sydd yn addas at y diben, ac ar sail profiad o graffu ar set cyntaf y Cynlluniau ac wedi cael golwg ar Gynlluniau drafft 2017-20, mae'n ofid nad yw'r drefn bresennol yn gosod yr amodau gorau i gyrraedd y nod.

At ei gilydd mae'r diffygion yn parhau, gyda Chynlluniau nad ydynt yn ddigon uchelgeisiol, ac oherwydd hynny, heb unrhyw obaith o gyfrannu at y targed cenedlaethol.

Y prif broblem yw strwythur y targedau - ymddengys na fydd modd sicrhau unrhyw dwf o fewn y cylch 3 mlynedd gan fod y plant eisoes yn y system. Mae nifer helaeth o siroedd i'w gweld yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r Cynllun nesaf, sy'n creu cylch dieiflig o ddiffyg twf. Mae targedau wedi'u gosod heb ffordd ystyrlon o'u mesur. Dyw'r system targedau presennol ddim yn gwobrwyo siroedd sydd yn agor dosbarth meithrin/derbyn o fewn y tair mlynedd ond na fyddant a phlant 7 oed yn y system erbyn 2020. Rhaid cydnabod targedau interim.

2. Creu'r galw

Credwn fod angen gosod targedau twf penodol ar gyfer y sector Meithrin a'r dosbarth Derbyn, gan mai dyma lle bydd modd gyrru'r twf er mwyn mesur llwyddiant Deilliant 1. Galwn am greu mesur ychwanegol (cynnydd mewn lleoedd Derbyn), a fydd yn galluogi'r siroedd i ddangos cynnydd a llwyddiant wrth hybu dilyniant o'r sector Meithrin i'r sector cynradd.

Rydym o'r farn mai drwy ganolbwyntio ar strategaethau i gynyddu'r niferoedd yn dobarthiadau Meithrin a Derbyn mae modd llwyddo i'r eithaf i sicrhau nifer uchel o blant 7 oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae diffyg targedau twf penodol h.y agor ysgolion newydd. Mae'n dda gweld rhai siroedd yn cyfeirio at sefydlu ysgolion o'r newydd e.e Penfro, er bod rhai wedi derbyn sêl bendith cyn oes y Cynllun. e.e Caerdydd. Deallwn fod cynlluniau ar y gweill mewn rhai mannau nad oes modd manylu arnynt, e.e. Y Powys (Y Trallwng). Mae peth anghysondeb yn y cynlluniau gan nad oes dyddiad neu leoliad pendant ar gyfer pob cynnydd. O safbwynt gweddill y siroedd ceir cynlluniau i adleoli neu ehangu'r ddarpariaeth bresennol. e.e. Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n adleoli'r ddarpariaeth ond ddim yn cynyddu nifer y lleoedd fydd ar gael).

Mae nifer o'r siroedd, gan gynnwys Abertawe, Caerdydd a Wrecsam yn gweld twf blynyddol o 5% + ond nid yw'r Cynlluniau yn eu ffurf bresennol yn cynllunio ar gyfer cwrdd â hynny heb sôn am greu twf pellach.

Drwyddi draw ceir gormod o naratif y gorffennol, gyda'r Cynlluniau yn parhau i ragymadroddi am yr hyn sydd eisoes wedi'i gyflawni a phenderfyniadau sydd wedi cael sêl bendith yn ystod oes y cylch cyntaf o Gynlluniau, yn hytrach na manylu ar gynigion dyfodol. Mae hynny'n gallu creu camargraff sylfaenol ac annidwylledd.

Mae RhAG yn gwerthfawrogi bod rhai o'r awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd ganddynt wrth hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yng nghyd-destun amcanion a thargedau Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru. Serch hynny, nodwn nad yw hyn gyfystyr â'r disgwyliad bod siroedd bellach yn mabwysiadu ymagwedd rhagweithiol ac yn symbylu a hyrwyddo twf yn y sector.

Byddai'r twf a nodwyd mewn nifer o'r CSGAau yn digwydd yn naturiol gan fod y plant eisoes yn y system. Adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol yw nifer o'r Cynlluniau. Yn hytrach na gosod camau sylweddol tuag at gynyddu'r niferoedd o blant sy'n derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae nifer helaeth o'r Cynlluniau yn ddisgrifiad o'r *status quo*. Os yw'r siroedd o ddifrif am eu cyfrifoldeb i ddatblygu addysg Gymraeg, mae'n rhaid cyflwyno strategaeth sy'n llawer mwy mentrus ac uchelgeisiol. Rydym yn poeni bod diffyg manylion yn y cynlluniau drafft yn rhoi'r argraff i gynghorwyr nad oes yna broblemau. Er enghraifft, yn Sir Fynwy, mae'r CSGA yn dal i nodi bod 'pwysau posibl' ar lefydd yn y Fenni o 2017-2020, er bod tystoliaeth gadarn bod yr ysgol yn orlawn yng CA1/2 eisioes ers blwyddyn a mwy a bod y sir heb gynllunio am yr angen am ddsbarth ychwanegol erbyn Medi 2017. Roedd y cynllun drafft a gyflwynwyd i gynghorwyr ym mis Hydref 2016 yn rhoi'r argraff bod llefydd gweigion yn yr ysgol, er bod swyddogion yn ymwybodol y byddai'r lleoedd gweigion yma wedi diflannu'n llwyr erbyn Medi 2017.

Er bod y Cynlluniau ar y cyfan yn nodi bod Awdurdodau Lleol am weld llwyddiant addysg Gymraeg, yn gyffredinol mae diffyg gweledigaeth ynghyd â chamau gweithredu rhagweithiol, pendant er mwyn cyrraedd targedau'r SACC. Mae llawer o'r cynlluniau'n ddisgrifiadol yn hytrach na bod yn ddatblygiadol, a phrin yw'r targedau penodol o ran niferoedd disgyblion a nifer ysgolion Cymraeg newydd. Does dim digon o dystiolaeth sy'n dynodi'r disgwyliad bod angen i ALL ysgogi a hyrwyddo twf addysg Gymraeg. Adlewyrchir hynny yn ieithwedd wan llawer o'r cynlluniau ble ceir datganiadau amwys y bydd siroedd yn 'ystyried', 'amcanu' neu'n 'monitro'r sefyllfa' yn hytrach na gweithredu o ddifrif.

Does dim digon o ddadansoddi lleol o safbwynt ysgolion unigol sy'n medru trawsnewid sefyllfa sirol. Prin iawn yw'r sylw a roddir i ysgolion sydd o fewn 10% i'w capasiti e.e. Caerffili, Wrecsam, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd. Mae gormod o osodiadau a thargedau cyffredinol, annelwig ac amhenodol sy'n rhoi camargraff o sefyllfa sir gyfan, ac yn celu gwendidau a all fod yn gysylltiedig â rhannau o'r siroedd neu ag ysgolion unigol. Yn amlach na pheidio mae llawer o'r hyn sy'n digwydd yn ddibynnol ar ysgolion unigol ac felly mae'n rhaid enwi'r rhain yn y cynllunio llunio camau gweithredu penodol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa e.e Sir Gaerfyrddin, Ceredigion

Tra'n cydnabod bod diffyg manylder yn anochel mewn rhai achosion, mae angen targedau mesuradwy i ehangu'r ddarpariaeth bresennol, gyda'r pwyslais ar sefydlu ysgolion newydd fel bod addysg Gymraeg ar gael yn fwy lleol ac o fewn pellter rhesymol.

Mae RhAG yn rhagamcanu y bydd angen 300 ffrwd + ychwanegol (30 o blant) er mwyn cyrraedd y nod. Ar hyn o bryd mae'r Cynlluniau'n syrthio'n brin iawn o'r targed hwnnw, ac felly o darged Llywodraeth Cymru.

Mae angen i bob Cynllun cronolegol fwydo i'w gilydd ac angen i pob cynllun lleol gyfrannu at gyrraedd targed cenedlaethol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a tharged ehangach y Strategaeth Iaith. Nid yw'n amlwg bod hyn yn digwydd ar hyn o bryd.

Teimlwn nad yw'r siroedd wedi cydio yn y feddylfryd o'r angen i **symbylu'r galw**. Mae angen cyfarwyddyd ar y siroedd i wneud hyn. Yn ogystal, dylid ystyried cynlluniau 5 mlynedd sy'n galluogi l'r siroedd asesu'r galw, ymateb i'r galw, cynllunio dosbarthiadau cychwynnol newydd a mesur niferoedd 7 oed sy'n derbyn addysg Gymraeg.

3. Hyrwyddo

Mae angen i'r CSGAAu fod yn gynllunio hyrwyddo, sef bod yr elfen hyrwyddo yn ganolog ac yn gyrru pob agwedd o'r ddogfen.

Mae diffyg pwyslais digonol, neu yn achos nifer o'r siroedd, dim pwyslais o gwbl ar hyrwyddo addysg Gymraeg yn rhagweithiol er mwyn symbylu twf. Prin yw'r targedau o ran strategaeth gydlynol, gyfannol i ddarparu gwybodaeth clir i rieni yn seiliedig ar ymchwil rhyngwladol yn y maes. Does dim cydnabyddiaeth o drosglwyddiant iaith yn y cartref a phontio defnydd iaith tu allan i'r dosbarth drwy fabwysiadau'r feddylfryd o daith iaith y teulu cyfan. Does fawr ddim cyfeiriad at gymhathu Ymgyrch Hyrwyddo Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru fel rhan ganolog o'r Cynlluniau.

Mae angen i'r Cyngor, a'r Llywodraeth, arwain ar y gwaith o hyrwyddo ac ysgogi diddordeb ac ymwybyddiaeth o Addysg Gymraeg, drwy gamau megis:

- sicrhau bod gwybodaeth am y ddwy drefn yn cael eu danfon yn gyfochrog at grwpiau Dechrau'n Deg, cylchoedd meithrin Saesneg a Chymraeg, grwpiau gofalwyr a phlant, ac at rieni gyda'r ffurflenni cofrestru, a bod y wybodaeth honno yn cynnwys gwybodaeth am drefniadau cludiant, gan fod ysgolion Cymraeg yn gwasanaethu dalgylchoedd mwy o faint nag ysgolion Saesneg
- sicrhau bod gwybodaeth am y ddwy drefn ar gael i werthwyr tai ac asiantaethau rhentu yn yr ardal i'w darparu i deuluoedd sy'n symud i mewn
- sicrhau bod y wefan a'r Llyfryn Gwybodaeth i Rieni yn gytbwys yn ei gwybodaeth (i fod yn deg, mae hyn wedi gwella yn ddiweddar)
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a manteision addysg Gymraeg / dwyieithrwydd i weithwyr rheng-flaen y Cyngor aci weithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn darparu'r un hyfforddiant i fydwagedd ac ymwelwyr iechyd a chanfod ffyrdd o rannu negeseuon cadarnhaol mewn modd cyson a thrylwyr.
- gweithio yn agos gyda'r Cynllun Cymraeg i Blant.

Ymhellach at hynny, mae angen cyd-berthynas llawer agosach rhwng y CSGAAu, Safon Iaith 145 a'r Strategaeth iaith: miliwn o siaradwyr.

Mae angen gosod targedau penodol ar gyfer tyfu niferoedd siaradwyr iaith: mae'n anorfod mai'r sector addysg yw'r prif beiriant ar gyfer cynhyrchu siaradwyr yr iaith. Pan gyhoeddwyd drafft gwreiddiol y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg roedd tabl yn nodi twf disgwylidig, yn ddibynol ar % y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y pryd, ar gyfer pob sir. Mae angen gosod targedau lleol o'r fath unwaith eto a nodi taw ardaloedd poblog gyda'r dwysedd lleiaf o siaradwyr Cymraeg fydd yn gorfod cyfrannu fwyaf at gyrraedd y targed.

4. Mesur y galw.

Does dim digon o sôn am fesur y galw nac ymateb i arolygon sydd eisoes wedi digwydd. Ychydig iawn sydd o dargedau penodol, heriol a mesuradwy wedi'u gosod fydd yn arwain at gynnydd gwirioneddol. Nid yw'n ddigonol cydnabod fod bwlch o ran gwasanaeth: mae angen gweithredu e.e CNPT, RhCT. Mae'r anghysondebau o ran methodoleg yn parhau.

Mae RhAG yn ymwybodol o nifer o achosion lle cynhaliwyd arolwg mesur galw, ond er profi'r galw, na chafwyd ysgolion newydd mewn ymateb i hynny. Dyna a ddigwyddodd yn Rhondda Cynon Taf

(2008), Bro Morgannwg (2013) a hefyd yng Nghastell-nedd Port Talbot, lle y mesurwyd y galw dair gwaith, ond lle na chafwyd cynllun i agor unrhyw ysgol gynradd Gymraeg newydd.

Mae rhai siroedd wedi cynnal arolwg mesur y galw yn ddiweddar, e.e. Torfaen, oedd yn dangos bod dros 22% o rieni yn awyddus i ddewis Addysg Gymraeg. Ond penderfynodd y Sir beidio cynnwys y wybodaeth hon yn y Cynllun gan ddewis cyflwyno Cynllun fydd yn cadw at y ddarpariaeth bresennol, sef tua 15%.

Mae arolygon mesur y galw yn profi'n gyson bod y galw ddwywaith neu hyd yn oed dair gwaith y ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Mae siroedd yn gyndyn iawn i weithredu ac agor ysgol newydd heb fod ganddynt dystiolaeth. Ydy hynny'n wir wrth agor ysgolion cyfrwng Saesneg?

Mae'r ofn o 'greu lleoedd gweigion' wrth agor ysgol newydd yn parhau'n broblem mewn rhai siroedd ac yn llesteirio unrhyw gynnydd.

5. Lleoedd gweigion

Mae capasiti ysgolion presennol yn fater sy'n peri cryn rwystredigaeth h.y. amharodrwydd siroedd i gydnabod bod llawer iawn o'r lleoedd gweigion i'w cael ym mlynnyddoedd uchaf yr ysgol ac yna defnyddir hynny fel esgus i beidio ehangu.

Mae Casnewydd, er enghraifft yn defnyddio llenwi ysgolion i gapasiti fel targed - ac er y bydd hynny'n cynyddu niferoedd, ni fydd ymdrech wedi mynd i gynyddu capasiti nac ychwaith y gwaith hyrwyddo i sicrhau twf o'r gwaelod i fyny. Mae Abertawe, yn dwyllodrus iawn, yn awgrymu bod 10.7% o'r llefydd mewn ysgolion Cymraeg yn wag. Ond mae modd priodoli'r rhan fwyaf o hyn i un ysgol newydd, sy'n dal i ddatblygu. Mae 8 o 11 ysgol Gynradd y sir o fewn 10% i'w capasiti, a thua 5 yn orlawn.

Enghraifft arall yw drafft CSGA Sir Fynwy, sy'n nodi bod llefydd gweigion (5.9%, 14 o lefydd) yn Ysgol y Fenni, ond dim ond yn Bl.5 a 6 mae'r llefydd gweigion hynny. Mae'r ysgol yn orlawn yn y Derbyn (40) / Bl.1 (38) gyda 34 yn barod wedi cofrestru ar gyfer mis Medi 2017.

Mae rhai Cynlluniau, megis Wrecsam, yn osgoi adlewyrchu'r ffaith bod dosbarthiadau Meithrin y Sir yn agos at fod yn llawn yn eu ffigurau swyddogol, serch bod mwyafrif ysgolion cyfrwng Cymraeg o fewn 10% i'w capasiti. Mae angen ehangu'r ddarpariaeth i gynnal y niferoedd calonogol yma.

Mae'r nifer prin iawn o lefydd gwag sydd yn debygol o fod ar gael mewn mannau sy'n anhygyrch i blant sydd wedi methu cael mynediad i ysgol dewis cyntaf eu rhieni neu, hyd yn oed, ysgol eu dalgylch. Felly camarweiniol yw datgan fod lleoedd gwag yn nifer o'r ysgolion am fod y rheiny yn aml yn rhy bell o gartref y plentyn e.e. Caerffili, Caerdydd, Wrecsam

Mae enghreifftiau o awdurdodau lleol yn methu manteisio ar gyfleoedd i ehangu addysg Gymraeg wrth greu'r cynlluniau hyn. Yng Nghaerffili a RhCT mae adeiladau gwag ar gael, neu a fydd ar gael yn fuan, mewn ardaloedd ble mae gwasgedd cynyddol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ond nid yw'r awdurdod wedi manteisio ar hyn i sefydlu rhagor o ysgolion Cymraeg.

Nodwn bod gwahaniaeth rhwng rheoli lleoedd a chynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth. Mae angen i'r Siroedd fod yn fwy tryloyw ynghylch eu bwriadau i gyflawni hyn yn ystod oes y Cynlluniau hyn.

Rhaid sicrhau bod siroedd yn cynnig niferoedd fesul blwyddyn a fesul ysgol fel atodiad i'w CSGA, a chyplysu'r ffigurau yma gyda arolygon y galw er mwyn canfod lle mae galw sydd heb ei ddiwallu.

6. Dilyniant

Mae cyfraddau dilyniant o'r Cylchoedd Meithrin i'r ysgolion yn isel mewn nifer o ardaloedd. E.e. Rhisga, Tredegar.

Gelli priodoli hyn i'r ffaith bod pellter yr ysgol Gymraeg agosaf ynghyd ag amseroedd teithio yn rhwystrau sylweddol i rieni. Mae'r datrysiad yn syml: mae angen sefydlu ysgolion lleoli wasanaethu'r ardaloedd hyn.

Ceir diffyg targedau i gau'r bwlch yn y dilyniant rhwng y cynradd – uwchradd. Mae yma ddiffyg uchelgais cyffredinol o ran cyflawni hyn.

Mae angen atal y patrwm o 'lithriad ieithyddol' sy'n digwydd yn bennaf ymysg disgyblion ysgolion ardaloedd traddodiadol Gymraeg. Mae canran uchel o'r rhain yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd lle y byddant yn dilyn cwrs Cymraeg ail iaith ac yn derbyn y cyfan neu'r mwyafrif o'u haddysg trwy gyfrwng y Saesneg.

Mae'r patrymau llithro'n amrywio yn ôl ardal ac yn ôl sir. Mae Conwy, Caerfyrddin a Chastell-nedd Port Talbot ymysg y siroedd gwannaf o ran dilyniant ieithyddol. O 120 o ddisgyblion cwm Tawe allai fod wedi trosglwyddo i addysg Gymraeg eleni, aeth 40 i ysgol uwchradd Saesneg.

Effaith y diffyg dilyniant hwn yw colli sgiliau ieithyddol a enillwyd yn y sector cynnar, a mantais gwbl annhegi'r disgyblion hyn mewn arholiadau dros eu cymheiriaid ail iaith.

Mae polisi cymeradwy Cyngor Sir Gaerfyrddin i symud ysgolion cynradd ar hyd y continwm ieithyddol yn un y dylai siroedd eraill ei fabwysiadu.

Dylid cael cymhariaeth rhwng canran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn CA3 a CA4 a nifer/canran siaradwyr Cymraeg y sir. Dylid defnyddio hyn fel echeli'r Cynllun a sefydlu cydberthynas agos rhwng y ddau fel erfyn cynllunio ieithyddol.

7. Categoriâu ieithyddol

Er bod diffiniadau ieithyddol wedi'u cynnig yn genedlaethol am wahanol sefydliadau addysgol, nid yw awdurdodau addysg lleol yn aml yn rhoi gwybodaeth glir i rieni am yr ysgolion yn eu gofal.

Rydym yn annog cymeradwyo'r argymhellad yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cynulliad sy'n nodi y dylid darparu Addysg Gymraeg o fewn sefydliadau lle y mae amgylchedd, yn hytrach nag o fewn ysgolion dwyieithog lle digwydd llawer o'r rhyngweithio rhwng staff a disgyblion yn Saesneg.

Dylid adolygu ar fyrder y ddogfen 'Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (dogfen wybodaeth rhif 023/2007, Hydref 2007). O safbwynt yr uwchradd, dylid cyfuno categori 1 a 2A a chreu categori newydd ar gyfer ysgolion 2B, C a Ch; sefydlu trefn cenedlaethol mwy tryloyw er mwyn

cyfrifo nifer y disgyblion ym mhob dosbarth, sy'n cael eu arholi ym mhob pwnc a'r drefn ariannu sy'n perthyn i hynny; sefydlu trefn a fyddai'n atal glastwreiddio darpariaeth cyfrwng Cymraeg e.e. israddio categori ieithyddol ysgol.

Rydym ar ddeall bod rhai ysgolion uwchradd yng Ngwynedd wedi dechrau cyflwyno mwy o bynciau trwy gyfrwng y Saesneg. Deallwn mai adwaith yw hyn i arolygon ESTYN diweddar, sydd wedi tynnu sylw at heriau o ran safonau yn y Saesneg. Adwaith yr ysgolion i hynny, mae'n debyg, yw cyflwyno nifer cynyddol o bynciau trwy gyfrwng y Saesneg er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae nifer o rieni yn bryderus bod hyd at draean o'r addysg mewn rhai ysgolion erbyn hyn yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg a hynny yn groes i ddymuniadau rhieni. Os oes angen cryfhau ac atgyfnerthu sgiliau iaith Saesneg rhai disgyblion mewn rhai ysgolion, onid y datrysiaid mwyaf rhesymegol yw buddsoddi a chefnogi ymhellach yn adrannau Saesneg yr ysgolion hynny yn hytrach na prif-ffrydio'r Saesneg trwy gwricwlwm yr ysgol gyfan?

8. Trefniadau Mynediad i Ysgolion

Mae angen adolygu'r broses Mynediad i Ysgolion. Wrth gyfeirio at y galw am greu mwy o siaradwyr Cymraeg dylid nodi bod siroedd fel Caerffili a Chaerdydd yn troi disgyblion i ffwrdd o'r ysgolion Cymraeg. Gorfodir rhai rhieni i yrru eu plant i ysgolion lleol am nad oes lle i'r plant hynny yn yr ysgol oedd eu dewis cyntaf. (Yn aml iawn yr ysgol fwyaf hygyrch yw un nad yw'n ysgol dalgylch y plentyn).

Weithiau ni wyddys bod plentyn wedi'i wrthod gan i'r rhieni osod ysgol leol fel ail neu drydydd dewis. Yna mae staff yr awdurdod, yn gwbl unol â pholisi, wedyn yn cynnig ysgol nad yw'n ysgol Gymraeg i'r plentyn. Byddai'n werthfawr, ar gyfer y dasg hon, cael gwybod yn union faint o blant a gafodd eu heffeithio fel hyn.

Gall y broses fod yn dwyllodrus. Mae angen eglurder ynghylch hyn ymhob sir.

Rydym yn cynnig y dylai'r Cynlluniau nodi manylion ynghylch nifer y ceisiadau blynyddol am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, capasiti'r ddarpariaeth a gwybodaeth am nifer yr apeladau a gafwyd am leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal â gwybodaeth am nifer yr apeladau llwyddiannus a pha gynnyg a gafodd rhieni a fu'n aflwyddiannus.

Awgrymw'n fod angen adolygu'r broses derbyniadau drwy ystyried pennu dalgylchoedd amlinellol i gynghori rhieni ac ystyried modelau o fewn y Strategaeth Trefniadaeth Ysgolion er mwyn sicrhau bod pob darpariaeth lleol i bob rhiant sydd yn ymgeisio am addysg cyfrwng Cymraeg.

9. Cludiant

Mae diffyg cyfeirio at gludiant. Mae llwyddiant addysg Gymraeg yn dibynnu ar gludiant. Nid yw'r Cynlluniau'n nodi sut mae'r Awdurdodau Lleol am 'hyrwyddo addysg Gymraeg' trwy gludiant, yn ôl y gofyn iddynt wneud hyn gan y Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae rhai Cynlluniau yn crybwyll bwriad i adolygu polisi cludiant cyfredol y cyngor e.e. Blaenau Gwent ac Abertawe.

Mae nifer o'r Cynlluniau yn colli'r cyfle i ddatgan a chydabod bod mwy o ddisgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg, ar y cyfan, yn gorfod teithio i dderbyn eu haddysg.

Gofynnwn i'r Siroedd dderbyn bod canran uwch o blant yn teithio i ysgolion Cymraeg, eu bod yn ddibynnol ar gludiant am ddim gan y Sir, ac y gellid peryglu deilliant 1 yn ei gyfanrwydd pe tynnid trafndiaeth i'r ysgol i'r plant lleiaf.

Mae agweddau eraill hefyd yn bryder fel teithio ôl 16 - mae tystiolaeth gynyddol nawr o ddigyblion yn dewis Addysg Saesneg a Cholegau Addysg Bellach (gan gynnwys rhai yn Lloegr) sy'n denu disgyblion trwy cynnig cludiant am ddim. Byddai unrhyw doriad i bolisi cludiant oedran statudol ac ôl 16 yn milwrio yn uniongyrchol yn erbyn unrhyw gynlluniau i ddatblygu addysg Gymraeg.

Rhaid gofyn i'r siroedd i ddatgan os ydynt yn codi tâl ar rhieni i ddanfôn eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Mae'r siroedd yn dueddol o adrodd diffyg dilyniant ôl 16 fel 'dewis rhiant', ond mae tystiolaeth gan RhAG bod polisi'r siroedd o godi ffioedd cludiant yn cael effaith anghymesur ar y sector cyfrwng Cymraeg, a bod hyn yn effeithio ar ddewisiadau rhieni ar drothwy lefel A, ond hefyd ar gyfraddau dilyniant cynradd - uwchradd.

10. Gweithlu

Pa waith sydd wedi ei wneud i fapio'r sefyllfa gyfredol er mwyn gosod gwaelodlin i bennu targedau ar gyfer blaengynllunio?

Oes ymarferiad wedi'i gynnal ar gyfer cael dealltwriaeth o sgiliau ieithyddol y gweithlu cyfan, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn y sector cyfrwng Saesneg?

Pwysydd â'r cyfrifoldeb o gasglu, coladu a dadansoddi data yn y maes ar hyn o bryd?

Pa drafodaethau sydd wedi'i cynnal gyda'r colegau hyfforddi athrawon a darparwyr hyfforddiant eraill er mwyn cynyddu capasiti ar draws yr holl sector? Beth yw'r cynllun gweithredu cyfannol ar gyfer cynyddu capasiti?

Does dim cynllun cydlynol ar hyn o bryd i hyfforddi athrawon newydd. Mae angen cynllun hir dymor ar fyrder, fydd yn amlinellu cynllun gweithredu ac yn gosod targedau tymor byr a chanolig er mwyn cynhyrchu'r gweithlu sydd ei angen.

Mae'r diffyg o ran gweithlu yn y maes Blynnyddoedd Cynnar angen sylw dybryd. Mae'r Mudiad Meithrin yn wynebu trafferthion cynyddol wrth ganfod unigolion cymwys i arwain ar waith y Cylchoedd Meithrin.

Mae RhAG yn ymwybodol bod nifer o siaradwyr Cymraeg, sydd newydd ymddeol neu'n dychwelyd i'r byd gwaith wedi cael plant, wedi datgan diddordeb ond nad oes unrhyw gymhwysterau gofal plant ganddynt. Ymddengys bod mwyafrif y cynlluniau yn anelu at wella sgiliau iaith Cymraeg pobl sydd eisoes gyda chymwysterau addysg Blynnyddoedd Cynnar. Oes yna gyrsiau digonol i hyfforddi pobl sydd eisoes â'r sgiliau iaith i addysgu yn y maes?

Profwyd sefyllfa heriol yn ddiweddar wrth geisio penodi pennaeth ar gyfer Ysgol Gyfun Gwynllyw, Torfaen; lle hysbysebwyd y swydd ond na dderbyniwyd unrhyw geisiadau. Gall amodau penodi (sef meddu ar gymhwyster CPCP) arwain at greisis recriwtio. Erbyn hyn mae pennaeth wedi'i phenodi, ar yr amod ei bod yn llwyddo i ennill y cymhwyster priodol erbyn Ebrill 2017. Roedd y llywodraethwyr yn hapus i'w phenodi hebdo. Nid yw Lloegr yn gofyn am y cymhwyster CPCP. Pam mae Llywodraeth Cymru yn mynnu gosod rhwystr ychwanegol o flaen darpar benaethiaid? Mae angen adolygu'r angen i benaethiaid feddu ar gymhwyster CPCP.

Yn osgystal â hyn byddai'n dda ystyried modelau eraill o reoli ysgolion, gan ystyried ffedereiddio ysgolion neu fodel Gwyned o benodi 'Penaethiaid Strategol' sy'n gyfrifol am fwy na un ysgol.

11. Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae'r ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig yn ddiffygiol mewn sawl rhan o Gymru, ac mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill. Mae angen gwneud awdit cyffredinol o'r ddarpariaeth fesul sir, a sicrhau bod cydweithio rhyngsirol yn cael ei hwyluso i roi tegwch i ddisgyblion sydd eisoes yn dioddef o anabledau neu anawsterau dysgu. Gallai'r cydweithio rhyngsirol hwn fod ar ffurf canolfannau rhagoriaeth rhanbarthol a fyddai'n cefnogi canolfannau lloeren.

Mae'n rhaid sicrhau bod darpariaethau atodol cyfrwng Cymraeg, e.e. iaith a lleferydd, seiciatreg, cymorth dyslecsia, ymddygiad, dosbarthiadau arsylwi ac ati, yn statudol.

Ceir o hyd enghreifftiau o 'arbenigwyr' yn cynghori rhieni i symud eu plant o'r sector cyfrwng Cymraeg i'r sector Saesneg gan ddatgan y byddai'r plentyn 'ar ei ennill' o wneud hynny. Mae hyn yn ddull o beidio darparu gwasanaeth Cymraeg, ac mae'n gwrthod hawl disgybl o gael addysg yn ei ddewis iaith.

Mae angen i'r Cynlluniau adlewyrchu'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol arfaethedig a'r Cod Ymarfer cysylltiedig.

12. Adnoddau dysgu

Mae diffyg sylweddol o ran adnoddau a gwerslyfrau yn y Gymraeg. Awgrymwyd bod cyn lleied â 10% o'r ddarpariaeth gyfredol ar gael yn y Gymraeg, gyda rhai pynciau yn dioddef yn enbyd o ran diffyg deunydd. Mae hyn yn cyfyngu ar allu athrawon i gyflwyno'r pwnc yn effeithiol, yn ychwanegu llwyth gwaith pellach ar athrawon sy'n wynebu gorfod cyfieithu deunydd ar eu liwt eu hunain ac yn medru effeithio'n andwyol ar iaith y dosbarth.

Ymddengys nad yw CBAC yn dod o dan gwmpawd y Mesur Iaith, ac eto mae'r gyfundrefn addysg yn rhan greiddiol o'r peirianwaith i gyrraedd targedau'r Llywodraeth o filiwn o siaradwyr.

Mae diffyg cydraddoldeb llwyr yn y drefn bresennol ac mae angen strategaeth, cynllun gweithredu a buddsoddiad digonol i unioni'r sefyllfa ar fyrder.

13. Adnoddau a chyllid cyfalaf

Mae'n anorfod bod angen cyllid ychwanegol sylweddol i ehangu Addysg Gymraeg.

Mae diffyg prosiectau o fewn Rhaglen Ysgolion 21G sy'n ymwneud ag addysg Gymraeg. Mae hynny'n peri gofid, gan na fydd cyfnod ariannu cyntaf y rhaglen yn dod i ben tan 2019/20. Yn rhyfedd iawn mae rhai siroedd sydd yn bwriadu buddsoddi wedi hepgor crybwyll hynny, e.e. Sir Gâr.

Beth yw'r blaenoriaethau Cronfa Ysgolion 21G? Mae angen eglurder o ran blaenoriaethau'r rhaglen ar gyfer y cyfnod ariannu nesaf. e.e. beth yw'r sefyllfa o ran yr agenda gwaredu lleoedd gweigion?

Ni fu blaenoriaethau y rhaglen flaenorol o unrhyw gymorth i Addysg Gymraeg ac mae'n rhaid ymateb i hynny.

Ble mae'r cyllid ychwanegol i gefnogi tyfu'r sector?

Os mai bwriad y Llywodraeth yw cyrraedd miliwn o siaradwyr: sut mae cyflawni hynny heb yr adnoddau priodol? Pa adnoddau sydd wedi eu neilltuo i sicrhau hyn?

Credwn yn gryf bod angen adolygu'r rhaglen ac y dylai cynyddu addysg Gymraeg fod yn faen prawf yn y rhaglen newydd ar ôl 2019/20. Ym ymarferol, rhaid adolygu'r mesurau l gydnabod trosi dosbarth i gyfrwng Cymraeg, a dechrau dosbarthiadau derbyn/meithrin newydd. Dylai niferoedd oed 7 fod yn fesur monitro yn hytrach na mesur canmol neu gwrthod cynllun.

14. Darpariaeth gynhwysol a chyfannol

Credwn fod angen llawer mwy o bwyslais ar gyfraniad Addysg Gymraeg o safbwynt yr Agenda Trechu Tlodi a byddai'n dda gweld pa strategaethau penodol y gallai'r Siroedd eu mabwysiadu i roi hyn ar waith.

Mae angen rhoi mwy o sylw ar gynulleidfaoedd llai amlwg, sydd ddim yn medru cael mynediad rhwydd at addysg Gymraeg ar hyn o bryd. Mae hynny'n cynnwys rhoi sylw i:

Ddarpariaeth alwedigaethol
Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol
Disgyblion o gefndiroedd llai breintiedig & darpariaeth Dechrau'n Deg
Cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig
NEET's

15. Cynllunio trefol

Mae diffyg cyfeiriad digonol at Gynlluniau Datblygu Lleol a'r effaith debygol ar y galw am addysg Gymraeg. Dylai bod y Cynlluniau hyn yn cynnwys datganiad polisi parthed datblygiadau tai newydd, er mwyn sicrhau bod canran deg o'r ysgolion ddaw yn sgil adeiladu ystadau tai newydd yn rhai Cymraeg. Mae datblygiadau tai o faint sylweddol yn yr arfaeth mewn nifer o siroedd gan gynnwys, RhCT, Bro Morgannwg, Caerdydd ond nid oes unrhyw gydnabyddiaeth o'r galw am addysg Gymraeg yn y cynigion hynny na chynnig i sefydlu ysgolion Cymraeg newydd.

Yn sgil hynny, mae'n allweddol bod croesyfeirio clir ac eglur rhwng y Cynllun a'r CDLI er mwyn dangos pa waith sydd wedi'i gynnal i asesu digonolrwydd lleoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd hynny gan ddefnyddio tystiolaeth ddiweddar o safleoedd tai arfaethedig yn ogystal â thystiolaeth bresennol o'r galw am addysg Gymraeg.

Rhaid osgoi'r tueddiad a'r rhagdybiaeth hanesyddol mai ysgolion cyfrwng Saesneg fydd unrhyw ysgol newydd.

Credwn fod angen cynnwys polisi i "gynyddu darpariaeth addysg Gymraeg yn ddigonol mewn ardaloedd ble mae tai newydd yn cael eu codi", ymhlith y polisiau cyffredinol

Datblygu trefol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol: mae angen cyfarwyddyd clir gan y Gweinidog o ran pennu cymeriad ieithyddol unrhyw ysgolion a ddaw yn sgil datblygiadau tai newydd.

16. Ysgogiad gwleidyddol

Mae angen ewylllys gwleidyddol cadarn ac ymrwymiedig tu ôl i'r Cynlluniau hyn, neu ymarferiad papur yn unig fydd yr holl broses. Pryderwn nad yw hyn yn realiti gwirioneddol ar lawr gwlad ym mhob sir.

17. Asiantaethau eraill

Awgrymw'n fod Estyn yn ddolen gyswllt rhwng y Llywodraeth, Awdurdodau Addysg ac ysgolion o ran:

- i. Dilyniant ieithyddol disgyblion o un cam addysg i'r nesaf
- ii. Darpariaeth sy'n cryfhau'r Gymraeg yn y sefydliadau addysgol
- iii. Dehongliad synhwyrol o ddwyieithrwydd wrth arolygu ysgolion

Mae angen ffurfioli'r berthynas rhwng y Byrddau Iechyd a'r ALI a rhoi lle iddynt ar y Fforymau y Gymraeg mewn Addysg.

18. Cyffredinol

Mae angen agwedd fwy cyfannol sy'n cydgysylltu'r holl bolisiau sy'n effeithio ar Addysg Gymraeg gan gynnwys y Blynyddoedd Cynnar, Dechrau'n Deg, Mynediad Ysgolion, Cludiant ayb. Mae angen datganiadau polisi clir mewn perthynas â'r holl feysydd allweddol yma yng nghorff y Cynlluniau hyn.

Partneriaeth rhwng llywodraeth ganol a lleol yw cyflawni nod ac amcanion y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gyda chyfrifoldebau'n gorwedd ar y ddwy ochr. Mae'r cyswllt rhwng llywodraeth ganol a llywodraeth lleol yn broblem barhaus. Mae'r pwerau gweithredu mewn sawl maes yn nwylo awdurdodau lleol ond am y tro cyntaf erioed gan llywodraeth ganol mae'r awenau dros bolisi cenedlaethol ynghlwm â chynllunio addysg Gymraeg.

Mae'n glir nad yw'r mwyafrif o'r Cynlluniau hyn wedi cyrraedd y safon ddisgwyliedig gan fod aneglurder sylweddol ynglŷn â'r dulliau y bydd awdurdodau lleol yn eu mabwysiadu i gyflawni'r targedau sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

Mae RhAG yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb yn gadarn i hyn ac yn pwysu ar y Gweinidog Addysg i ddefnyddio'r grymoedd sydd yn ei feddiant i wrthod cynlluniau gwan, cyffredinol ac amwys.

Rhaid rhoi neges glir na fydd diffyg cydymffurfiaeth yn dderbyniol er mwyn cymryd y cyfle i droi consensws ac ewylllys gwleidyddol cenedlaethol yn weithredu o ddifrif ar lawr gwlad yn ystod ail gylch y Cynlluniau hyn.

CSGAau: pwyntiau allweddol

| Sir | Pwyntiau allweddol | Argymhellion RhAG | Rheswm |
|----------|---|---------------------------------|--|
| Abertawe | <ul style="list-style-type: none">Nid yw'r Sir yn crybwyll yr 8 ysgol Gymraeg sy'n agos at lenwi neu sydd wedi gorlenwi ac nid yw felly'n | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none">Angen cynlluniau pendant i ddatrys sefyllfa'r 8 ysgol sy'n |

| | | | |
|----------------------|--|---------------------------------|--|
| | <p>cynnig modd o ddatrys y sefyllfa. Nid yw'r Cynllun yn cynnig targedau twf. Nid yw gweledigaeth o 'fonitro' tueddiadau yn ddigonol. Nid yw'r Sir yn cyfeirio at y bwriad i symud Ysgol Gynradd Tirdeunaw o'i safle, nac yn trafod effaith andwyol symud un o'r ysgolion Cymraeg mwyaf llwyddiannus yn Abertawe. Nid yw'r Sir yn cadw at ddulliau'r Llywodraeth o fesur y galw, felly bydd unrhyw fonitro'n digwydd ar sail gyfeiliornus.</p> | | <p>agos at orlenwi neu sydd wedi'u gorlenwi</p> <ul style="list-style-type: none"> • Angen targedau penodol i ddelio ag ardaloedd lle nad oes ysgolion Cymraeg. • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. • Nid yw'r cynllun yn rhagweld twf nac yn paratoi at hynny. |
| Blaenau Gwent | <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r Cynllun yn cynnig targedau twf, na bwriad i agor ysgolion newydd mewn ardaloedd lle mae galw e.e. Tredegar. Yn wir, roedd 4.6% (36) o blant 7 oed mewn Addysg Gymraeg yn 2016, sy'n ostyngiad ar ffigyrau 2014/15, sef 5.4%. Does dim targedau twf wedi'u gosod ar gyfer 2019 na 2020, er bod 41 o blant eisoes yn y Meithrin yn 2016/17. Cyfraddau dilyniant Meithrin – Cynradd yn isel. Bwriad i adolygu polisi cludiant yn 2016-17, sy'n peri pryder. Nid yw'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu rhieni'r Sir, sef pellter y ddarpariaeth o'r cartref, amseroedd teithio a diffyg cludiant i blant oedran cyn-ysgol. Nid yw'r rhwystrau hyn yn gwneud Addysg Gymraeg yn ddewis teg. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Angen targedau penodol i ddelio ag ardaloedd lle nad oes ysgolion Cymraeg e.e Tredegar, Glyn Ebwy • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. • Dim targedau ar gyfer pendant ar gyfer twf yn y Meithrin. |
| Bro Morgannwg | <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg ymrwymiad i gynyddu argaeledd Addysg Gymraeg yn y Sir. Dim cynlluniau i sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle mae gwasgedd ar leodd / dim | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. • Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd ble |

| | | | |
|------------------|--|---------------------------------|--|
| | <p>addysg Gymraeg o fewn pellter rhesymol: Cosmeston (diwallu'r galw yn y Sili ac ochr ddeheuol Penarth); Pentir (diwallu'r galw yng nghanol y dref); datblygiad y Glannau, Y Barri; ychwanegu ffrwd i Ysgol Iolo Morgannwg, Y Bontfaen. Mae diffyg enbyd o ran darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg yn ardal Penarth. Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir.</p> | | <p>mae gwasgedd cynyddol ar leoedd e.e. Y Barri, Penarth, Y Bontfaen, Y Rhws</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir. |
| Caerdydd | <ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r Cynllun yn cynnwys cynigion i sefydlu ysgolion newydd ar gyfer ardaloedd lle mae gwasgedd ar leoedd ar hyn o bryd: Melin Trelai/Nant Caerau, dosbarth cychwynnol ar gyfer datblygiad newydd Radyr/Rhydlafer/Y Creigiau, Llandaf (ffrwd ychwanegol). Dim cynlluniau i fynd i'r afael â'r angen am bedwaredd ysgol uwchradd. Dim ymrwymiad i hybu a hyrwyddo twf yn y galw am Addysg Gymraeg. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Dim cynigion i sefydlu ysgolion newydd ar gyfer Melin Trelai/Nant Caerau, dosbarth cychwynnol ar gyfer datblygiad newydd Radyr/Rhydlafer/Y Creigiau, Llandaf (ffrwd ychwanegol). • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. • Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf pellach yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir. • Dim targed i gynllunio ar gyfer pedwaredd ysgol uwchradd |
| Caerffili | <ul style="list-style-type: none"> • Rhaid cydnabod bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi arwain y ffordd dros y blynyddoedd diwethaf wrth ymateb yn rhagweithiol i gynyddu darpariaeth addysgol cyfrwng Cymraeg. Mae angen i'r Sir beidio a gorffwys ar ei rhwyfau ac i barhau i ymateb yn rhagweithiol trwy ehangu'r ddarpariaeth mewn rhannau o'r Sir sydd (i) yn gwegian | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. • Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd: Rhisga, Bedwas Tretomos a Machen, Coed Duon |

| | | | |
|-------------|---|---------------------------------|---|
| | <p>dan wasgedd cynyddol am leoedd ychwanegol, (ii) angen ysgolion lleol newydd er mwyn cynnig darpariaeth o fewn pellter rhesymol Mae ystadegau, ers tro bellach, yn dangos twf yn Ardal Rhisga a Cross Keys; Canol Cwm Sirhywi; Basn Caerffili ond nid yw'r Cynllun hwn yn amlinellu cynigion i ddiwallu'r galw hwnnw. Mae nifer helaeth o ysgolion cyfrwng Cymraeg y Sir o fewn trothwy capasiti 10% ond nid yw'r Cynllun yn manylu dim am hyn. Mae'r ffigyrau'n dangos y bydd angen darpariaeth uwchradd ychwanegol yn ystod y 7 neu 8 mlynedd nesaf. O ddysgu cymaint o amser y cymerwyd i sefydlu'r Gwyndy mewn adeilad gwag oedd ar gael, mae'n bryd ystyried darpariaeth uwchradd bellach nawr. Dydy'r Cynllun ddim yn mynd i'r afael â hyn.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> • Dim manylion ynghylch ehangu'r ddarpariaeth uwchradd. • Dim targed pendant ar gyfer darpariaeth trochi hwyrddyfodiaid yn y Sir. |
| CNPT | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cynllun yn annigonol ac yn adlewyrchu diffyg ymrwymiad i ehangu a chynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Adlewyrchiad o'r sefyllfa bresennol yn unig yw'r Cynllun. Mae angen cynigion i hybu addysg Gymraeg ac agor ysgolion Cymraeg mewn ardaloedd megis Sgiwen lle mae data'r cyngor eisoes wedi arddangos fod galw am addysg gynradd Gymraeg. Bydd y twf a nodwyd yn y ddogfen hon yn digwydd yn naturiol - mae'r plant hyn eisoes yn y system. Mae angen cyflwyno strategaeth sy'n llawer mwy mentrus ac uchelgeisiol. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. • Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd: Llandarsi / Sgiwen, Castell-nedd, Pen Afan, Taibach, Bryncoch • Dim targedau twf yn y sector Meithrin a darpariaeth Dechrau'n Deg • Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf pellach yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir. |

| | | | |
|-------------------|--|---------------------------------|--|
| | <p>Mae'r Sir yn darparu 40 o leoedd gofal Dechrau'n Deg trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n cyfateb i 7.84% o'r ddarpariaeth bresennol. Mae canran y plant 7 oed mewn addysg Gymraeg yn yn 18.3%, felly mae'n amlwg nad yw'r ddarpariaeth yn dod yn agos at y ganran bresennol sy'n derbyn addysg Gymraeg yn CNPT.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> Nid oes ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i hagor yn y Sir ers 1997 |
| Casnewydd | <ul style="list-style-type: none"> Nid oes unrhyw dwf yma dros y 3 mlynedd nesaf. Mae angen nodi'r ymrwymiad i agor pedwaredd Ysgol Gynradd Gymraeg yng ngorllewin y ddinas o fewn cyfnod y Cynllun. Nid oes digon o sylw yn cael ei roi i ardaloedd penodol o Gasnewydd e.e. edrych ar ddatblygiad Addysg Gymraeg yn y de orllewin lle nad oes Ysgol Gymraeg leol ond dyna lle y bydd lleoliad Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ym Medi 2018. Nid oes sôn am sut y mae'r darpariaethau cyn Ysgol yn mynd i fwydo'r blynyddoedd cynnar. Mae angen targed i sefydlu darpariaethau mewn partneriaeth gyda Mudiad Meithrin. Nid oes manylion am sut yn union y bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo Addysg Gymraeg dros gyfnod y cynllun a sut fydd hyn yn cael effaith ar niferoedd y dyfodol. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. Dim targedau twf yn y sector Meithrin Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf pellach yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir. Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd. |
| Ceredigion | <ul style="list-style-type: none"> Nid oes manylion am sut bydd y ganran o blant saith oed yn cynyddu. Meddir bod 75% yn gymharol sefydlog, ac mae'r targedau'n anelu at 78%-80%. Pa dystiolaeth | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â chydbwysedd addysg |

| | | | |
|---------------------|--|--|---|
| | <p>sydd am hyn o ran y disgyblion sydd eisoes yn nosbarthiadau derbyn ysgolion? Meddir mai'r her yw cynnal y waelodlin o fwy na 70% ond nid oes yma dargedau ar gyfer cynyddu addysg Gymraeg yn arbennig yn ardal Aberystwyth, lle mai'r ganran mewn addysg Gymraeg o gwmpas 30%, sy'n siomedig. Mae angen rhoi sylw manwl i ysgolion Aberaeron, Aberteifi, Bro Pedr a Phenglais o ran disgyblion sy'n dysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Dyma adran wannaf addysg iaith gyntaf yng Ngheredigion. Drwy'r sir mae llai na hanner o ddisgyblion iaith gyntaf yn astudio o leiaf ddau bwnc trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn debygol o arwain at gollisgiliau ieithyddol. Mae canrannau isel iawn o ddisgyblion iaith gyntaf yn sefyll 5 neu ragor o bynciau TGAU trwy'r Gymraeg. Mae hyn yn wendid mawr eto.</p> | | <p>Gymraeg/Saesneg yn benodol yn ardal Aberystwyth, a hefyd Aberteifi.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes gwybodaeth yma am sut bydd y Cyngor yn rhoi gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg i rieni ac eithrio trwy Siarter Iaith Erw. • Mae angen gosod targedau mwy heriol o ran cynyddu nifer y disgyblion iaith gyntaf yn sefyll 5 neu ragor o bynciau TGAU trwy'r Gymraeg. |
| <p>Conwy</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Cynllun yn cynnig cynnydd o 25% i 26% Bydd y galw'n cael ei fesur yn 2017. Mae arolwg ORS wedi dangos bod 70% o rieni 25-34 oed am ddewis addysg Gymraeg. OND mae angen i gynlluniau'r Sir, er yn cynnig rhagor o ddarpariaeth yn Abergele, adlewyrchu'r dymuniad cryf hwn. Trosglwyddo cynradd: uwchradd. Mae tua 20% o blant cynradd iaith gyntaf yn dal i gael eu colli wrth drosglwyddo. Dyna mae modd ei ddehongli, er nad yw'r Sir yn nodi hyn. Mae | <p>Gwrthod y cynllun drafft</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd yn unol ag arolygon mesur y galw • Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd. • Byddai'n dda i'r Sir fabwysiadu polisi swyddogol o symud ysgolion ar hyd y continwm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel man cychwyn. |

| | | | |
|----------------|--|---------------------------------|---|
| | <p>sôn am ddisgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Brynhyfryd, heb wybodaeth am eu cyfrwng dysgu yno. Mae'r Cynllun yn son am ddisgyblion iaith gyntaf sydd mewn ysgolion Saesneg, ac nid oes ystadegau am y rhain. Mae angen holi am y rhain. Mae angen gwybodaeth ganrannol yn ogystal â niferoedd. Mae yma rai nodweddion gobeithiol, ond nid yw'r gweithredu'n cyfateb i'r weledigaeth uchelgeisiol, nac ychwaith i ganfyddiadau arolwg ORS.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> Mae angen atal y llithriad a chau'r bwllch o ran dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd. Dylid anelu i gau'r bwllch yn llwyr. |
| Dinbych | <ul style="list-style-type: none"> Mae diffyg targedau penodol o ran cynyddu plant yn y sector cyn ysgol a thargedau twf mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin. Yn y Cynllun blaenorol roedd targedau clir, penodol, mesuradwy i ddatblygu'r ddarpariaeth mewn ardaloedd newydd. Mae angen cynllun gweithredu tebyg ar gyfer y Cynllun hwn. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod gwaith sylweddol i'w wneud o ran cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd. Byddai'n dda i'r Sir fabwysiadu polisi swyddogol o symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol (tebyg i Gyngor Sir Gâr) a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel man cychwyn. Rydym yn eithriadol falch o'r penderfyniad terfynol a wnaethpwyd parthed Ysgol Pentrecelyn. Mae'n hollbwysig nad oes unrhyw gynigion i ad-drefnu neu resymoli trefniadaeth | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd. Byddai'n dda i'r Sir fabwysiadu polisi swyddogol o symud ysgolion ar hyd y continwmm ieithyddol a chynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen fel man cychwyn. Mae angen atal y llithriad a chau'r bwllch o ran dilyniant ieithyddol rhwng y cynradd a'r uwchradd. Dylid anelu i gau'r bwllch yn llwyr. |

| | | | |
|----------------|---|--|--|
| | lleoedd ysgolion yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol allai arwain at lastwreiddio natur ieithyddol y ddarpariaeth. | | |
| Fflint | <ul style="list-style-type: none"> Mae yma sôn am dwf o 6.6% i 7.4% mewn addysg Gymraeg erbyn 2019. Ond gan mai 113 sydd mewn addysg Gymraeg ym mlwyddyn 1, mae'r twf mewn niferoedd bron yn ddibwys yn ystadegol. Mae'r Sir yn dadlau mai eu problem yw bod gormod o lefydd gwag mewn ysgolion Cymraeg (e.e. Mornant, 37 disgybl alle i 81, Terrig, 46 disgybl, lle i 93). Ond yn yr ysgolion cynradd mawr (Glanrafon a Chroes Atti), mae'n wahanol: Mewn ymateb i Ysgol Glanrafon (292 disgybl, lle i 287) yr ateb yw cynnig caban i'r ysgol. Mae angen meddwl mwy creadigol o lawer a phennu ble byddai'n dda ystyried ysgol ychwanegol. Yn Ysgol Croes Atti (217 disgybl alle i 237) mae'r ymateb yn well, gyda safle ychwanegol o dan ei rheolaeth. Mae angen hyn o leiaf am Ysgol Glanrafon. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd. Angen cynlluniau mwy mentrus a chreadigol i ehangu'r ddarpariaeth Dim ymrwymiad i hyrwyddo a symbylu twf pellach yn y galw Addysg Gymraeg yn y Sir. |
| Gwynedd | <ul style="list-style-type: none"> Mae'n dda gweld bod y Sir yn llwyddo i gadw canran y plant sy'n astudio'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn agos at 100%. Yn wyneb llwyddiant addysg gynradd Gymraeg yng Ngwynedd mae peth pryder am ddilyniant i'r sector uwchradd. Mae'r ganran dilyniant yn 2016 yn debyg i 2011 a byddai'n dda cael targedau cryfhau sy'n fwy uchelgeisiol, gan nad oes | Derbyn y cynllun drafft gyda rhai gwelliannau | <ul style="list-style-type: none"> Angen pennu targedau i gryfhau dilyniant ieithyddol o'r cynradd – uwchradd. Dylid bod yn fwy agored ynglyn â'r diffyg dilyniant, sydd i'w briodoli, i un ysgol yn bennaf. Mae angen i'r Cynllun hwn nodi canran dilyniant yr ysgol hon, a gosod targedau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. |

| | | | |
|-----------------------|--|--|--|
| | <p>rheswm addysgol dros beidio sicrhau dilyniant.</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn cydreded â hyn, mae cwmp cyfatebol yn nifer y disgyblion sy'n astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda disgyblion 16-19 oed mae canran y pynciau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg yn is eto, ac mae canran y pynciau a astudir yn ddwyieithog yn uchel. Nid oes yma ystadegau am arholiadau a safwyd trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae lle i gredu mai lleiafrif o'r myfyrwyr 'dwyieithog' sy'n dewis ennill cymwysterau trwy'r Gymraeg. Mae angen nodi'r ffigurau a'r canrannau am y rhain, a gosod targedau twf penodol. Ymddengys bod rhai ysgolion uwchradd yng Ngwynedd wedi dechrau cyflwyno mwy o bynciau trwy gyfrwng y Saesneg. Mae nifer o rieni yn bryderus bod hyd at draean o'r addysg mewn rhai ysgolion erbyn hyn yn cael ei gyflwyno trwy gyfrwng y Saesneg a hynny yn groes i ddymuniadau rhieni. | | <ul style="list-style-type: none"> Mae cwmp o 16% erbyn CA3, ac er bod hyn yn dangos peth llwyddiant yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae angen i'r Cynllun fynd i'r afael â chau'r bwlch ymhellach. Mae'n rhyfedd gweld bod gan y Sir niferoedda chanrannau cymharol uchel sy'n astudio'r Gymraeg yn ail iaith, a'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn wedi astudio'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn y sector cynradd. Mae angen holi o ddifri a yw hyn yn golygu bod mesur o dwyll yn y system ail iaith yn y Sir. Os oes angen cryfhau ac atgyfnerthu sgiliau iaith Saesneg rhai disgyblion mewn rhai ysgolion, onid y datrysiaid mwyaf rhesymegol yw buddsoddi a chefnogi ymhellach yn adrannau Saesneg yr ysgolion hynny yn hytrach na prif-frydio'r Saesneg trwy gwricwlwm yr ysgol gyfan? |
| <p>Merthyr</p> | <ul style="list-style-type: none"> Diffyg ymrwymiad i hybu a symbylu twf a chynllunio darpariaeth sy'n lleol ac yn hygyrch i gwrdd â'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Mae'r Cynllun yn cyfeirio at 'gynnydd cyson' yn y nifer o blant 7 oed sy'n derbyn Addysg Gymraeg yn y Sir dros y blynyddoedd diwethaf, twf o 1.8% sy'n cyfateb i gynnydd o 2 blentyn ers 2014. Mae ffigurau'n dangos y bydd un ysgol (Rhyd-y-grug) yn llawn ymhen blwyddyn. Nid yw'r | <p>Gwrthod y cynllun drafft</p> | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisioli gynyddu niferoedd. Dim targedau i ddatrys rhwystrau presennol, sef pellter y ddarpariaeth o gartrefi teuluoedd a phellteroedd/amseroedd teithio. Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd e.e. Bedlinog (ar gyfer Cwm y Taf |

| | | | |
|---------------|---|--|--|
| | <p>Cynllun yn manylu sut y bydd y Sir yn ymateb i hyn. Dim cynlluniau ar gyfer ymateb i anghenion hwyrddyfodiaid yn y Sir. Dim ond 9% o ddarpariaeth Dechrau'n Deg y Sir sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg (24 lle gofal plant). Mae cyfraddau dilyniant rhai o'r Cylchoedd Meithrin yn isel. Mae angen ymateb i hyn trwy gynyddu argaeledd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.</p> | | <p>Bargoed) & Dowlais / Cefn-coed-cymer</p> <ul style="list-style-type: none"> Nid oes ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i hagor yn y Sir ers 1976. |
| Mynwy | <ul style="list-style-type: none"> Dangosodd yr arolwg diweddaraf (CSGA: Annex 4) ddangos bod yna alw am ysgol Gymraeg yn Nhrefynwy (sy'n adlewyrchu canfyddiadau pob arolwg ers 2009). O gyfuno hyn a'r ffaith bod dosbarth CA1 Ysgol y Fenni yn orlawn yn 2016-17 ac yn debyg o fod mewn gwaeth sefyllfa erbyn 2017-18, does dim cynllun pendant yn y CSGA i agor ysgol newydd yn 2017 i leihau'r pwysau ar Y Fenni a diwallu'r galw yn ardal Trefynwy. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> Angen cynllun pendant i agor ysgol gynradd newydd yn ardal Trefynwy a sicrwydd cyllid i alluogi Ysgol y Fenni i bontio'r cyfnod (2017-18) tan fo'r ysgol newydd ar gael. |
| Penfro | <ul style="list-style-type: none"> Mae'n dda gweld nod o sefydlu ysgol 3-16 yn Hwlfordd. Byddai'n dda cael ystyriaeth yma o ddilyniant addysg 16-18. Byddai'n dda cael gweledigaeth fwy rhagweithiol sy'n sôn yn benodol am gynyddu niferoedd yn gam at dwf addysg Gymraeg ac yn rhan o'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae diffyg targedau penodol o ran cynyddu plant yn y sector cyn ysgol a thargedau twf mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin. Byddai'n | Derbyn y cynllun drafft gyda rhai gwelliannau | <ul style="list-style-type: none"> Angen mwy o fanylder ynghylch y bwriad gynyddu niferoedd yn y sector cynradd. Angen targedau twf yn y sector Meithrin. Angen pennu targedau i gryfhau dilyniant ieithyddol o'r cynradd – uwchradd. |

| | | | |
|----------------------------------|--|--|--|
| | <p>dda ymgorffori hyn yn y Cynllun. Mae angen gwybod pam bod 27% o'r disgyblion yn cael eu colli i'r sector ail iaith wrth symud i'r uwchradd. Mae'r golled yma gyda'r mwyaf yng Nghymru ac mae angen astudiaeth fanwl i wybod y rhesymau a sut i ddatrys hyn.</p> | | |
| <p>Pen-y-bont ar Ogwr</p> | <ul style="list-style-type: none"> Er bod cyfeiriad amwys at 5% o dwf dros y dair mlynedd nesaf, mae diffyg taredau pendant o ran cynyddu'r niferoedd. Mae'r Cynllun yn cadarnhau bod un ysgol gynradd yn llawn a 3 o'r 4 ysgol o fewn capasiti 10% ond nid oes unrhyw gynigion i ymateb i hyn. Mae Ysgol Bro Ogwr wedi bod dan ei sangers blyneddodded ac wedi gorfod gwrthod plant oherwydd hynny. Mae angen cynllun pendant i dynnu'r pwysau oddi ar yr ysgol a chynyddu'r ddarpariaeth yn nhref Pen-y-bont. Mae llwyddiant y Cynllun yn ddibynnol ar ymrwymiad i agor ysgolion newydd. Mae angen strategaeth bendant i fynd i'r afael â'r nifer sylweddol o blant sy'n cael eu colli rhwng CA2 a CA3. | <p>Gwrthod y cynllun drafft</p> | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau pendant i gynyddu niferoedd. Dim targedau i ddatrys rhwystrau presennol, sef pellter y ddarpariaeth o gartrefi teuluoedd a phellteroedd/amseroedd teithio. Angen targedau penodol i sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd / lle mae gwasgedd ar leoedd e.e. Pen-y-bont, Sarn/Tondu, Porthcawl Nid oes ysgol gynradd Gymraeg newydd wedi'i hagor yn y Sir ers 1988. |
| <p>Powys</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae'n dda gweld cynnigi i sefydlu ysgol gynradd yn Y Trallwng. Mae'r Cynllun yn parhau'n ddiffygiol o ran y sector uwchradd. Dim ymrwymiad pendant i agor ysgol (ion) uwchradd cyfrwng Cymraeg penodedig. Diffyg cydraddoldeb. Diffyg dilyniant ieithyddol llawn. Parhau i fygu a llesteirio twf | <p>Gwrthod y cynllun drafft</p> | <ul style="list-style-type: none"> Angen targedau twf yn y sector Meithrin. Methiant i hyrwyddo a hybu twf Angen targedau pellach i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd. |

| | | | |
|------------------------|---|---|---|
| | <p>yn y cynradd ac felly'n wendid sylfaenol yn y Cynllun.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> • Angen datganiad polisi diamwys sy'n mabwysiadu'r egwyddor mai Ysgolion Cyfrwng Cymraeg Dynodedig yw'r model a ffeirir wrth gyflwyno addysg Gymraeg yn y sector cynradd a'r uwchradd. |
| RhCT | <ul style="list-style-type: none"> • Mae diffyg targedau twf yn y Cynllun dan sylw, sy'n gwneud y sylwebaeth yn llai ystyrllon. Mae angen gwybod pa dwf a ragwelir gan y sir a sut bydd y weledigaeth hon yn cael ei gwireddu. Felly hoffem weld targedau mwy uchelgeisiol ar gyfer cynyddu niferoedd a chanran y plant 7 oed sy'n derbyn addysg Gymraeg yn y sir i gyrraedd 25% erbyn 2019/20. Mae yna nifer o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg wedi bod o fewn 10% i'r capasiti ers blynnyddoedd. Mae hyn yn arbennig o wir yn ne Taf Elái a hefyd Cynon. Mae gwasgedd ar leoedd yn ardal Castellau a Gartholwg – mae lle i ehangu yno ond nid Gartholwg oherwydd natur y safle. Diffyg cynlluniau i ddarparu trochi ieithyddol ar gyfer hwyrddyfodiaid. | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Diffyg targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. • Angen targedau penodol i sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle nad oes darpariaeth leol ar hyn o bryd / lle mae gwasgedd ar leoedd e.e. Ffynnon Taf, Castellau neu/a Gartholwg [ychwanegu ffrwd], canol Cynon • Diffyg targed pendant ar gyfer darpariaeth trochi hwyrddyfodiaid yn y Sir. |
| Sir Gaerfyrddin | <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes manylion pendant ynghylch sut bydd y ganran o blant saith oed yn cynyddu. Mae'n sôn am beth cynnydd - twf sy'n llai na 3% dros hyd bywyd y Cynllun - ond nid oes yma awgrym o sut i gynyddu hyn, nac ymhle. Mae yma gyfle i roi sylw i ysgolion ac ardaloedd pendol yn y Sir. Mae angen | Derbyn y cynllun drafft gyda gwelliannau | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. • Mae angen cynnwys targedau twf pendant ar gyfer y sector cyn ysgol mewn cydweithrediad â Mudiad Meithrin. |

| | | | |
|----------------|--|---------------------------------|---|
| | <p>i'r Cyngor fynd i'r afael â chydbwysedd addysg Gymraeg/Saesneg yn ardaloedd trefol y sir, ac yn benodol yn ardal Llanelli a Rhydaman. Gwyddom eisoes fod galw cynyddol am leoedd dros y blynyddoedd diwethaf yn Ysgol Gymraeg Dewi Sant. Deallwn fod y sefyllfa rhywbeth tebyg yn Ysgol y Ffwrnes ac Ysgol Brynsierfel. Mae 42.2% o ddisgyblion Blwyddyn 9 y Sir yn cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf. Serch hynny, mae'n dda gweld bod y symud traddodiadol tuag at y Saesneg rhwng CA2 ac CA3 yn cael ei leihau. Ond mae hyn yn parhau i fod yn golled sylweddol o'r nifer sy'n astudio'r Gymraeg yn iaith gyntaf yn CA2. Mae'r ganran o 42.2% yn sylweddol is na chanran siaradwyr Cymraeg y Sir. Unwaith eto byddai'n dda cael niferoedd gyda'r canrannau. Mae targed wedi'i nodi o 45% erbyn 2019/20.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> • Mae angen rhaglen gadarn i weld newid sylweddol yn y canrannau trosglwyddo o CA2 i CA3. • Angen gosod targedau mwy heriol o ran cynyddu nifery disgyblion iaith gyntaf yn sefyll 5 neu ragor o bynciau TGAU trwy'r Gymraeg a gwella niferoedd sy'n mynd ymlaen i astudio'r Gymraeg fel pwnc Lefel A. • Angen strategaeth i wella darpariaeth ADY drwy gyfrwng y Gymraeg a llenwi'r bylchau presennol. |
| Torfaen | <ul style="list-style-type: none"> • Er bod rhai agweddau cadarnhaol i'r weledigaeth nid yw'r Cynllun ei hun yn cynnig dim byd newydd o ran hybu a symbylu twf Addysg Gymraeg yn y Sir. Mae cael llai o blant ym Mlwyddyn 2 yn 2019/20 na sydd yn 2016/17 yn diffygion uchelgais y Cynllun hwn. Nid yw gosod targed twf o 13% yn uchelgeisiol, o ystyried mai dyma oedd targed twf y Cynllun blaenorol. Er bod y sir wedi cynnal arolwg mesur y galw yn 2016, nid | Gwrthod y cynllun drafft | <ul style="list-style-type: none"> • Dim targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. • Dim targedau twf ar gyfer y Meithrin • Methiant i hyrwyddo a hybu twf Addysg Gymraeg ac i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Dim ond cwrdd ä'r galw presennol: diffyg gweledigaeth i symbylu twf. • Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle mae |

| | | | |
|------------------------|--|--|---|
| | <p>yw'r wybodaeth wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Dangosodd yr arolwg bod dros 22% o rieni yn awyddus i ddewis Addysg Gymraeg ond mae'r Cynllun presennol yn cynllunio i gadw at y ddarpariaeth bresennol, sef tua 15%.</p> | | <p>pwysau ar leoedd ar hyn o bryd e.e Cwmbrân</p> |
| <p>Wrecsam</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r sefyllfa bresennol yn nosbarthiadau Derbyn yr ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn destun pryder. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae bron pob un o ddoarthiadau Derbyn wedi bod yn llawn neu o fewn capasiti 10%, ac mae hyn wedi cael effaith ar hyder rhieni. Pryder pellach yw'r pwysau fydd ar ysgolion cyfrwng Cymraeg os bydd y duedd yma'n parhau. Mae cynyddu capasiti nifer o ysgolion cynradd y Sir a dylai'r Cynllun ddarparu ar gyfer hynny. Mae'n debygol y bydd poblogaeth Ysgol Morgan Llwyd wedi cyrraedd llawn dwf yn ystod y cyfnod 2017-20. Mae angen cynnwys strategaeth clir er mwyn pennu safle, cyllido a sicrhau caniatad cynllunio ar gyfer ail ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector uwchradd er mwyn bod mewn sefyllfa i ymdopi â'r twf cyfredol ac er mwyn diogelu darpariaeth uwchradd ac ôl 16 cyfrwng Cymraeg yn y Sir. | <p>Gwrthod y cynllun drafft</p> | <ul style="list-style-type: none"> Dim targedau uchelgeisiol i gynyddu niferoedd. Dim targedau twf ar gyfer y Meithrin Methiant i hyrwyddo a hybu twf Addysg Gymraeg ac i ehangu'r ddarpariaeth bresennol. Dim ond cwrdd â'r galw presennol: diffyg gweledigaeth i symbylu twf. Angen targedau penodol i ehangu'r ddarpariaeth / sefydlu ysgolion newydd mewn ardaloedd lle mae pwysau ar leoedd ar hyn o bryd e.e. tref Wrecsam, Gresford / Llai Cynnwys strategaeth i ehangu'r sector uwchradd |
| <p>Ynys Môn</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae'n dda gweld nod o 86% yn cael eu hasesu yn y Gymraeg iaith gyntaf erbyn 2019-20. Ydy rhifau disgyblion yn y | <p>Derbyn y cynllun drafft gyda gwelliannau</p> | <ul style="list-style-type: none"> Mae angen rhaglen gadarn i weld newid sylweddol yn y canrannau trosglwyddo o CA2 i CA3. |

| | | | |
|--|---|--|--|
| | <p>dosbarthiadau meithrin a derbyn eleni'n cyfiawnhau hyn? Mae cael 67.3% o ddisgyblion iaith gyntaf CA2 yn trosglwyddo i CA3 yn fan gwan iawn ar hyn o bryd. Mae'n dda gweld bod nod o gynyddu i 80%, ond byddai hyn hefyd yn un o'r perfformiadau gwannaf yng Nghymru. Mae'r canrannau sy'n astudio 2 neu 5 pwnc trwy'r Gymraeg yn siomedig iawn ar hyn o bryd.</p> | | <ul style="list-style-type: none"> • Angen gosod targedau mwy heriol o ran cynyddu nifer y disgyblion iaith gyntaf yn sefyll 5 neu ragor o bynciau TGAU trwy'r Gymraeg. |
|--|---|--|--|

Alun Davies AC
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes

16 Chwefror 2017

Annwyl Alun

Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cael gohebiaeth gan Rhieni Dros Addysg Gymraeg (RhAG), sydd wedi amgáu ei drosolwg cenedlaethol a gynhyrchwyd mewn perthynas â'r fersiwn ddrafft o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017–20. Deallaf fod RhAG wedi ysgrifennu atoch ar wahân gyda'r ddogfen hon, yn galw arnoch i wrthod y rhan fwyaf o'r Cynlluniau drafft.

At hynny, yn ddiweddar cafodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gopi o ohebiaeth atoch gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ymwneud â'r Cynlluniau Strategol drafft, lle mae'n mynegi pryder nad oedd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau yn ddigonol.

Mae'r ddau ddarn o ohebiaeth wedi'u hanfon at Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu a all ystyried hyn fel rhan o'i ymchwiliad i Strategaeth Iaith Gymraeg newydd Llywodraeth Cymru. Y bwriad yw i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ystyried ei gamau nesaf ar gyfer y Cynlluniau Strategol ar ôl cwblhau ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Fodd bynnag, roeddwn hefyd yn awyddus i fynegi prif bryder y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg fod RhAG a Chomisiynydd y Gymraeg yn credu nad oedd y rhan fwyaf o'r Cynlluniau Strategol drafft a gynhyrchwyd yn ddigonol. Byddwn yn ddiolchgar am sicrwydd y bydd y pryderon hyn yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Cynlluniau ar gyfer 2017–20.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd





Monday, 13 February 2017

Bethan Jenkins AM
Chair
Culture, Welsh Language and Communications Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Dear Bethan,

Scrutiny of the Arts Council of Wales

Thank you for your invitation to meet with the Committee last week.

I undertook to provide the Committee with additional information on three issues:

1. Public Procurement Regulations in Wales
2. The Arts Council's leverage of additional funding
3. The Committee's Music Services Inquiry

Public Procurement Regulations in Wales

The Procurement requirements that apply to public sector bodies in Wales are set out in "Managing Welsh Public Money".¹ It says:

"It is important to secure value for money through sound procurement and commissioning. Public sector organisations should acquire goods and services through fair and open competition, acting on appropriate advice."

In June 2013, the Welsh Government wrote to all Welsh Government Sponsored Bodies drawing their attention to the "Wales Procurement Policy Statement".² This Policy Statement requires the advertisement of all contracts over £25,000 on the Government website, Sell2Wales.

¹ <http://gov.wales/funding/managing-welsh-public-money/?lang=en> (Annex 4.5)

² <http://gov.wales/topics/improving-services/better/vfm/publications/procurement-policy-statement/?lang=en>

Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL
Ffôn: 0845 8734 900
Ffacs: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Ebost: gwybodaeth@celf.cymru
Gwefan: www.celf.cymru ...

Bute Place, Cardiff CF10 5AL
Tel: 0845 8734 900
Fax: 029 2044 1400
SMS: 07797 800504
Email: info@arts.wales
Website: www.arts.wales



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

Swyddfeydd Lleol/Local Offices:

Caerdydd/Cardiff, Bae Colwyn/Colwyn Bay, Caerfyrddin/Carmarthen
Rhif Elusen Gofrestredig/Registered Charity Number: 1034245

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ni fydd gorchudd drwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondences in Welsh and English, corresponding in Welsh will not lead to a delay.

The Welsh Government's Remit Letter specifies the purposes for which Welsh Government funding has been allocated to the Arts Council. The Remit Letter for 2016/17³ contains the following requirement:

"I would expect to see the Arts Council provide, either itself or through appropriately tendered contracts with expert providers, advice and assistance covering a range of topics. These would include governance, skills analysis, business planning, fundraising, income generation, exploitation of intellectual property, maximising tax reliefs, internal audit, etc."

Funding Leverage

Committee members wished to know how the Arts Council uses the public funding it receives to increase the size of the arts economy in Wales.

The majority of the Welsh Government funding allocated to the Arts Council supports a nation-wide network of 67 organisations, the Arts Portfolio Wales. Last year these organisations achieved over 3.74million attendances, with a further 1.14million people engaging in participatory activities. This is work taking place in all parts of Wales, across all art-forms and genres and in both languages.

The Arts Portfolio Wales is sustained through funding partnerships that we have established with a range of other organisations. These include Arts Council England, the BBC, universities, and in particular local authorities. Over the five years 2011 to 2016 local authorities contributed £42.65million to the funding partnership with the Arts Council.

Arts Council investment enables the Portfolio to raise significant levels of additional earned income.

Public funding allocated by the Arts Council underpins a significant cultural economy in Wales that creates opportunities for people to enjoy and take part in the arts, that sustains jobs and that generates economic activity. Additional income earned by the Arts Portfolio Wales over the period 2011 to 2016 exceeded £335million, excluding local authority partnership funding. (Funding information for the period 2011-2016 is summarised in an appendix attached to this letter.)

The Arts Council also raises income through its own direct activities. Between 2011 and 2016 we raised £5.665 million. This included income earned from conferences, seminars, our arts purchase loan scheme "Collectorplan", our touring scheme "Night Out", and European and international activities.

³ http://www.arts.wales/c_governance/remit-letter

Financial leverage is an important aspect of these initiatives. For example, "Collectorplan" generates fee income directly for the Arts Council. However, between 2011 and 2016 it also generated more than 4,700 sales of artists work to a value of over £3.54million.

The Committee's Music Services Inquiry

You asked whether we had any views on the Committee's Inquiry into Music Services.

We are aware that evidence already given to the Committee has included information on the Welsh Government commissioned Music Services Task and Finish Group, National Youth Arts Wales and Creative Learning through the Arts. The Arts Council is involved with all of these.

The current state of local authority music services across Wales presents significant challenges, many of which the Committee has been exploring. As you have already heard, reductions in local authority funding are creating an uneven pattern of activity across Wales. There is, therefore, a very real danger that access to musical tuition could be denied to those who can least afford the cost.

The Task and Finish Group report contains pragmatic recommendations that point towards complementary methods of service delivery. In our view Government funding – whether delivered nationally or locally – will still be necessary to sustain schools-based music services. But we do believe that there are collaborative models that might enable the resources that do exist to stretch further.

This is clearly a complex issue, and we would be happy to provide a specific note to the Committee on this matter. We will aim to get this to you within the next week. And if you would like us to attend a future meeting, we would of course be pleased to do so.

*Yours,
Nick Capaldi*

Nick Capaldi
Chief Executive

Appendix

Arts Portfolio Wales:

Additional income levered by Arts Council investment

| | 2015/16* | 2014/15 | 2013/14 | 2012/13 | 2011/12 |
|--|-------------------|--------------------|--------------------|--------------------|--------------------|
| Total Arts Council funding | 26,587,092 | 27,900,913 | 28,362,333 | 28,385,880 | 28,061,317 |
| Total Additional Public Sector funding levered | 7,564,634 | 9,856,327 | 13,718,947 | 13,548,642 | 15,766,469 |
| Total Earned Income | 58,352,557 | 68,459,909 | 69,435,464 | 70,415,460 | 68,753,976 |
| Total Income | 92,504,283 | 106,217,149 | 111,516,744 | 112,349,982 | 112,581,762 |

* Figures for 2015/16 are estimates based on management accounts.
Figures for earlier years are taken from audited accounts.



From the Director-General

Chwefror 21ain, 2017

Bethan Jenkins, AC,
Cadeirydd, Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF99 1NA

Drwy e-bost: Bethan.jenkins@assembly.wales

Annwyl Bethan,

Rwy'n ysgrifennu heddiw i'ch diweddarau ar y gwaith ry'n ni wedi bod yn ei wneud i adolygu ein darpariaeth rhaglenni a gwasanaethau yng Nghymru, ac i rannu ein cynlluniau i gynyddu ein buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru o 50% dros y tair blynedd nesa. Bydd y cynlluniau'n gyhoeddus am 5.00 o'r gloch heno.

Dros gyfnod y Siarter diwethaf, byddwch yn gwybod, o ganlyniad i ddatblygiadau fel Porth y Rhath, bod y BBC wedi trawsnewid faint o gynnwys sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae llwyddiant byd-eang cynrychiadau rhwydweithiau'r BBC yng Nghymru wedi eu dathlu'n helaeth, ac ry'n ni'n benderfynol o adeiladu ar y llwyddiant hwnnw.

Ond ry'n ni hefyd yn derbyn, er llwyddiant ein cynrychiadau rhwydwaith yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf, nad yw'r rhaglenni hynny ddim wedi gwneud digon i adlewyrchu Cymru. Ym mis Mai y llynedd, fe soniais am nifer o gamau yr ydym yn eu cymryd i wella sut mae sianeli rhwydwaith y BBC yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd ar draws y DU. Mae'r rhain yn cynnwys:-

- Penodi comisiynydd drama teledu i Gymru
- Cyflwyno tîm Writersroom y BBC i Gymru i gefnogi datblygiad sgriptwyr drama a chomedi
- Cyflwyno cronfa bortreadu gwerth £2m i gefnogi datblygiad rhaglenni ffeithiol, drama a chomedi i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r cenedloedd datganoledig yn well
- Cyflwyno amcanion portreadu ar y sgrîn i dimau cynhyrchu rhwydwaith gan gynnwys timau drama, ffeithiol a chomedi
- Ymrwymiad parhaus i gynhyrchu o leiaf 5% o raglenni rhwydwaith o Gymru – targed sydd wedi ei churo yn gyson dros yr wyth mlynedd ddiwethaf diolch i lwyddiant BBC Cymru a chynhyrchwyr annibynnol i'r rhwydwaith. Yn 2015/16, roedd y buddsoddiad yma'n werth £61.7m

Er bod rhain yn gamau sylweddol, rwy wastad wedi rhannu eich pryderon - a phryderon y Cynulliad Cenedlaethol – bod buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg a wnaed yng Nghymru ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru wedi disgyn i lefelau anghynladwy yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Yn dilyn adnewyddu ffurfiol o Siarter y BBC dros yr wythnosau diwethaf, mae'n bleser gen i roi gwybod i chi y byddwn yn cyhoeddi yn hwyrach heddiw bod y BBC am gynyddu ein buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg ar gyfer Cymru o 50% - yr ehangiad mwyaf o ran cynnwys teledu mewn cenedlaeth.

Bydd yr £8.5m y flwyddyn o gyllid newydd yn golygu newid sylweddol mewn rhaglenni ar gyfer Cymru ar draws ystod eang o *genres* – gan gynnwys comedi, adloniant, drama, ffeithiol a diwylliant – ac yn galluogi BBC Cymru i ddenu cynulleidfaoedd iau a datblygu ein gwasanaethau newyddion ar-lein a symudol. Fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer Cymru, bydd disgwyl i'n buddsoddiad mewn rhaglenni teledu Saesneg gyrraedd bron i £30m y flwyddyn erbyn 2019/20.

Mae disgwyl i'r buddsoddiad newydd:-


- Gyflwyno mwy na 130 awr o raglenni ychwanegol bob blwyddyn ar draws BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer
- Gynhyrchu buddsoddiad o o leiaf £5m ychwanegol fydd i'w weld ar y sgrin drwy gytundebau cyd-gynhyrchu gyda darlledwyr a chynhyrchwyr eraill
- Gefnogi sianel newydd BBC Cymru ar yr iPlayer – gan gynnig cartref newydd i raglenni Cymreig ar draws pob dyfais ac ym mhob rhan o'r DU
- Hybu portread a sylw i Gymru ar sianeli rhwydwaith y BBC – gyda'r nod y dylai o leiaf hanner y rhaglenni ychwanegol gael eu darlledu ar sianeli rhwydwaith y BBC yn y DU
- Roi hwb ariannol i'r sector cynhyrchu yng Nghymru gyda'r holl gyllid teledu newydd yn agored i gystadleuaeth lawn

Ochr yn ochr â'r buddsoddiad ychwanegol yma, byddwch yn ymwybodol bod y gwaith adeiladu ar ein canolfan ddarlledu newydd yng nghanol dinas Caerdydd yn mynd rhagddo. Datblygiad ein pencadlys yn y Sgwâr Canolog yw'r prosiect adeiladu mwyaf y bydd y BBC yn ymgymryd ag ef yn ystod cyfnod y Siarter bresennol, ac rwy'n credu bod gan y prosiect y potensial i fod yn drawsnewidiol, nid yn unig i BBC Cymru, ond yn ogystal, i'r sector ehangach.

Mae hefyd wedi bod yn wych gweld sut mae ein penderfyniad ni i adleoli wedi ennyn adfywiad ehangach o'r ardal o gwmpas yr orsaf. Mae'r cyhoeddiad, a ddisgwylir yn nes ymlaen yr wythnos hon, bod Prifysgol Caerdydd am adleoli ei chanolfan cyfryngau a newyddiaduraeth (JOMEC) yn union drws nesaf i'n canolfan newydd ni, yn gyffrous dros ben, a bydd yn ein galluogi ni i gryfhau ein partneriaeth gyda'r sefydliad cenedlaethol hanfodol yma.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw ac edrychaf ymlaen at barhau â'n trafodaethau parthed datblygiad y sector cyfryngol yng Nghymru.

Cofion gorau,



Tony Hall

Cyfarwyddwr-Cyffredinol

Tudalen y pecyn 33

EMBARGO: 5pm 21 Chwefror 2017

50% o fuddsoddiad ychwanegol i raglenni i Gymru gan y BBC

- £8.5m y flwyddyn o arian newydd
- Ehangu mwyaf o ran teledu BBC Cymru mewn cenhedlaeth
- Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC Tony Hall: 'Dyma ddatganiad clir o'n bwriad a'n huchelgais i wasanaethau holl gynulleidfaedd Cymru'

Mae'r BBC i gynyddu'r buddsoddiad mewn rhaglenni Saesneg i Gymru o 50% wrth i BBC Cymru weld yr ehangu mwyaf o ran cynnwys teledu mewn cenhedlaeth.

Dywed y BBC heddiw y bydd yr £8.5m y flwyddyn o gyllid newydd yn golygu newid sylweddol ar draws ystod eang o genres – gan gynnwys comedi, adloniant, drama, ffeithiol a diwylliant – ac yn galluogi BBC Cymru i ddenu cynulleidfaedd iau a datblygu ein gwasanaethau newyddion ar-lein a symudol.

Fel rhan o'r cynlluniau, mae disgwyl i fuddsoddiad mewn rhaglenni teledu Saesneg gyrraedd bron i £30m y flwyddyn erbyn 2019/20. A bydd 'sianel' newydd iPlayer BBC Cymru yn cael ei lansio gan gynyddu amlygrwydd rhaglenni i gynulleidfaedd yng Nghymru.

Dywed Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC Tony Hall: "Rwy'n falch iawn o gyhoeddi'r cynnydd sylweddol hwn yng nghyllid teledu i Gymru. Mae gan BBC Cymru enw da am greadigrwydd ac rwy'n gwybod y byddant yn achub ar y cyfle newydd hwn gydag arddeliad.

"Rwy'n credu y bydd y buddsoddiad yma'n gwbl drawsnewidiol. Mewn meysydd megis drama, comedi ac adloniant, rydym yn disgwyl dyblu'r buddsoddiad. Ym maes newyddion a materion cyfoes, bydd o gymorth i ni symud yn gynt ar-lein a denu cynulleidfaedd iau, a darparu mwy o adroddiadau arbenigol ar draws ein cynnwys.

"Mae'n holl bwysig bod y BBC yn portreadu'r bywyd a'r profiad Cymreig yn ei holl amrywiaeth, ac mae'r buddsoddiad yma'n ddatganiad clir o'n bwriad a'n huchelgais i wasanaethu holl gynulleidfaedd Cymru.'

Mae disgwyl i'r buddsoddiad newydd:

- Gyflwyno mwy na 130 awr o raglenni ychwanegol bob blwyddyn ar draws BBC One Wales, BBC Two Wales a BBC iPlayer
- Cynhyrchu buddsoddiad o o leiaf £5m ychwanegol fydd i'w weld ar y sgrin

drwy gytundebau cyd-gynhyrchu gyda darlledwyr a chynhyrchwyr eraill

- Darparu ystod lawn o raglenni i hysbysu, addysgu ac adlonni – gan gynnwys comedi, drama ac adloniant ychwanegol
- Cefnogi sianel newydd BBC Cymru ar yr iPlayer – gan gynnig cartref newydd i raglenni Cymreig ar draws pob dyfais ac ym mhob rhan o'r DU
- Hybu portread a sylw i Gymru ar sianeli rhwydwaith y BBC – gyda'r nod y dylai o leiaf hanner y rhaglenni ychwanegol gael eu darlledu ar sianeli rhwydwaith y BBC yn DU
- Rhoi hwb ariannol i'r sector cynhyrchu yng Nghymru gyda'r holl gyllid teledu newydd yn agored i gystadleuaeth lawn

Dywed Cyfarwyddwr BBC Cymru Rhodri Talfan Davies: "Mae'r buddsoddiad yma i'w groesawu'n fawr. Mae Cymru yn wlad sydd wedi ei bendithio â storïwyr o fri, ac fe fydd y buddsoddiad yma yn rhoi llwyfan haeddiannol a chenedlaethol iddynt. Erbyn i ni gyrraedd ein cartref newydd yn y Sgwâr Canolog, mewn llai na thair blynedd, dwi'n credu y bydd y gwahaniaeth ar ein sgrin yn glir i'n cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru.

"Bydd y buddsoddiad newydd yma hefyd yn ein galluogi i ddenu cyllid ychwanegol drwy gyd-gynhyrchu, gan ddefnyddio'r modelau cydweithio yr ydym wedi eu datblygu gydag S4C ac eraill i ariannu cyfresi megis Hinterland."

Mae'r buddsoddiad yma'n dilyn ymrwymiad personol gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC i gryfhau'r amrywiaeth o raglenni teledu sy'n cael eu darparu gan BBC Cymru, yn dilyn pryderon am y dirywiad mewn buddsoddi dros y deng mlynedd diwethaf. Mae disgwyl i'r cyllid newydd wneud gwahaniaeth yn syth, wrth i ddwy ddrama newydd gael eu cyhoeddi dros y dyddiau nesaf.

Bydd y buddsoddiad hefyd yn hwb i'r gwasanaethau newyddion i Gymru, gyda chynlluniau i ehangu adroddiadau arbenigol yn ogystal â gwasanaethau ar lein a symudol. Cyhoeddir manylion y cynlluniau yma yn y Gwanwyn.

Dywed Rhodri Talfan Davies: "Mae'r her sy'n wynebu gwasanaethau newyddion yng Nghymru yn barod yn hysbys a bydd y buddsoddiad newydd yma'n ein galluogi i ymestyn cyrhaeddiad ein gwasanaethau newyddion ymhlith cynulleidfaoedd iau a gwella'r dadansoddiad o'r straeon mawr sy'n siapia Cymru heddiw."

Mae'r BBC hefyd wedi cadarnhau heddiw y bydd yn cymryd camau sylweddol ychwanegol – yn ogystal â'r buddsoddiad o £8.5m – i wella sut mae Cymru yn cael ei phortreadu ar draws sianeli rhwydwaith y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Penodi comisiynydd drama teledu i Gymru
- Cyflwyno tîm Writersroom y BBC i Gymru i gefnogi datblygiad sgriptwyr drama a chomedi

- Cyflwyno cronfa bortreadu gwerth £2m i gefnogi datblygiad rhaglenni ffeithiol, drama a chomedi i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r cenhedloedd datganoledig yn well
- Cyflwyno amcanion portreadu ar y sgrin i dimau cynhyrchu rhwydwaith gan gynnwys timau drama, ffeithiol a chomedi
- Ymrwymiad parhaus i gynhyrchu o leiaf 5% o raglenni rhwydwaith o Gymru – targed sydd wedi ei churo yn gyson dros yr wyth mlynedd diwethaf diolch i lwyddiant BBC Cymru a chynhyrchwyr annibynnol i'r rhwydwaith. Yn 2015/16, roedd y buddsoddiad yma'n werth £61.7m
- Ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth gyda chorff arfaethedig Llywodraeth Cymru, Cymru Creadigol i gefnogi datblygiad y diwydiannau creadigol ar draws Cymru

Cyhoeddwyd gan Adran Gyfathrebu BBC Cymru
Am ragor o wybodaeth: Non Tudur Williams on 07920 451827 /
nontudur.williams@bbc.co.uk

DIWEDD
21.02.17

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA


Dyddiad: 7 Chwefror 2017

Pwnc: Adroddiadau Drafft – Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Annwyl Bethan

Yng nghyfarfod Comisiwn y Cynulliad ar 26 Ionawr, trafodwyd dau adroddiad drafft, ac fe'u cymeradwywyd. Yr adroddiadau dan sylw oedd Adroddiad Blynyddol Comisiwn y Cynulliad ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol, sydd hefyd yn dod â'r Cynllun cyfredol i ben, a Chynllun Ieithoedd Swyddogol Drafft y Pumed Cynulliad, sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad yn ystod y misoedd diwethaf. Mae angen i'r Cynulliad gymeradwyo'r ddau adroddiad yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, a gobeithiaf y cânt eu trafod yn y Cyfarfod Llawn cyn toriad y Pasg 2017, neu'n fuan wedi hynny.

Rydym wedi bod yn ystyried cyflwyno cam ychwanegol gan ofyn i'ch pwyllgor chi gynnal sesiwn graffu ar y ddau adroddiad. Credaf y byddai hyn yn fuddiol er mwyn dangos bod y Comisiwn yn defnyddio dull agored wrth gynnal y prosesau democrataidd cyn sesiwn graffu y Cyfarfod Llawn, a chefnogir y farn hon gan fy nghydweithwyr ar Gomisiwn y Cynulliad.



Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gynnig unrhyw sylwadau o ran mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae copïau o'r ddau adroddiad wedi eu hatodi er gwybodaeth.

Yn ddiffuant



ADAM PRICE AC

Comisiynydd y Cynulliad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

DYDDIAD

DRAFF

Cynnwys

| | |
|--|-----------|
| Rhagair..... | 1 |
| Adran 1: Ein huchelgais | 5 |
| Cwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol..... | 9 |
| Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo | 10 |
| Adran 2: Safonau gwasanaeth..... | 13 |
| Safonau gwasanaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth..... | 15 |
| 1 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn..... | 15 |
| 2 Paratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor | 15 |
| 3 Cymryd rhan ym musnes y Cynulliad | 16 |
| 4 Cofnodi'r Cyfarfod Llawn..... | 17 |
| 5 Cofnodi cyfarfodydd Pwyllgor | 17 |
| 6 Cymorth i Gomisiwn y Cynulliad | 17 |
| 7 Grwpiau trawsbleidiol..... | 18 |
| 8 Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad | 18 |
| 9 Cefnogi a datblygu sgiliau iaith | 18 |
| 10 Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad..... | 19 |
| Safonau gwasanaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru | 20 |
| 11 Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled)..... | 21 |
| 12 Galwadau ffôn | 22 |
| 13 Ein delwedd gyhoeddus | 22 |
| 14 Gwasanaethau ymgysylltu a gwybodaeth gyhoeddus..... | 23 |
| 15 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 24 |
| 16 Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol | 24 |
| 17 Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad..... | 24 |
| 18 Gweithio mewn partneriaeth..... | 25 |
| 19 Gwasanaethau trydydd parti..... | 25 |
| 20 Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd | 25 |
| Safonau gwasanaeth ar gyfer ein staff er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog..... | 26 |
| 21 Cyfathrebu â staff | 27 |
| 22 Gweithio'n ddwyieithog..... | 28 |
| 23 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog..... | 28 |
| 24 Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth | 28 |
| Adran 3 Themâu ar gyfer cyfnod y Cynllun hwn..... | 32 |
| Thema 1: Recriwtio..... | 33 |

| | |
|--|-----------|
| Thema 2: Sgiliau iaith..... | 34 |
| Thema 3: Cynllunio ieithyddol..... | 35 |
| Thema 4: Trafodion y Cynulliad | 35 |
| Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad..... | 36 |
| Adran 4: Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl | 40 |
| Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith..... | 41 |
| Monitro ac adrodd yn ôl..... | 42 |
| Adolygu a diweddarau'r Cynllun | 43 |
| Ymdrin â chwynion..... | 44 |
| 25 Cydgysylltu'r broses o roi'r Cynllun ar waith | 44 |
| 26 Ymdrin â chwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio..... | 44 |
| 27 Yr adroddiad blynyddol..... | 44 |

DRAFT

Rhagair

DRAFT

Adran 1: Ein huchelgais

Ein huchelgais yw i fod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog lle y gall Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff ddewis gweithio neu gyfathrebu'n naturiol drwy ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith, lle caiff y defnydd o'r ddwy iaith ei annog a'i hwyluso yn frwd, a lle y caiff ein gwasanaethau dwyieithog rhagorol eu hehangu a'u gwella yn barhaus.

Rydym yn eithriadol o falch o'r cynnydd a wnaed yn ystod oes y Cynllun Ieithoedd Swyddogol cyntaf. Mae'r cynnydd hwnnw hefyd wedi adeiladu ar yr ystod eang o wasanaethau a oedd eisoes wedi'u datblygu dros gyfnodau amrywiol gynlluniau iaith Gymraeg a oedd ar waith ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu ym 1999.

Mae'r Cynulliad yn sefydliad dwyieithog. Rydym yn gwerthfawrogi ein holl aelodau o staff, pa mor ddwyieithog bynnag ydynt, am yr ymrwymiad i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol. Rydym yn disgwyl bod pob aelod o staff yn ymroddedig i ddarparu'r safonau uchaf o gymorth seneddol i'r Aelodau a'r cyhoedd yn ein dwy iaith swyddogol.

Mae gennym ddyletswydd sydd wedi'i hymgorffori mewn cyfraith i ddarparu hawliau i'r cyhoedd ac i Aelodau'r Cynulliad ryngweithio â'r Cynulliad yn yr iaith swyddogol o'u dewis. Caiff ein dwy iaith swyddogol eu cydnabod fel ieithoedd gweinyddu mewnol. Rydym yn hwyluso gweithio'n ddwyieithog ar gyfer staff y Comisiwn drwy brif ffrydio gwasanaethau dwyieithog fel y disgrifir yn ein safonau gwasanaeth.

- Gan hynny rydym: wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol, i Aelodau'r Cynulliad, y cyhoedd a'r staff;
- yn gyflogwr sy'n cefnogi pob aelod o staff sydd am ddatblygu neu wella eu sgiliau yn y ddwy iaith swyddogol neu yn y naill iaith neu'r llall i safon sy'n briodol i'w swydd, neu ymhellach os dymunant; ac
- yn sefydliad sy'n dysgu gan eraill ac yn rhannu ei brofiadau a'i wybodaeth am weithio'n ddwyieithog.

Ein hymrwymiad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn gwasanaethu cenedl ddwyieithog lle mae bron un o bob pump o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Y Cynulliad yw canolbwynt cenedlaethol bywyd democrataidd yng Nghymru ac mae'n falch o'r enw da sydd ganddo'n rhyngwladol fel sefydliad dwyieithog.

Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Comisiwn") yn gyfrifol am ddarparu'r eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Cynulliad. Nodau strategol y Comisiwn yw:

- darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf;
- ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a
- defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Ymrwymiad y Comisiwn i ddwyieithrwydd yw'r sail i gyflawni'r nodau hyn – mae ein gwasanaethau, ein strategaethau a'n dyheadau yn adlewyrchu statws cyfartal ein hieithoedd swyddogol. Rydym yn gwerthfawrogi yr amrywiaeth o fewn ein gweithlu, ac mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i sicrhau amrywiaeth o fewn y sefydliad trwy ein Strategaeth Amrywiaeth a

Chynhwysiant. Mae'r Cynllun hwn yn ymwneud â darparu gwasanaethau dwyieithog yn ein hieithoedd swyddogol a'r goblygiadau inni o ran Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 yn unig.

Y fframwaith deddfwriaethol

Dyma ail Gynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad. Cyhoeddwyd y cyntaf ym mis Gorffennaf 2013, yn dilyn cyflwyno Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012. Cyn cyflwyno'r Ddeddf, roedd y Cynulliad yn gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'r Cynulliad yn y sefyllfa unigryw o gael ei ddeddfwriaeth ei hun i reoleiddio ei sail statudol ar gyfer gweithio'n ddwyieithog. Mae'n golygu bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin fel ieithoedd swyddogol yn y Cynulliad.

O dan y Ddeddf Ieithoedd Swyddogol, mae'n ofynnol i'r Cynulliad gyhoeddi Cynllun newydd ar gyfer pob tymor y Cynulliad. Hwn, felly, yw'r Cynllun dros gyfnod y Pumed Cynulliad o 2016 i 2021.

Safonau'r Gymraeg

Yn 2015, cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg y set gyntaf o reoliadau ynghylch safonau'r Gymraeg. Mae'n bwysig nodi nad yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru na'r Cynllun hwn yn destun cyfundrefn safonau'r Gymraeg. Rydym yn credu bod ein Cynllun yn cymharu'n ffafriol â'r safonau sy'n berthnasol i Weinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru ac awdurdodau parciau cenedlaethol, ac ni fyddem am fynd islaw ysbryd y safonau hynny o gwbl.

Cynllun Ieithoedd Swyddogol 2013-2016

Mae gweithredu ein Cynllun yn caniatáu inni bennu ein blaenoriaethau ein hunain ac yn ein galluogi i fod yn arloesol yn y ffordd yr ydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog.

Roedd ein Cynllun cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod 2013 i 2016 ac roedd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:

- darparu cymorth arloesol sydd wedi'i deilwra er mwyn galluogi pobl i ddefnyddio'r ddwy iaith;
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg;
- datblygu sgiliau a hyder staff y Cynulliad i ddefnyddio'u Gymraeg drwy ddarparu'r cymorth hwnnw; a
- rhannu'r pethau sy'n gweithio i ni â gweddill Cymru a'r byd amlieithog tu hwnt i'n ffiniau.

Rydym wedi cyflawni gwelliannau mawr i wasanaethau a chyrrhaeddwyd mwyafrif helaeth o'r targedau a osodwyd. Arweiniodd gwaith yn y pedwar maes allweddol uchod at y llwyddiannau canlynol y tu hwnt i'n safonau gwasanaeth arferol:

- gan **weithio gyda'r Aelodau i ddeall dewisiadau unigol yn well**, rhoddwyd darpariaeth amrywiol ar waith i gefnogi gweithio'n ddwyieithog, er enghraifft, mae dogfennau briffio dwyieithog bellach yn cael eu darparu ar gyfer aelodau pwyllgorau. Mae hyn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad baratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor yn eu dewis iaith, gan hwyluso mwy o ddefnydd o'u dewis iaith mewn

trafodion. Hefyd, mewn ymateb i adborth gan Aelodau'r Cynulliad, rydym yn datblygu cyfres o eirfaon ac ymadroddion technegol Cymraeg ar gyfer Biliau ac ymchwiliadau pwyllgorau sydd hefyd yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Mae'r geirfaon yn cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i drafod pynciau llai cyfarwydd yn eu dewis iaith.

- lansiodd **model Cymraeg byd-eang ar gyfer Microsoft Translator** yn y Senedd ar 21 Chwefror 2014, gan alluogi defnyddwyr Microsoft ledled y byd i gyfieithu i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg. Cyrhaeddodd y cyhoeddusrwydd am y digwyddiad lansio gynulleidfa byd-eang o hyd at 5 miliwn o bobl, gan hyrwyddo nid yn unig yr iaith Gymraeg, ond y Cynulliad Cenedlaethol a'i bartneriaeth gyda Microsoft. Mae staff y Cynulliad yn defnyddio'r dechnoleg mewn dwy ffordd: mae'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn gallu deall hanfod unrhyw ohebiaeth Gymraeg er mwyn iddynt allu ei phrosesu ac ymateb iddi'n gyflymach ac yn effeithiol; ac mae cyfieithwyr y Cynulliad wedi integreiddio'r dechnoleg i ategu'r feddalwedd cof cyfieithu a ddefnyddir, gan gynyddu effeithlonrwydd cyfieithwyr hyd at 20%.
- rydym wedi trawsnewid yn llwyr y ffordd yr ydym yn cefnogi staff y Comisiwn sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Ym mis Tachwedd 2014, dechreuwyd treialu dull mwy anffurfiol yn sgil penodi Tiwtor Cymraeg mewnol. Roedd hyn yn llwyddiannus, ac roedd y cyfraddau a fanteisiodd arno'n rhagorol, gyda dysgwyr yn ymateb i **ddull hyblyg sydd wedi'i deilwra o ddysgu Cymraeg**. Erbyn diwedd y Pedwerydd Cynulliad, arweiniodd llwyddiant y dull hwn at greu Tîm Sgiliau Iaith o bedwar, gan ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu Cymraeg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn ogystal â staff Comisiwn y Cynulliad, yn amrywio o ddechreuwr pur i siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n dymuno datblygu eu Cymraeg ysgrifenedig ymhellach.
- y Cynulliad bellach yw **un o'r sefydliadau dwyieithog mwyaf blaenllaw yn y sector cyhoeddus yng Nghymru**. Rhoesom gyhoeddusrwydd i'r gwaith yn ymwneud â Microsoft Translator a sicrhau ei fod ar gael i gynulleidfa byd-eang. Rydym wedi rhoi nifer o gyflwyniadau i gynadleddau a sefydliadau unigol, ar y ffordd y mae technoleg iaith wedi trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio'n ddwyieithog ac ar ein datblygiadau o ran dysgu Cymraeg. O ganlyniad, mae sefydliadau eraill wedi dilyn ein hesiampl gyda thechnoleg a'n darpariaeth dysgu Cymraeg.

Ein themâu ar gyfer y Cynllun hwn

Gan adeiladu ar y llwyfan a ddatblygwyd gennym yn y Pedwerydd Cynulliad, rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i arwain y ffordd o ran darparu gwasanaethau dwyieithog ac arloesi yn y maes.

Mae ein camau gweithredu ar gyfer y Cynllun hwn yn canolbwyntio ar bum thema allweddol:

- ethos dwyieithog y sefydliad;
- recriwtio
- sgiliau iaith;
- trafodion y Cynulliad;
- cynllunio ieithyddol.

Rhestrir rhagor o fanylion am y themâu yn adran tri. Eu nod yw ein harwain i'r lefel nesaf, ychwanegu at ein capasiti dwyieithog fel sefydliad a'n tywys yn agosach fyth at gyflawni ein huchelgais.

Cwmpas y Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Mae'r Cynllun wedi'r rannu'n bedair adran:

- mae adran un, uchod, yn nodi ein huchelgais a'n hymrwymiad ac yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y Cynllun cyntaf;
- mae adran dau yn nodi ein safonau gwasanaeth presennol ac yn amlinellu sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar gyfer tri grŵp gwahanol: Aelodau'r Cynulliad a'u staff; pobl Cymru; staff y Cynulliad;
- mae adran tri yn nodi ein blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun hwn a'r gwasanaethau dwyieithog yr ydym yn anelu at eu darparu yn ystod oes y cynllun;
- mae adran pedwar yn amlinellu sut y byddwn yn monitro ac yn adrodd ar y Cynllun a sut y byddwn yn ymdrin â chwynion pe baem yn methu â chyrhaedd y safonau uchel yr ydym wedi'u gosod i ni ein hunain neu'n methu â bodloni disgwyliadau pobl eraill.

Rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog a'u hyrwyddo

Byddwn yn sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad a'u staff, y cyhoedd a staff y Cynulliad yn ymwybodol o'r Cynllun hwn ac o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n gwasanaethau dwyieithog drwy:

- hyrwyddo bodolaeth y Cynllun wrth ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd;
- ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol fel Comisiynydd y Gymraeg er mwyn i ni allu dysgu o brofiad a hefyd rhannu ein profiad o ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun a'i ofynion ymysg staff yn barhaol drwy ddarparu hyfforddiant cychwynnol i bob aelod o'r staff fel rhan o'u rhaglen gynefino, a mentrau codi ymwybyddiaeth parhaus drwy gydol y flwyddyn seneddol;
- sicrhau bod staff dwyieithog yn bresennol mhob ardal gyhoeddus lle mae gan y Cynulliad bresenoldeb corfforaethol a bod modd eu hadnabod yn hawdd;
- cynnwys hyrwyddo'r Cynllun yn y rhaglen gynefino ar gyfer Aelodau'r Cynulliad newydd a'u staff cymorth.

Os bydd angen eglurhad arnoch ar unrhyw agwedd ar y Cynllun leithoedd Swyddogol, cysylltwch â Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fel y nodir isod.

Mae copi electronig o'r Cynllun hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol.

www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled o:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

- Ar lein: www.cynulliad.cymru
- E-bost: cyswllt@cynulliad.cymru
- Ffôn: 0300 111 6565

DRAFT

Adran 2: Safonau gwasanaeth

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi unrhyw un sy'n ymwneud â trafodion y Cynulliad i wneud hynny naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg, sef ein hieithoedd swyddogol.

Er mwyn galluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i wneud hyn, mae'r Comisiwn yn:

- darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, o'r Gymraeg i'r Saesneg, ym mhob un o Gyfarfodydd Llawn a Phwyllgorau'r Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog 13.2 a 17.45;
- cyhoeddi'r holl ddogfennau sy'n deillio o'r Cynulliad ac sy'n ymwneud â busnes ffurfiol y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol yn unol â gofynion y Rheolau Sefydlog;
- darparu deunyddiau dwyieithog a dulliau i gymryd rhan yn nhrefodion ffurfiol y Cynulliad yn ddwyieithog; a
- darparu hyfforddiant iaith pwrpasol, a chymorth i ddatblygu a gwella sgiliau iaith mewn cyd-destun proffesiynol.

Nid yw'r Cynllun hwn yn cwmpasu Aelodau'n rhyngweithio â'u hetholwyr ar lefel un-i-un, ond mae'n rhaid i unrhyw ddeunyddiau a ariennir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Bydd y Comisiwn yn parhau i ddarparu adnoddau er mwyn sicrhau y gall Aelodau'r Cynulliad ymdrin ag etholwyr yn yr iaith swyddogol o ddewis eu hetholwyr.

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012), rydym yn cyhoeddi cofnod cwbl ddwyieithog o drafodion y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn (Cofnod y Trafodion).

Safonau gwasanaeth ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

1 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn

- 1.1 Mae unrhyw ddogfennau a osodir neu unrhyw fusnes a gyflwynir ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn unol â Rheol Sefydlog 15.4.
- 1.2 Mae'r holl Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol ar gael yn y ddwy iaith swyddogol, ar wahân i'r rhai a ystyrir o dan yr amgylchiadau a amlinellir yn Rheol Sefydlog 26.5.
- 1.3 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau cyhoeddus ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
- 1.4 Bydd papurau mewnlol a phreifat ar gael yn newis iaith swyddogol aelodau unigol.
- 1.5 Pan nad yw'n bosibl cael dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi bod y dogfennau wedi dod i law yn yr iaith honno yn unig.
- 1.6 Mae papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (e.e. atebion i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig), yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith y cânt eu cyflwyno ynddi. Rydym yn disgwyl i sefydliadau eraill weithredu eu safonau neu'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 1.7 Os na fyddwn yn cyrraedd y safon hon, bydd cofnod swyddogol yn cael ei greu a chamau'n cael eu cymryd er mwyn atal hyn rhag digwydd eto.
- 1.8 Bydd gohebiaeth gan neu ar ran y Llywydd i'r holl Aelodau, sy'n ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn, yn ddwyieithog.

2 Paratoi ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor

- 2.1 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o ddogfennau cyhoeddus ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor ar gael yn gydamserol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd.
- 2.2 Bydd papurau mewnlol a phreifat ar gael yn newis iaith swyddogol aelodau unigol.
- 2.3

- 2.4 Bydd pwyllgorau yn gofyn o'r cychwyn cyntaf i ddogfennau neu ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti y bwriedir eu cyhoeddi a / neu eu defnyddio yn nhrefodion y Cynulliad Cenedlaethol gael eu cyflwyno'n ddwyieithog.
- 2.5 Pan nad yw'n bosibl cael dogfennau gan sefydliadau allanol a thrydydd parti yn y ddwy iaith, rydym yn eu cyhoeddi yn yr iaith y'u cyflwynwyd, gan nodi bod y dogfennau wedi dod i law yn yr iaith honno yn unig.
- 2.6 Mae papurau ategol eraill a ddarperir gan drydydd parti, gan gynnwys gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru (e.e. atebion i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig), yn cael eu cyhoeddi yn yr iaith/ieithoedd y cânt eu cyflwyno ynddynt. Rydym yn disgwyl sefydliadau eraill i weithredu eu safonau neu'u cynlluniau eu hunain a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 2.7 Bydd yr ohebiaeth rhwng y Llywydd a holl Gadeiryddion y Pwyllgorau yn ddwyieithog. Mae llythyrau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael yn y ddwy iaith swyddogol. Mater i Gadeiryddion y pwyllgorau yw iaith yr ohebiaeth rhwng Cadeiryddion unigol y pwyllgorau.

3 Cymryd rhan ym musnes y Cynulliad

- 3.1 Gall y rhai sy'n cymryd rhan yn nhrefodion swyddogol y Cynulliad ddefnyddio'r naill iaith swyddogol neu'r llall, neu'r ddwy iaith.
- 3.2 Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i Aelodau'r Cynulliad, tystion a staff y Cynulliad sy'n cymryd rhan yn nhrefodion y Cynulliad neu'n eu cefnogi. Darperir ffrwd sain i'r rhai sy'n gwyllo'r trafodion ar bob un o'n llwyfannau yn yr ieithoedd gwreiddiol a'r iaith y cyfieithir iddi.
- 3.3 Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i ymwelwyr yn orielau cyhoeddus ac ystafelloedd pwyllgora y Senedd a Thŷ Hywel ac ar draws ystâd y Cynulliad yn ystod trafodion a digwyddiadau'r Cynulliad. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael ar gyfer busnes swyddogol neu ddigwyddiadau oddi ar ystâd y Cynulliad.
- 3.4 Gall Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Cynulliad ddilyn trafodion y Cynulliad yn yr iaith wreiddiol neu wrando ar gyfieithiad ohonynt (o'r Gymraeg i'r Saesneg) ar y sianel deledu fewnol.
- 3.5 Mae ein cyfleusterau fideogynadleda yn caniatáu i Aelodau a thystion ddefnyddio'r iaith swyddogol o'u dewis yn ystod trafodion pan fydd hynny'n dechnegol bosibl.

4 Cofnodi'r Cyfarfod Llawn

- 4.1 Mae fersiwn dreigl nad yw wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion yn cael ei chyhoeddi oddeutu awr ar ôl i'r Cyfarfod Llawn ddechrau. Mae'n cynnwys cyfraniadau yn yr ieithoedd swyddogol a siaredir ynghyd â thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd o gyfraniadau Cymraeg.
- 4.2 Mae fersiwn cwbl ddwyieithog wedi'i golygu o Gofnod y Trafodion, gan gynnwys cyfraniadau Saesneg wedi'u cyfieithu i'r Gymraeg, yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cynulliad o fewn tri diwrnod gwaith neu'n gynt os oes modd.
- 4.3 Pan ddangosir fideo yn ystod y Cyfarfod Llawn, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yng Nghofnod y Trafodion ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar yn yr ieithoedd swyddogol.

5 Cofnodi cyfarfodydd Pwyllgor

- 5.1 Mae trawsgrifiadau drafft wedi'u golygu o drafodion y pwyllgorau, ynghyd â thrawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd o gyfraniadau Cymraeg, yn cael eu cyhoeddi o fewn 3 diwrnod gwaith, a thrawsgrifiad terfynol wedi'i olygu yn cael ei gyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith.
- 5.2 Pan ddangosir fideo yn ystod trafodion pwyllgor, mae hyperlinc i'r deunydd a ddefnyddir yn cael ei gynnwys yn y trawsgrifiad o'r pwyllgor ynghyd â thrawsgrifiad o unrhyw gyfraniadau llafar yn yr ieithoedd swyddogol gan gynnwys cyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg

6 Cymorth i Gomisiwn y Cynulliad

- 6.1 Mae fersiynau Cymraeg a Saesneg o agendâu, cofnodion a phapurau ategol ar gael yn gydamserol ar gyfer Comisiynwyr y Cynulliad.
- 6.2 Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer cyfarfodydd Comisiwn y Cynulliad
- 6.3 Cyhoeddir adroddiadau cyhoeddedig a phapurau cyfarfodydd sy'n ymwneud â busnes Comisiwn y Cynulliad yn y ddwy iaith swyddogol.
- 6.4 Mae deunydd cyfathrebu Comisiwn y Cynulliad i Aelodau'r Cynulliad, staff y Cynulliad a'r cyhoedd ar gael yn y ddwy iaith swyddogol.
- 6.5 Mae Comisiwn y Cynulliad yn ymateb i bob gohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd o fewn 15 diwrnod gwaith.

7 Grwpiau trawsbleidiol

- 7.1 Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer cyfarfodydd grwpiau trawsbleidiol ar gais.
- 7.2 Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu ar gyfer cyfieithu adroddiadau blynyddol a chofnodion grwpiau trawsbleidiol.

8 Hysbysebion a gohebiaeth etholaethol Aelodau'r Cynulliad

- 8.1 Rhoddir cyfeiriadau e-bost i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yn y ddwy iaith swyddogol enw.cyfenw@cynulliad.cymru a name.surname@assembly.wales. Gallant ddewis pa gyfeiriad i'w ddefnyddio, ond gellir defnyddio'r naill neu'r llall i gysylltu â hwy.
- 8.2 Mae cronfa gyfieithu ar gael i Aelodau unigol o'r Cynulliad er mwyn hwyluso'r defnydd o'r iaith swyddogol o'u dewis er mwyn sgwrsio, gohebu neu gyfathrebu â'u hetholwyr. Mae'r gronfa hon ar gael i gefnogi'r Aelodau drwy ddarparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.
- 8.3 Rhaid i unrhyw ddeunyddiau (fel papur â phennawd, cardiau busnes, hysbysebion ar gyfer cymorthfeydd ac adroddiadau) sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog
- 8.4 Mae'r Comisiwn yn darparu templed dwyieithog ar gyfer dylunio gwefannau Aelodau'r Cynulliad sy'n cael eu hariannu gan Gomisiwn y Cynulliad neu'r Bwrdd Taliadau.
- 8.5 Gall Aelodau'r Cynulliad ddefnyddio'r gronfa gyfieithu y cyfeirir ati uchod gyfieithu cynnwys eu gwefannau.

9 Cefnogi a datblygu sgiliau iaith

- 9.1 Mae Comisiwn y Cynulliad, drwy'r Tîm Sgiliau Iaith, wedi ymrwymo i ddarparu cymorth hyblyg wedi'i deilwra ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith.
- 9.2 Mae Comisiwn y Cynulliad yn darparu amgylchedd dysgu i'r Aelodau a'u staff cymorth sy'n eu helpu i ddysgu a datblygu eu sgiliau Cymraeg, boed hynny drwy addysgu, hyfforddi neu ddefnyddio adnoddau ar eu cyflymder eu hunain.
- 9.3 Rydym yn darparu llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr' i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.
- 9.4 Gellir ffurfweddu ein rhyngwyneb Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, yn ddi-ofyn i bob Aelod Cynulliad a'u staff cymorth o'r cychwyn cyntaf.
- 9.5 Mae cyngor ar dechnoleg iaith, gan gynnwys Microsoft Translator, a sut i'w defnyddio'n briodol, ar gael ar Fewnrwyd yr Aelodau ac mae'r Tîm Ieithoedd Swyddogol yn daprau sesiynau hyfforddiant ar y defnydd o'r Gymraeg ar y cyfrifiadur.

10 Deunydd cyfathrebu i Aelodau'r Cynulliad gan staff y Cynulliad

- 10.1 Rydym yn darparu fersiynau dwyieithog o fewnwyd yr Aelodau.
- 10.2 Rydym yn cyfathrebu ag Aelodau'r Cynulliad yn eu dewis iaith neu'n ddwyieithog.
- 10.3 Gall Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth ohebu â holl feysydd gwasanaeth y Cynulliad yn yr iaith swyddogol o ddewis yr Aelodau, a bydd y maes gwasanaeth yn ymateb yn yr un iaith.
- 10.4 Mae gan Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth yr hawl i sgwrsio gyda staff y Cynulliad yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Pan fydd aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg yn ymateb i alwad gan Aelod neu un o'i staff cymorth sy'n siarad Cymraeg, rydym yn disgwyl iddo esbonio nad yw'n siarad Cymraeg a chynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r iaith neu, os yw'n well gan y sawl sy'n galw, parhau yn Saesneg.
- 10.5 Mae gohebiaeth a anfonir at holl Aelodau'r Cynulliad fel grŵp yn ddwyieithog.
- 10.6 Mae'r holl arwyddion dros dro a pharhaol, a phosteri a thafleuni gwybodaeth y mae Comisiwn y Cynulliad yn eu darparu ar ystâd y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog ac yn gydamserol. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os darperir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, maent yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 10.7 Rydym yn disgwyl i bosteri neu daflenni gwybodaeth a ddarperir gan drydydd parti sy'n cael eu harddangos ar hysbysfyrdau ar ystâd y Cynulliad fod yn ddwyieithog.
- 10.8 Mae pob un o gyhoeddiadau'r Cynulliad sydd ar gael yn ddwyieithog yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd, a byddant yn cael eu cynhyrchu yn unol â chanllawiau Comisiwn y Cynulliad ar arddull tŷ.
- 10.9 Wrth ddatblygu gwasanaethau newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal.

Safonau gwasanaeth ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â phobl Cymru

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau dwyieithog o'r safon uchaf i'r cyhoedd.

Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Ieithoedd Swyddogol 2012) yn gosod dyletswydd statudol ar y Comisiwn i alluogi'r cyhoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r Cynulliad – boed hynny wyneb yn wyneb, dros y ffôn, ar-lein neu drwy ohebiaeth – yn yr iaith swyddogol o'u dewis.

Gall aelodau'r cyhoedd neu sefydliadau allanol gynnal digwyddiadau neu arddangosfeydd ar ystâd y Cynulliad. Mae'r Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol bod pob digwyddiad o'r fath yn cael ei noddi gan Aelod Cynulliad. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i drefnwyr digwyddiadau a noddir gan Aelodau'r Cynulliad gydymffurfio â'r rhannau perthnasol hynny o'r Cynllun.

Pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill, byddwn yn eu hannog i gyrraedd y safonau yr ydym yn eu pennu ar ein cyfer ni ein hunain.

Bydd gofyn i unrhyw gontractau neu drefniadau rhwng y Comisiwn a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, gydymffurfio â rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, neu'n diwygio gwasanaethau presennol yn llwyr, byddant yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

11 Gohebu â'r cyhoedd (e-bost neu gopi caled)

- 11.1** Rydym yn ymateb i bob eitem o ohebiaeth gan y cyhoedd yn newis iaith y sawl sy'n gohebu o fewn 15 diwrnod gwaith.
- 11.2** Anfonir unrhyw ohebiaeth yn dilyn cyfarfod neu alwad ffôn yn iaith y drafodaeth wreiddiol oni bai ein bod yn cael gwybod y byddai'n well gan y derbynnydd gael yr ohebiaeth yn yr iaith swyddogol arall neu yn y ddwy iaith.
- 11.3** Mae gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau at fwy nag un derbynnydd yng Nghymru yn cael eu hanfon yn ddwyieithog.
- 11.4** Pan gaiff fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth eu cyhoeddi ar wahân, mae'r ddwy fersiwn ar gael yn gydamserol ac yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 11.5** Mae llofnod awtomatig staff y Cynulliad, a negeseuon sy'n nodi na fyddant yn y swyddfa, yn ddwyieithog. Mae templedi ar gael i sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran safon, fformat a maint. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig.
- 11.6** Mae pob un o gyhoeddiadau'r Cynulliad ar gael yn ddwyieithog, yn gyfartal o ran safon, ffurf, maint ac amlygrwydd, ac yn cael eu cynhyrchu yn unol â chanllawiau Comisiwn y Cynulliad ar arddull tŷ.
- 11.7** Gellir cysylltu â staff y Cynulliad ar gyfeiriadau e-bost yn y naill iaith swyddogol neu'r llall: enw.cyfenw@cynulliad.cymru a name.surname@assembly.wales.

12 Galwadau ffôn

- 12.1** Caiff unrhyw aelod o'r cyhoedd sy'n cysylltu â'r switsfwrdd neu'r dderbynfa yn Nhŷ Hywel, y Senedd, y Pierhead neu Swyddfa Gogledd Cymru ei gyfarch yn ddwyieithog.
- 12.2** Dylai aelodau o staff y Cynulliad ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr adnoddau a'r hyfforddiant priodol ar gael er mwyn iddynt wneud hynny.
- 12.3** Mae gan y cyhoedd yr hawl i sgwrsio â staff y Cynulliad yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Pan fydd aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg yn ymateb i alwad gan siaradwr Cymraeg, rydym yn disgwyl iddo esbonio nad yw'n siarad Cymraeg a chynnig trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n medru'r iaith neu, os yw'n well gan y cwsmer, parhau yn Saesneg.
- 12.4** Mae neges ffôn ddwyieithog ar beiriannau ateb ein prif switsfwrdd a'n derbynfeydd.
- 12.5** Dylai negeseuon llais unigol dros y ffôn gael eu recordio'n ddwyieithog, ac mae adnoddau a hyfforddiant ar gael i hwyluso hyn.

13 Ein delwedd gyhoeddus

- 13.1** Mae'r holl ddulliau hysbysebu, cyhoeddusrwydd ac ymgyrchu, neu ddulliau eraill o ymgysylltu, sy'n targedu'r cyhoedd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. O bryd i'w gilydd, gall hyn olygu cael deunyddiau neu gynnyrch Cymraeg a Saesneg ar wahân, a byddant bob amser ar gael yn gydamserol. Y testun Cymraeg sy'n ymddangos gyntaf neu ar y brig. Os yw'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael ar wahân, byddant yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 13.2** Mae ein hunaniaeth gorfforaethol yn un ddwyieithog. Fodd bynnag, adnabyddir rhai termau gan un enw yn y ddwy iaith swyddogol, gan gynnwys y rhai a ganlyn:
- Llywydd
 - Senedd, Neuadd, Cwrt, Oriel, Siambr;
 - Tŷ Hywel; Siambr Hywel; a
 - Pierhead.

14 Gwasanaethau ymgysylltu a gwybodaeth gyhoeddus

- 14.1** Mae gwybodaeth i'r cyfryngau yn gyffredinol yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog. Darperir eitemau arbennig ar gyfer aelodau unigol o'r cyfryngau yn yr iaith swyddogol o'u dewis.
- 14.2** Mae gwybodaeth am y Cynulliad Cenedlaethol yn cael ei chyhoeddi ar ddwy wefan, un yn Gymraeg, www.cynulliad.cymru, a'r llall yn Saesneg, www.assembly.wales.
- 14.3** Mae gwasanaethau allgymorth ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall. Caiff defnyddwyr y gwasanaeth y cyfle i ddewis iaith wrth drefnu ymweliad gan y tîm allgymorth.
- 14.4** Mae ein ffrydiau cyfryngau cymdeithasol ar gael yn ddwyieithog, naill ai mewn un cyfrif dwyieithog neu mewn cyfrifon Cymraeg a Saesneg ar wahân
- 14.5** Mae ein polisi cyfryngau cymdeithasol yn amlinellu sut y byddwn yn sicrhau presenoldeb dwyieithog priodol.
- 14.6** Bydd ein presenoldeb ar bob plattform ymgysylltu digidol newydd yn ddwyieithog.
- 14.7** Pan na fydd y plattformau hyn ar gael yn ddwyieithog, bydd unrhyw gynnwys a gyhoeddir gennym ni yn ddwyieithog, a byddwn yn annog ein rhanddeiliaid i gyfrannu yn eu dewis iaith swyddogol.
- 14.8** Rydym yn ymateb i ymholiadau ar ein holl broffiliau yn y cyfryngau cymdeithasol yn yr iaith y'u cyflwynwyd.
- 14.9** Gall y cyhoedd wyllo trafodion y Cynulliad ar Senedd.tv, sianel ddarlledu ar-lein y Cynulliad, a hynny naill ai gyda neu heb gyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.
- 14.10** Mae fideos gwybodaeth a gynhyrchir gan y Cynulliad ar gael yn ddwyieithog.
- 14.11** At ddibenion busnes Pwyllgorau, caiff tystiolaeth fideo ei darlledu yn yr iaith wreiddiol gydag is-deitlau Saesneg i gyd-fynd â chyfraniadau Cymraeg. Mae trawsgrifiadau o ddeunydd ffilm ar gael yn yr iaith wreiddiol gyda chyfieithiad o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ôl yr angen.
- 14.12** Mae unrhyw raglenni (apiau), gwefannau neu offer ar-lein yr ydym yn eu creu neu'n eu comisiynu ar gael yn ddwyieithog.
- 14.13** Ar gyfer yr holl gyfarfodydd, seminarau, digwyddiadau neu arddangosfeydd cyhoeddus a drefnir gan Gomisiwn y Cynulliad ar neu oddi ar ystâd y Cynulliad rydym yn:
- anfon gwahoddiadau dwyieithog ac yn cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd dwyieithog;
 - darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ôl y galw ac yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n debygol o fod yn bresennol bod y cyfleuster hwn ar gael yn y digwyddiad;
 - darparu papurau ategol ac unrhyw adroddiadau dilynol yn ddwyieithog;
 - sicrhau bod staff dwyieithog ar gael ym mhob cyfarfod/digwyddiad o'r fath.

15 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

- 15.1** Pan fyddwn yn ymateb i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn gohebu â'r sawl sy'n gwneud cais yn eu dewis iaith swyddogol. Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac arfer gorau. Wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth, caiff y wybodaeth ei darparu yn yr iaith y'i cedwir gan y Comisiwn.

16 Ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad Cenedlaethol

- 16.1** Gall y cyhoedd ddisgwyl gallu sgwrsio â staff rheng flaen naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg yn y manau cyhoeddus hynny a reolir gan Gomisiwn y Cynulliad (y Senedd, y Pierhead, Tŷ Hywel a Swyddfa Gogledd Cymru, ac mewn cyfarfodydd pwyllgor a digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir oddi ar ystâd y Cynulliad).
- 16.2** Mae ymweliadau addysgol a theithiau o amgylch y Senedd ar gael yn y naill iaith swyddogol neu'r llall a rhai ieithoedd eraill. Caiff ymwelwyr y cyfle i ddewis iaith wrth drefnu ymweliad.
- 16.3** Mae teithiau o amgylch y Senedd ar fyr rybudd ar gael yn ein hieithoedd swyddogol a rhai ieithoedd eraill.
- 16.4** Mae cyhoeddiadau clywedol dros y system gyhoeddiadau cyhoeddus ar yr ystâd, gan gynnwys y lifftiau, yn ddwyieithog.
- 16.5** Gall ymwelwyr â Chaffi'r Senedd a'r siop ddisgwyl cael gwasanaeth dwyieithog.
- 16.6** Mae modd adnabod aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr yn hawdd drwy'r defnydd o linynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr'.

17 Digwyddiadau ac arddangosfeydd a noddir gan Aelodau'r Cynulliad ar ystâd y Cynulliad

- 17.1** Disgwylir i sefydliadau sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad anfon gwahoddiadau dwyieithog i'r digwyddiad, a hynny yn enw'r Aelod Cynulliad sy'n eu noddi, ac mae'n ofynnol iddynt anfon y gwahoddiadau at dîm digwyddiadau'r Cynulliad i'w cymeradwyo cyn eu defnyddio.
- 17.2** Bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau a gynhelir gan sefydliadau allanol ar ystâd y Cynulliad ar gais yr Aelod o'r Cynulliad sy'n noddi'r digwyddiad.
- 17.3** Disgwylir i sefydliadau sy'n destun safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg sy'n cynnal digwyddiadau ar ystâd y Cynulliad ac sy'n targedu Aelodau'r Cynulliad neu'r cyhoedd, weithredu yn unol â'r safonau neu'r cynlluniau hynny mewn perthynas â gwybodaeth gyhoeddus a'u delwedd gyhoeddus.
- 17.4** Anogir sefydliadau nad ydynt yn destun cynllun neu safonau iaith i weithredu yn unol ag egwyddorion y Cynllun hwn.

18 Gweithio mewn partneriaeth

- 18.1 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu fel arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth ffurfiol bydd elfennau gwasanaeth cyhoeddus y bartneriaeth honno yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn.
- 18.2 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan eraill, bydd mewnbwn y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Byddwn yn annog partneriaid eraill i barchu egwyddorion y Cynllun hwn.
- 18.3 Pan fydd Comisiwn y Cynulliad yn dod yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn gweithredu yn enw'r consortiwm hwn, byddwn yn gwneud hynny yn unol â'r Cynllun hwn.
- 18.4 Mae fersiynau terfynol o ddogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol ag unigolion, sefydliadau neu grwpiau ar gael yn newis iaith swyddogol y partner.

19 Gwasanaethau trydydd parti

- 19.1 Bydd unrhyw wasanaethau i'r cyhoedd a ddarperir o dan gontract neu drefniant rhwng Comisiwn y Cynulliad a thrydydd parti (fel asiantaethau recriwtio, cwmnïau arlwy, ymgynghorwyr, contractwyr ac ati) yn cydymffurfio â'r rhannau perthnasol o'r Cynllun hwn.
- 19.2 Rydym yn sicrhau bod ein holl gontractwyr yn deall ein hymrwymiad i hyrwyddo dwyieithrwydd ac nid dim ond cydymffurfio â'n safonau ond hefyd chwilio am gyfleoedd i wella gwasanaethau dwyieithog.
- 19.3 Mae ein holl dogfennau caffael yn nodi ein Cynllun ac ein hymrwymiad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog. Maent hefyd yn nodi'r gofynion ar drydydd parti i gydymffurfio â'r Cynllun.
- 19.4 Anfonir gwahoddiadau i gyflwyno tendr at gyflenwyr yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith os bydd hynny'n hysbys. Oni bai fod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn gallu gweithio'n ddwyieithog, at ddibenion gwerthusiad mewnol, caiff unrhyw geisiadau ar gyfer tendr a gyflwynir yn Gymraeg eu cyfieithu i'r Saesneg.

20 Datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd

- 20.1 Pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau newydd i'r cyhoedd, byddwn yn trin y ddwy iaith swyddogol yn gyfartal. Bydd gwasanaethau newydd i'r cyhoedd yn ddwyieithog o'r cychwyn cyntaf.

Safonau gwasanaeth ar gyfer ein staff er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog

Canfu'r Archwiliad Sgiliau mewnol a gynhaliwyd gennym yn 2015 fod tua thri chwarter y staff y mae'r Comisiwn yn ei gyflogi yn ystyried eu bod yn ddysgwyr, bod ganddynt rywfaint o sgiliau dwyieithog neu eu bod yn gwbl ddwyieithog. Mae hyn yn dangos ymrwymiad enfawr y sefydliad i gynyddu ei gapasiti dwyieithog.

Mae ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ein helpu i reoli ein hadnodd sgiliau, gan ystyried arferion gorau mewn cynllunio ieithyddol a chynllunio'r gweithlu, gan gynnwys canllawiau gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth cyflogaeth a chydaddoldeb berthnasol.

Rydym yn sicrhau bod y staff yn deall gofynion y Ddeddf, y Cynllun Ieithoedd Swyddogol a'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a sut maent yn effeithio ar y gwasanaethau a ddarparwn. Gall ein staff ddisgwyl:

- mynediad i gymorth hyblyg wedi'i deilwra i aelodau o staff sy'n dymuno datblygu neu wella eu sgiliau iaith, a chynghor cadarn ar weithio'n ddwyieithog;
- cyfathrebu dwyieithog gyda'r holl staff megis mewnwyd y staff a negeseuon e-bost i'r holl staff;
- y gallu i gyfrannu at gyfarfodydd gyda'r holl staff yn y naill iaith swyddogol neu'r llall;
- rhyngwyneb TGCh y gellir ei ffurfweddu i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall;
- cael cyfieithiad o unrhyw ddogfen y maent wedi'i drafftio i unrhyw un o ieithoedd swyddogol y Cynulliad gan Wasanaeth Cyfieithu a Chofnodi y Cynulliad yn ogystal â gwasanaeth gwirio testun yn y naill iaith neu'r llall;
- cymorth i ddrafftio testun yn ddwyieithog, gan gynnwys cynghor ar y dechnoleg iaith sydd ar gael a sut i'w defnyddio'n briodol, yn ogystal â'r defnydd o wasanaeth gwirio testun cyflym ar gyfer cynnwys sy'n cael ei ddrafftio gyda chymorth cyfieithu peirianyddol; a
- derbyn dogfennau corfforaethol Adnoddau Dynol a Chyllid mewnol yn ddwyieithog neu yn eu dewis iaith swyddogol.

Yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gan ein staff:

- bod yn gwbl ymroddedig i roi'r Cynllun hwn ar waith a darparu'r gwasanaethau dwyieithog sydd wedi'u hamlinellu ynddo;
- parchu hawliau Aelodau, cydweithwyr a'r cyhoedd i ddefnyddio'r naill iaith neu'r llall neu'r ddwy iaith swyddogol;
- sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r cyd-destun hanesyddol, cymdeithasol, diwylliannol a chyfreithiol sy'n sail i ddatblygiad y Cynllun hwn a'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gennym; a
- datblygu gwasanaethau newydd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r Cynllun.

Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan fwrdd rheoli staff y Cynulliad:

- ystyried gofynion y Ddeddf a'r Cynllun hwn wrth ymgymryd â'u dyletswyddau fel Penaethiaid Gwasanaeth neu Arweinwyr Tîm o ddydd i ddydd;
- datblygu cynlluniau iaith ar gyfer pob maes gwasanaeth a chyfrannu at ddatblygiad yr adroddiad blynyddol ar weithredu'r Cynllun hwn;
- arwain drwy esiampl a chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaethau dwyieithog a gynigiwn a mynd i'r afael ar unwaith ag unrhyw achosion pe bai'r ddarpariaeth islaw'r safon ddisgwyliedig;
- annog a chefnogi staff sy'n dymuno gweithio'n ddwyieithog;
- annog a chefnogi staff sy'n dymuno datblygu neu wella eu sgiliau iaith, ac
- ystyried sut mae ein prosesau cynllunio ieithyddol, ein cyfleoedd hyfforddi a'n dull recriwtio yn rhoi ystyriaeth lawn i'r angen am sgiliau dwyieithog ar draws y sefydliad ochr yn ochr â blaenoriaethau busnes allweddol eraill (fel yr amlinellir yn yr adran hon).

21 Cyfathrebu â staff

- 21.1** Mae templedi ar gyfer dogfennaeth gorfforaethol yn ddwyieithog.
- 21.2** Mae pob neges ar ein tudalen newyddion i staff, negeseuon e-bost at yr holl staff ac arolygon staff yn ddwyieithog. Mae'r ddwy fersiwn yn gyfartal o ran safon, fformat, maint ac amlygrwydd.
- 21.3** Mae unrhyw wybodaeth newydd y mae staff yn ei datblygu am eu gwasanaethau (e.e. Gwybodaeth ar y rhyngwyd ac ar ffurf copi caled) yn ddwyieithog.
- 21.4** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ym mhob cyfarfod i'r holl staff, ac ar gais ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau eraill (e.e. cyfarfodydd tîm, byrddau prosiect, gweithgorau).
- 21.5** Caiff cyfarfodydd y bwrdd rheoli eu cynnal yn ddwyieithog. C
- 21.6** Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael i aelodau unigol o staff ar gais ar gyfer cyfarfodydd yn ymwneud â chyflogaeth (h.y. adolygiadau perfformiad, cwynion neu brosesau disgyblu).
- 21.7** Mae gwasanaeth cyfieithu testun ar gael ar gyfer staff unigol ar gais ar gyfer unrhyw faterion yn ymwneud â chyflogaeth (megis adolygiadau perfformiad, cwynion neu brosesau disgyblu).

22 Gweithio'n ddwyieithog

- 22.1 Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn darparu gwasanaethau gwirio testun amrywiol i staff y Cynulliad.
- 22.2 Mae gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi, a sut i gomisiynu a defnyddio'r gwasanaethau hynny ar gael ar Fewnwyd y staff.
- 22.3 Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi yn cynnal deialog gyda chanolfannau rhagoriaeth yng Nghymru a thu hwnt er mwyn sicrhau ei fod yn cael gwybodaeth am y datblygiadau diweddaraf mewn technoleg iaith a chyfieithu.
- 22.4 Mae gwybodaeth a chanllawiau ynghylch argaeledd a defnydd priodol o dechnoleg iaith, gan gynnwys cyfieithu peirianyddol, yn cael ei chyhoeddi ar Fewnwyd y staff a darperir hyfforddiant ar gais.
- 22.5 Gellir ffurfweddu ein rhyngwyneb TGCh i'w ddefnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall, ac mae cyngor ar ffurfweddu ar gael ar Fewnwyd y staff. Darperir Cysgliad, y feddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg, yn ddi-ofyn i bob aelod o staff o'r cychwyn cyntaf.
- 22.6 Gellir ffurfweddu ein system Adnoddau Dynol a chyflogres i'w defnyddio yn y naill iaith swyddogol neu'r llall, ac mae cyngor ar ffurfweddu ar gael ar Fewnwyd y staff.

23 Strategaeth Sgiliau Dwyieithog

- 23.1 Yn unol â'r Ddeddf, mae Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ei lle i sicrhau bod staff y Cynulliad, ar y cyd, ac ar draws y meysydd gwasanaeth, yn meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol i alluogi'r Cynllun i gael ei weithredu.
- 23.2 Caiff cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog, a sicrhau bod aelodau'r staff yn cael y gefnogaeth ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

24 Rhaglen gynefino ac ymwybyddiaeth

- 24.1 Fel rhan o'r broses gynefino gorfforaethol, bydd pob aelod newydd o staff yn cael ei hysbysu am ofynion y Cynllun hwn, ac ymrwymiad y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol.
- 24.2 Bydd pob aelod newydd o staff yn cael gwybod am y cymorth sydd ar gael i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino.
- 24.3 Rydym yn darparu llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr' i aelodau o staff fel y bo'n briodol.
- 24.4 Bydd pob aelod o staff yn ymwybodol o ofynion iaith eu swydd benodol hwy o'r cychwyn cyntaf. Caiff ymgeiswyr eu hasesu yn briodol yn ystod y broses recriwtio er mwyn sicrhau eu bod yn gyffyrddus â'r hyn sy'n ddisgwyliedig o ddeiliad y swydd. Caiff y system rheoli perfformiad ei ddefnyddio i adolygu dealltwriaeth deiliaid swyddi

o ofynion iaith eu swydd, ac i nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen ar unigolion er mwyn cyrraedd y safonau disgwylidig.

DRAFT

DRAFT

Adran 3

Themâu ar gyfer cyfnod y
Cynllun hwn

Roedd yr adran flaenorol yn amlinellu ein safonau gwasanaeth presennol. Mae'r adran hon yn amlinellu sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y safonau hynny er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein huchelgais. Byddwn yn canolbwyntio ar y pum thema ganlynol:

Thema 1: Recriwtio

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, o'r enw 'Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog'¹. Yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd hyfforddiant iaith yn y gweithle, mae hefyd yn argymhell ffordd gymharol newydd o recriwtio gweithlu dwyieithog. Yn hytrach na disgrifio swyddi a hysbysebier fel 'Cymraeg yn hanfodol', 'Cymraeg yn ddymunol', neu ddim un o'r rhieni, mae'n argymhell fframwaith rhuglder. Mae'r fframwaith, sy'n seiliedig ar y model rhuglder ALTE a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn cynnwys lefelau graddedig o hyfedredd yn y Gymraeg. O dan y fframwaith, byddai angen rhyw lefel sylfaenol o ddealltwriaeth o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd a hysbysebier, er y byddai llawer ohonynt ar y lefel isaf lle mae angen 'cwrteisi ieithyddol sylfaenol' yn unig.

Mae nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru eisoes yn defnyddio'r dull newydd hwn, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru, a chynghorau sir Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae dull gweithredu a fabwysiadwyd gan y sefydliadau hyn wedi creu argraff arnom, ac felly rydym yn bwriadu mabwysiadu dull gweithredu tebyg, mwy soffistigedig tuag at recriwtio staff dwyieithog ar draws y sefydliad cyfan. Ar y cyd â'r cymorth sydd ar gael i bob aelod o staff feithrin y sgiliau perthnasol ar gyfer pob un o'r lefelau rhuglder, rydym yn credu ein bod mewn sefyllfa dda i gyflwyno system o'r fath ar gyfer staff Comisiwn y Cynulliad.

Felly, er mwyn cynyddu lefel y sgiliau iaith Gymraeg sylfaenol ar draws y sefydliad dros amser, ac i adeiladu ar ein hethos dwyieithog presennol, erbyn diwedd 2017, byddwn yn:

- mabwysiadu dull lle mae angen o leiaf lefel sylfaenol o sgiliau Cymraeg ('cwrteisi ieithyddol sylfaenol') ar gyfer pob swydd a hysbysebier a bod disgwyl i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r sgiliau hynny adeg eu penodi, neu ymrwymiad i ddysgu'r sgiliau hynny fel rhan o'r broses gynefino;
- rhoi cyngor i'r holl ymgeiswyr ar feithrin y sgiliau iaith priodol cyn eu penodi, gan gynnwys adnoddau arlein;
- darparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfer pob aelod newydd o staff y mae'n ofynnol iddo feithrin sgiliau iaith fel rhan o'r broses gynefino;
- datblygu mecanwaith i helpu i bennu'r lefelau rhuglder sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd a'u disgrifio yn yr hysbyseb swydd;
- rhoi arweiniad i reolwyr recriwtio ar y geiriad priodol er mwyn adlewyrchu gofynion pob swydd;

¹ [Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog: adroddiad y gweithgor ar yr iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Mehefin 2016](#)

- sicrhau bod Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau Comisiwn y Cynulliad yn craffu ar statws gofyniad ieithyddol pob swydd a hysbysebwr cyn eu cymeradwyo;
- sicrhau bod paneli recriwtio yn gallu asesu sgiliau iaith perthnasol y swydd a hysbysebwyd yn gywir;
- sicrhau bod yr holl ymgeiswyr posibl yn ymwybodol o ethos dwyieithog y sefydliad cyn gwneud cais am swydd;
- ymchwilio i ddulliau amgen o recriwtio staff dwyieithog i feysydd penodol lle nad ydym wedi llwyddo i ddenu pobl iddynt yn y gorffennol.

Thema 2: Sgiliau iaith

Gosododd ein gwaith yn ystod y Pedwerydd Cynulliad y sylfeini ar gyfer ffordd arloesol o gyflwyno sgiliau dysgu Cymraeg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff ac ar gyfer aelodau o staff Comisiwn y Cynulliad. Yn ychwanegol at y camau gweithredu ar recriwtio a amlinellir uchod, rydym hefyd wedi ymrwymo i gefnogi pob aelod o staff i ddatblygu neu wella eu sgiliau iaith.

Mae Tîm Sgiliau Iaith wedi'i benodi i ddarparu gwersi Cymraeg ar draws y sefydliad. Bydd gwaith y tîm yn rhoi mwy o ffocws i ddysgu Cymraeg ar gyfer y gweithle. Bydd yn parhau i gynnig gwasanaeth hyblyg a phwrpasol, yn arbennig i Aelodau'r Cynulliad sy'n ddysgwyr neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau dwyieithog presennol. Mae'r dull hyblyg a phwrpasol hefyd wedi gweithio'n dda ar gyfer meysydd gwasanaeth megis y gwasanaethau Diogelwch a Cyswllt Cyntaf. Fodd bynnag, bydd y tîm hefyd yn rhoi targed dysgu penodol bob blwyddyn i bob dysgwr sy'n cofrestru ar gyrsiau dan arweiniad tiwtor. Bydd rheolwyr llinell yn cefnogi aelodau o staff i gyrraedd eu targedau a bydd cynnydd yn cael ei gysylltu â'r sgiliau iaith a nodwyd fel rhan o'r graddau rhuglder (gweler 'Recriwtio' uchod). Defnyddir cynnydd dysgwyr i ddiweddarau cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol a chaiff ei gydnabod fel rhan o'r system rheoli perfformiad.

Felly, erbyn diwedd 2017, byddwn yn:

- datblygu rhaglen o hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol gan ystyried gofynion a dulliau dysgu gwahanol yr holl aelodau o staff;
- datblygu hyfforddiant penodol ar gyfer rhannau penodol o'r sefydliad megis y gwasanaeth Diogelwch er mwyn rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i bob aelod o staff i ddarparu gwasanaeth dwyieithog rhagorol i gwsmeriaid;
- gweithio gyda meysydd gwasanaeth i edrych ar ffyrdd o weithio'n wahanol a defnyddio arbenigedd o feysydd gwasanaeth eraill megis y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi i ddarparu gwasanaethau dwyieithog;
- cyflwyno systemau mwy cadarn i osod targedau ar gyfer dysgwyr ac i gydnabod cyflawniadau;
- parhau i gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg bwrpasol a hyblyg i Aelodau'r Cynulliad a'u staff;
- archwilio modelau newydd, amrywiol ac arloesol o helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith, er enghraifft secondiadau a chynlluniau trochi ieithyddol, ac yn treialu'r modelau hyn dros gyfnod y cynllun hwn.

Thema 3: Cynllunio ieithyddol

Er mwyn i'r holl gamau gweithredu a restrir uchod fod yn effeithiol, bydd angen i holl feysydd gwasanaeth y Cynulliad gynllunio'n effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Bydd y system recriwtio newydd yn cael ei chefnogi gan hyfforddiant sgiliau iaith priodol, a fydd, yn ei dro, yn arwain at fwy o gapasiti dwyieithog. Roedd y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog a gynhaliwyd o dan y Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn ei gwneud yn ofynnol i feysydd gwasanaeth gyhoeddi eu cynlluniau iaith eu hunain. Mae'r rhain yn nodi capasiti dwyieithog y tîm mewn perthynas â swyddogaethau'r gwasanaethau o ddydd-i-ddydd, ac yn amlinellu sut mae pob tîm yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau iaith sydd o fewn y tîm a thu hwnt iddo. Ar gyfer y Pumed Cynulliad, bydd angen i'r cynlluniau iaith fod yn fwy cadarn a byddant yn adlewyrchu cynnydd dysgwyr Cymraeg unigol. Dylid rhoi mwy o gydnabyddiaeth ffurfiol sy'n gysylltiedig â gyrfa i aelodau o staff sy'n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi gyda'r Tîm Sgiliau Iaith. Dylai hyn gael ei adlewyrchu yn system rheoli perfformiad y Cynulliad.

Felly, byddwn yn:

- adolygu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog yn ystod oes y Cynllun. Dylai'r adolygiad, a'r strategaeth ddilynol, gydnabod y buddsoddiad a wneir gan ddysgwyr Cymraeg unigol, y Tîm Sgiliau Iaith a rheolwyr llinell wrth ddysgu Cymraeg;
- gweithio i wella effeithiolrwydd cynlluniau iaith meysydd gwasanaeth unigol i gefnogi ein gwaith ar recriwtio;
- gweithio â gwasanaethau unigol i adolygu eu cynlluniau iaith fel rhan o gynllunio capasiti blynyddol meysydd gwasanaeth ac fel rhan o adroddiadau cydymffurfio blynyddol y Cynllun hwn; ac
- edrych ar ffyrdd o gadw gwybodaeth gyfoes am sgiliau iaith ar fformat adroddiadwy naill ai drwy ein system Adnoddau Dynol a chyflogres neu drwy ein system rheoli perfformiad.

Thema 4: Trafodion y Cynulliad

Cynyddodd y gwaith a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad y cyfleoedd a roddir i Aelodau'r Cynulliad i baratoi ar gyfer trafodion y Cynulliad a chymryd rhan ynddynt yn eu dewis iaith. Erbyn hyn, mae'r Aelodau'n gallu cael papurau briffio pwyllgorau yn eu dewis iaith; geirfaon o dermau technegol a gaiff eu paratoi i gyd-fynd â thaith Biliau drwy'r senedd ac ymchwiliadau penodol pwyllgorau; mae cymorth un-i-un ar gael i Aelodau sy'n ddysgwyr er mwyn cymryd rhan drwy gyfrwng y Gymraeg. Gan weithio gyda'r aelodau newydd a'r pwyllgorau newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, byddwn yn integreiddio gweithio'n ddwyieithog ar gyfer y rhai sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gyfer pwyllgorau, mae'r dull tîm integredig wedi gweithio'n dda fel modd o nodi anghenion unigol Aelodau'r Cynulliad. Byddwn yn cryfhau rolau'r timau drwy ddarparu cyfeillion cyswllt i Aelodau'r Cynulliad sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn bwydo gofynion yr Aelodau i'r tîm integredig cyfan.

Byddwn yn:

- meithrin dealltwriaeth o ddewisiadau unigol Aelodau'r Cynulliad mewn perthynas â pharatoi ar gyfer trafodion y Cynulliad drwy gyfrwng y Gymraeg;
- datblygu rhaglen ehangach o hyfforddiant sgiliau iaith pwrpasol gan ystyried gofynion a dulliau dysgu gwahanol Aelodau'r Cynulliad sy'n dysgu Cymraeg neu sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg;
- datblygu rolau'r timau integredig i roi cefnogaeth well i Aelodau'r Cynulliad sy'n dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- rhoi cyngor ac arweiniad ar weithio'n ddwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth.

Thema 5: Datblygu ethos dwyieithog y sefydliad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn sefydliad dwyieithog sy'n gwasanaethu cenedl ddwyieithog. Ein dyletswydd statudol yw trin dwy iaith swyddogol y Cynulliad yn gyfartal a darparu rhyddid o ran dewis iaith swyddogol. Rhaid i'n hunaniaeth ddiwylliannol a chorfforaethol adlewyrchu'r gofynion hyn. Bydd y camau gweithredu o ran yr is-themâu canlynol yn sicrhau bod ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd yn dod yn rhan fwy integredig byth o waith y Cynulliad o ddydd i ddydd.

Adnabod staff dwyieithog

Fel rhan o'n cynnig rhagweithiol corfforaethol, byddwn yn atgyfnerthu'r hawl i bawb sy'n dod i gysylltiad â ni i ddefnyddio'r ddwy iaith swyddogol neu'r naill iaith neu'r llall. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gwnaethom gynnydd o ran y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn fwy ar draws y sefydliad. Un enghraifft syml ond effeithiol o'r ffordd yr ydym wedi cyflawni hyn yw drwy gyflwyno llinynnau gwddf ar gyfer dysgwyr. Cawsant eu seilio ar y llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' mwy adnabyddus, ond gyda 'Dysgwr' wedi'i farcio'n glir arnynt. Mae'r llinynnau gwddf wedi bod yn boblogaidd gyda dysgwyr, ac wedi sicrhau cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yng nghoridorau a swyddfeydd y Cynulliad. Maent hefyd wedi bod yn boblogaidd gyda sefydliadau allanol, gyda llawer yn gofyn i'r Cynulliad ddarparu llinynnau gwddf i'w sefydliadau.

Fodd bynnag, mae llawer o waith i'w wneud eto yn y maes hwn. Byddwn yn gweithio gyda meysydd gwasanaeth unigol i edrych ar ffyrdd o adnabod aelodau o staff sy'n gallu darparu gwasanaethau dwyieithog. Byddwn hefyd yn sicrhau eu bod, yn eu tro, yn hawdd i ddefnyddwyr gwasanaethau eu hadnabod.

Byddwn yn:

- datblygu ffyrdd i staff nodi eu bod yn ddwyieithog neu'n ddysgwyr yn eu negeseuon e-bost;
- sicrhau bod staff dwyieithog yn gwisgo llinynnau gwddf 'Iaith Gwaith' neu 'Dysgwr'

Dylai aelodau o staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg fod yn hawdd eu hadnabod er mwyn i siaradwyr Cymraeg sy'n ymweld â'r Cynulliad allu ymgysylltu â hwy heb orfod troi i'r Saesneg. Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad darparwyd gwarsi Cymraeg pwrpasol i bob aelod o staff y Gwasanaeth Diogelwch a chynhaliwyd sesiynau gydag aelodau'r gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg er mwyn cynyddu eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg. Cynhaliwyd nifer o ymgyrchoedd recriwtio penodol hefyd. Arweiniodd yr amrywiol ddulliau hyn at gynnydd

cyffredinol yng nghapasiti dwyieithog y gwasanaeth, ac mae'r maes gwasanaeth hwn yn ymrwymedig iawn i wella hynny. Bydd y dull hwn yn cael ei atgyfnerthu yn y Pumed Cynulliad. Byddwn yn:

- sicrhau bod aelodau o staff rheng flaen megis y gwasanaeth Diogelwch yn cael rhagor o hyfforddiant iaith pwrpasol;
- datblygu dulliau hyfforddi newydd a hyblyg i ystyried patrymau shifftiau a chylchdroi;
- ystyried ffyrdd arloesol o recriwtio swyddogion diogelwch dwyieithog, o bosibl drwy asiantaethau recriwtio arbenigol; a
- sicrhau bod ffordd i ymwelwyr ag ystâd y Cynulliad ac aelodau o staff y Cynulliad adnabod aelodau staff rheng flaen sy'n siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr;

Ymwybyddiaeth

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad darparwyd seminarau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar gyfer pob aelod o staff Comisiwn y Cynulliad. Roeddent yn ddull llwyddiannus o godi ymwybyddiaeth ynghylch y defnydd hanesyddol a chyfredol o'r Gymraeg mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r tîm leithoedd Swyddogol yn y Cynulliad wedi cynhyrchu fideo sy'n crynhoi prif themâu'r seminarau hynny. Mae'n cynnwys cyfweiliadau gyda rhai o'r dysgwyr yn y Cynulliad, sy'n egluro sut mae dysgu Cymraeg wedi helpu eu datblygiad proffesiynol.

Byddwn yn:

- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r holl newydd-ddyfodiaid fel rhan o'r broses gynefino gorfforaethol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth o ofynion y Cynllun;
- darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r rhai a ymunodd â'r Cynulliad ar ôl i'r seminarau ymwybyddiaeth gael eu cynnal;
- darparu cyfleoedd parhaus i ategu neu ddatblygu dealltwriaeth o'r Cynllun ac o natur gweithio'n ddwyieithog; a
- pharhau i ddefnyddio fforwm cydgysylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun ymhlith staff.

Yn 2016, cynhaliwyd cyfres o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Ym mis Hydref 2015, cynhaliwyd cyfres wythnos o hyd o ddigwyddiadau i gyd-fynd â 'Diwrnod Shwmae/Sumae' cenedlaethol, lle mae pawb yn cael eu hannog i gyfarch ei gilydd yn y Gymraeg. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau bob diwrnod o'r wythnos er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael i bob aelod o staff ar draws y sefydliad.

Byddwn yn:

- parhau i drefnu gweithgareddau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad; a
- rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau ein dysgwyr Cymraeg drwy amrywiol gyfryngau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Technoleg

Un o'n prif gyflawniadau yn ystod oes y Cynllun cyntaf oedd y prosiect cyfieithu peirianyddol gyda Microsoft i gyflwyno'r Gymraeg fel opsiwn iaith ar amrywiaeth o raglenni Microsoft, gan gynnwys Microsoft Office (gweler tudalen x). Bydd angen cynnal y berthynas yr ydym wedi'i meithrin gyda Microsoft, er mwyn parhau i wella ansawdd y cynnyrch cyfieithu, ac er mwyn bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar unrhyw ddatblygiadau pellach yn y maes.

Rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf o ran theori a chymhwysio technoleg iaith. Mae sicrhau bod gan ieithoedd llai eu defnydd fel y Gymraeg bresenoldeb gweladwy a hygyrch ar gynifer o lwyfannau â phosibl yn un ffordd o osgoi'r posibilrwydd o'u difodiant digidol.

Er mwyn ategu agenda ymgysylltu digidol y Cynulliad, rydym yn sicrhau ein bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes, a byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ffeindio ffyrdd o weithio gyda phartneriaid i ddarparu rhyngwynebau dwyieithog.

Byddwn yn:

- parhau i ddatblygu ein perthynas gyda Microsoft yn dilyn cyflwyno'r Gymraeg yn llwyddiannus ar raglenni sy'n defnyddio Microsoft Translator yn fyd-eang;
- mynd ati i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ar ddatblygiad technoleg ac offer iaith, gan gynnwys datblygiadau ym maes technoleg llais-i-destun;
- ymchwilio i ffyrdd o ddarparu rhyngwynebau cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol ar broffiliau TGCh Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth neu staff newydd Comisiwn y Cynulliad sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg, a sicrhau eu bod yn cael cymorth i ddefnyddio'r rhyngwynebau hynny;
- ceisio cyfleoedd i wneud defnydd creadigol o dechnolegau newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn ehangu ein dulliau ymgysylltu, ac er mwyn galluogi ein cyfranddeiliaid i ymgysylltu â ni mewn fformat o'u dewis a thrwy gyfrwng eu dewis iaith swyddogol; a
- chydweithio fel y bo'n briodol â phartneriaid i ehangu'r ddarpariaeth o ran rhyngwynebau dwyieithog sydd ar gael i'n cyfranddeiliaid.

DRAFT

Adran 4: Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl

Yr awdurdod dros weithredu'r Cynllun hwn a'r cyfrifoldeb am ei roi ar waith

Mae Comisiwn y Cynulliad a Chynulliad Cenedlaethol Cymru a Bwrdd Rheoli Staff y Cynulliad yn awdurdodi, yn cefnogi ac yn cymeradwyo'r Cynllun hwn yn llwyr.

Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros sicrhau y caiff y Cynllun hwn ei roi ar waith. Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Comisiwn sydd â'r cyfrifoldeb dros gydgylltu, monitro a, phan fo angen, cynghori ar ddiwygio cynnwys y Cynllun. O ddydd i ddydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fydd sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun a chyd-drafod â chydgylltydd pob gwasanaeth i wella ystod ac amseriad ein gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol.

Mae pob aelod o staff y Cynulliad yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mesurau yn y Cynllun ac am gydymffurfio â hwy wrth iddynt wneud eu gwaith o ddydd i ddydd. Bydd hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu i staff i'w galluogi i gyflawni gofynion y Cynllun.

Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo dros:

- weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w waith;
- annog staff i ddatblygu, gwella a defnyddio eu sgiliau iaith;
- nodi dulliau neu gymorth a allai gynorthwyo staff i ddefnyddio'u sgiliau iaith; a
- sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ethos dwyieithog y Cynulliad, yr uchelgais a'r gwasanaethau a amlinellir yn y Cynllun hwn;

O dan y Cynllun cyntaf, creodd Comisiwn y Cynulliad fforwm o gydgylltwyr y cynllun o bob maes gwasanaeth. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r cydgylltwyr yn gyfrifol am:

- fod yn bwynt cyswllt cyntaf y maes gwasanaeth ar gyfer aelodau'r staff ar gyfer unrhyw agwedd ar y Cynllun leithoedd Swyddogol;
- darparu cyngor ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun yn eu maes gwasanaeth;
- darparu gwybodaeth a hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff newydd yn eu maes gwasanaeth;
- adolygu cynnydd yn erbyn gofynion y Cynllun drwy Fforwm Cydgylltwyr y Cynllun leithoedd Swyddogol, gan gynnwys cydymffurfio â materion fel llofnod awtomatig dwyieithog a negeseuon llais;
- hysbysu Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol am unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio â'r Cynllun;
- adnabod a rhannu enghreifftiau o arferion da a drwg.

Monitro ac adrodd yn ôl

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn osod adroddiad gerbron y Cynulliad sy'n nodi sut y mae'r Comisiwn wedi rhoi'r Cynllun ar waith yn ystod y flwyddyn o dan sylw.

Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi i ba raddau, os o gwbl, y darparwyd y gwasanaethau y cyfeirir atynt yn y Cynllun ac, os yn berthnasol, y rhesymau pam na ddarparodd y Comisiwn y gwasanaethau hynny. Byddwn hefyd yn monitro cydymffurfiaeth pob gwasanaeth unigol â'r Cynllun.

Bydd monitro cydymffurfiaeth yn flynyddol yn sicrhau bod ein dull o ddarparu gwasanaethau dwyieithog i Aelodau a'r cyhoedd yn dryloyw, ac yn eu galluogi i ddwyn y Comisiwn i gyfrif wrth i ni roi'r Cynllun ar waith. Mae hefyd yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn sy'n ei alluogi i ddatblygu a gwella ein gwasanaethau dwyieithog yn y dyfodol.

Mae llw o gyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad graffu ar y Cynllun a'i weithrediad:

- ymgynghorir â hwy bob tymor Cynulliad cyn ei fabwysiadu;
- mae swyddogion y Cynulliad yn ymgysylltu â'r Aelodau'n rheolaidd ar weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd;
- cynhelir dadl ar adroddiad blynyddol y Cynllun yn y Cyfarfod Llawn.

Adolygu a diweddarau'r Cynllun

Mae'r Cynllun hwn yn cael ei adolygu yn unol â pharagraff 8(g) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012).

Bydd y Comisiwn yn cynnal ymgynghoriad ar unrhyw ddiwygiad i'r Cynllun hwn a Chynlluniau drafft yn y dyfodol yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth berthnasol. Ni ellir mabwysiadu diwygiadau i'r Cynllun oni bai fod y copïau drafft:

- wedi'u cyhoeddi a'u gosod gerbron y Cynulliad;
- ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a bod unrhyw sylwadau wedi'u hystyried;
- wedi'u hailosod gerbron y Cynulliad; ac
- wedi'u cymeradwyo drwy benderfyniad y Cynulliad.

Ymdrin â chwynion

Rydym am i'r cyhoedd, Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff y Cynulliad ein hysbysu ynghylch unrhyw bryderon sydd ganddynt, gan gynnwys enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio â'r Cynllun, cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn ein galluogi i unioni'r sefyllfa ac i wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Byddwn yn ymdrin â chwynion yn unol â Chod Ymarfer y Cynulliad Cenedlaethol ar Gwynion.

Os oes gennych bryder neu gŵyn, dylech godi'r mater gyda'r swyddog y buoch yn ymdrin ag ef yn y lle cyntaf. Os na fydd hyn yn tawelu eich pryderon yn ddigonol, dylech wneud cwyn swyddogol. Gallwch wneud hyn drwy e-bost, ffacs, llythyr neu drwy lenwi ein ffurflen gwyno. Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, neu berson arall a enwebwyd ganddi, fydd yn ymchwilio i'r gŵyn yn unol â'n proses gwyno. Os nad ydych yn fodlon ar y canlyniad, gallwch ofyn i'r mater gael ei ystyried gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru neu'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Safonau gwasanaeth ar gyfer monitro ac adrodd yn ôl

25 Cydgysylltu'r broses o roi'r Cynllun ar waith

- 25.1** O ddydd i ddydd, Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses o ddatblygu'r Cynllun a'i roi ar waith ac am fonitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun.
- 25.2** Mae Cydgysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol pob maes gwasanaeth yn cynorthwyo gydag agweddau perthnasol ar gyflawni'r Cynllun a sicrhau cydymffurfiaeth ag ef.

26 Ymdrin â chwynion ac achosion o fethu â chydymffurfio

- 26.1** Bydd unrhyw gwynion ac ymatebion iddynt yn cael eu prosesu gan y gwasanaeth perthnasol ar y cyd â chydysylltydd Cynllun leithoedd Swyddogol y gwasanaeth. Bydd cwynion neu achosion o fethu â chydymffurfio yn cael eu trin yn yr un modd ag unrhyw ohebiaeth arall a bydd Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol yn cael gwybod amdanynt bob tro.

27 Yr adroddiad blynyddol

- 27.1** Rheolwr y Cynllun leithoedd Swyddogol fydd yn gyfrifol am reoli'r broses o lunio ein hadroddiad blynyddol, a'i baratoi i'w ystyried gan y Cynulliad yn unol â pharagraff 8(9) o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan adran 2 o Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012.
- 27.2** Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w ystyried ym mis Gorffennaf bob blwyddyn yn ystod oes y Cynllun hwn.

DRAFT

**Cynllun Ieithoedd Swyddogol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad
Cydydffurfio Blynyddol**

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol olaf ar Gynllun Ieithoedd Swyddogol Comisiwn y Cynulliad. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod misoedd olaf y Pedwerydd Cynulliad a blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad. Mae llawer o'r gwaith wedi canolbwyntio ar y cyfnod pontio rhwng y ddau Gynulliad, a sicrhau ein bod yn parhau i weithio tuag at ein huchelgais i gael ein cydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Dyma fy nghyfle cyntaf fel Comisiynydd y Cynulliad i gyflwyno'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol. Hoffwn ddefnyddio'r cyfle hwn i ddiolch i Rhodri Glyn Thomas, fy rhagflaenydd am ei ymrwymiad i ymgorffori ethos dwyieithog cryf ar draws y sefydliad. Hoffwn hefyd ddiolch i fy nghydweithiwr, Dai Lloyd AC a ymgwymerodd â rôl Comisiynydd y Cynulliad gyda chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol am gyfnod byr ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Fel Comisiynydd ac Aelod Cynulliad newydd, cefais fy nharo gan ymrwymiad parhaus y Cynulliad i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol lle mae dwyieithrwydd yn amlwg yn rhan naturiol o'i ddiwylliant a'i arferion gwaith. Mae Comisiwn y Cynulliad yn falch o'i enw da cynyddol am arloesi wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar y gwaith da a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, i ddysgu gan eraill a rhannu arbenigedd lle bo hynny'n bosibl. Wrth inni ddod â'r Cynllun presennol i ben a gweithredu Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, sy'n adeiladu ar y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma, rydym yn hyderus y gallwn gadarnhau ein henw da fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog sy'n arwain y ffordd mewn darparu gwasanaeth dwyieithog yng Nghymru.

Adam Price

Y Comisiynydd sydd â chyfrifoldeb dros ieithoedd swyddogol, a darparu a thrawsnewid gwasanaethau i'r Aelodau.

Cyflwyniad

Dyma'r Adroddiad Cydymffurfio Blynyddol olaf ar gyfer y Cynllun Ieithoedd Swyddogol presennol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013. Dros gyfnod y Cynllun, uchelgais Comisiwn y Cynulliad oedd darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol a chael ei gydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog. Mae camau sylweddol wedi'u cymryd ers 2013 i ymgorffori a hyrwyddo ethos a diwylliant dwyieithog.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn ymrwymedig o hyd i gynnal a chynyddu'r ymgyrch i gyflwyno darpariaethau'r Cynllun, ac mae wedi annog staff i hwyluso gweithio dwyieithog mewn modd rhagweithiol wrth ddarparu pob gwasanaeth. Fel yr amlinellwyd yn y blaenoriaethau ar gyfer blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad, mae cynnal y momentwm a'r brwdfrydedd dros arloesedd a newid wedi bod yn flaenoriaeth, yn enwedig yng nghyd-destun Etholiad Cyffredinol y Cynulliad yn 2016 a misoedd cyntaf y Pumed Cynulliad.

Mae ein hymrwymiad i gyflawni ein nodau hirdymor yn parhau yr un mor gryf ag erioed, sef:

- darparu mwy o wasanaethau dwyieithog rhagorol;
- gwerthfawrogi ein staff am yr ymrwymiad y maent yn ei gynnig i'r Cynulliad a'u harbenigedd proffesiynol a seneddol; a
- rhannu ein profiadau a'n gwybodaeth am weithio'n ddwyieithog gyda sefydliadau eraill.

Mae Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012, yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad adolygu ei Gynllun Ieithoedd Swyddogol "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl pob etholiad cyffredinol cyffredin...". O ganlyniad i hyn, roedd y paratodau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cynnwys gwaith ar yr adolygiad hwn a datblygu Cynllun ar gyfer y Cynulliad newydd.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am y gwelliannau a'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad, dechrau blwyddyn seneddol gyntaf y Pumed Cynulliad a'r cyfnod pontio rhwng y ddau Gynulliad. Mae'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn amlinellu themâu â blaenoriaeth ar gyfer tymor y Cynulliad cyfan. Byddwn yn adrodd yn flynyddol ar ein cyflawniadau o fewn y meysydd hynny â blaenoriaeth, yn darparu manylion am gwynion a gwersi a ddysgwyd yn ogystal ag amlinellu unrhyw feysydd o bryder neu flaenoriaethau ychwanegol wrth inni barhau i weithio tuag at gyflawni uchelgais y Comisiwn.

Gwasanaethau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth

Paratoi ar gyfer y Cyfarfod Llawn a chyfarfodydd pwyllgor

Gwnaeth blwyddyn seneddol olaf y Pedwerydd Cynulliad ein galluogi ni i ymgorffori darpariaeth ragweithiol o ran cymorth ddwyieithog ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r canlyniadau a'r gwersi a ddysgwyd o sawl cynllun peilot, gan gynnwys papurau briffio ddwyieithog a chyfieithu testun yn gyflym i Aelodau Cynulliad sydd am gyflwyno areithiau yn Gymraeg, yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ein galluogi i weithredu ffordd fwy deilwredig a phwrpasol o ymateb i ddewisiadau Aelodau Cynulliad o ran gweithio'n ddwyieithog. Roedd y paratodau ar gyfer y Pumed Cynulliad yn ystyried yn llawn yr angen i alluogi Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i weithio yn yr iaith o'u dewis yn ddiodyn.

Fel rhan o broses groeso a chynefino y Pumed Cynulliad, gwnaed darpariaeth i ddeall anghenion a dewisiadau iaith yr holl Aelodau Cynulliad a oedd yn dychwelyd, yn ogystal â'r Aelodau Cynulliad newydd a'u staff cymorth. Darparwyd rhaglen gynefino llawn ar gyfer pob Aelod Cynulliad newydd, ac roedd gweithio'n ddwyieithog yn rhan bwysig o'r rhaglen honno. Lle roedd dewis iaith Gymraeg yn hysbys, cafodd Aelodau'r Cynulliad eu paru gyda 'chymhellion' ddwyieithog i roi cyflwyniad cychwynnol i ystâd y Cynulliad ac i'w cefnogi wrth iddynt gyrraedd i ddechrau yn eu swyddi. Gwnaethom hefyd drafod dewisiadau iaith gydag Aelodau'r Cynulliad yn ystod y cyfnod hwn, a hwyluso eu dewis iaith lle bynnag y bo'n hysbys. Bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn adeiladu ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod hwn ac yn ymgorffori diwylliant o gynnig gweithio'n ddwyieithog yn rhagweithiol ymhellach.

Dyfyndiad

Ar ôl cael fy ethol yn Aelod, cefais fy synnu pa mor gyfleus yw hi i weithio'n ddwyieithog yn y Cynulliad a pha mor braf yw cael gweithio mewn sefydliad sydd ag ethos gwirioneddol ddwyieithog. Mae'n golygu ei bod hi'n rhwydd i mi allu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl y galw. Er fy mod wedi gweithio yn Senedd Ewrop, sy'n senedd amlieithog, mae'r gallu i ddefnyddio fy mamiaith mewn sefyllfa ffurfiol wedi dod fel chwa o awyr iach.

Mae rhagor o waith wedi'i wneud hefyd i ymchwilio i ddarparu cymorth wedi'i deilwra a chymorth pwrpasol i Aelodau Cynulliad unigol. Drwy waith y timau pwyllgor integredig, mae Aelodau'r Cynulliad wedi nodi eu dewisiadau ar gyfer amseru, iaith a chynnwys y dogfennau ategol. Mae'r gwaith tîm hwn yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad baratoi ar gyfer yr holl ddadleuon a thrafodaethau yn yr iaith o'u dewis, yn ogystal â chyfrannu yn yr iaith o'u dewis. Mae cymorth wedi'i deilwra yn parhau i gael ei ddarparu i Gadeiryddion Pwyllgorau er mwyn eu galluogi i baratoi ar gyfer dadleuon a chyflwyno areithiau yn yr iaith o'u dewis. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi hefyd yn cynnig gwasanaeth gwirio terminoleg i gynorthwyo gyda drafftio nodiadau siarad. Byddwn yn parhau i weithio gydag Aelodau Cynulliad a'u staff cymorth i ddod o hyd i ffyrdd amgen ac arloesol o ddarparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn eu galluogi i weithio yn yr iaith o'u dewis yn ddiodyn.

Dysgu iaith

Tuag at ddiwedd 2015, cynhaliodd Comisiwn y Cynulliad adolygiad manwl o'i ddarpariaeth dysgu iaith ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Diben yr adolygiad oedd atgyfnerthu'r ymagwedd ddarniog flaenorol i ddysgu iaith a sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod mor hyblyg ac wedi'i deilwra â phosibl. O ganlyniad i'r adolygiad, a chynllun peilot a arweiniodd at benodi Tiwtor Cymraeg mewnol dros dro i staff y Comisiwn, sefydlwyd y tîm Sgiliau Iaith. Mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr Diwtor a dau Diwtor sydd wedi'u penodi. Mae gwaith y tîm hefyd yn cael ei gefnogi gan bedwerydd aelod sy'n darparu cefnogaeth achlysurol pan fo angen. Mae sefydlu'r Tîm Sgiliau Iaith wedi caniatáu i Gomisiwn y Cynulliad ymateb yn greadigol i anghenion dysgu iaith Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a staff y Comisiwn. Mae'r Tîm wedi cynllunio rhaglen arloesol o ddysgu er mwyn galluogi dysgwyr o bob lefel i gymryd rhan a gwneud cynnydd. Mae'r Tîm hefyd wedi datblygu ymhellach y brand 'Dysgwr' sydd bellach yn logo adnabyddus ar draws ystâd y Cynulliad. Mae'r tîm bellach yn cefnogi dros 100 o ddysgwyr yn rheolaidd yn ogystal â darparu hyfforddiant untro, er enghraifft ateb y ffon neu gadeirio cyfarfodydd yn ddwyieithog, i eraill.

Dyfyniad

Ers i'r cortynnau gwddf 'Dysgwr' gael eu cyflwyno yn y Cynulliad, rwy'n dechrau sgwrs yn Gymraeg gyda llawer mwy o bobl. Mae'n ffordd dda o gynyddu hyder dysgwyr, yn enwedig i'r rhai sydd ddim yn teimlo'n ddigon hyderus i wisgo'r cortynnau gwddf iaith Gwaith arferol.

Elin Jones AC, Llywydd

Dyfyniad

Dechreuais weithio i Aelod Cynulliad yng ngogledd Cymru yn dilyn yr etholiad ym mis Mai. Roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig imi wella fy sgiliau Cymraeg fel y gallwn o leiaf geisio siarad Cymraeg sylfaenol gyda rhai etholwyr. Mynychais gwrs dwys am dri diwrnod yn ystod toriad yr haf, llwytho'r ap "Dweud rhywbeth yn y Gymraeg" ac rwyf bellach yn bwriadu datblygu fy nysgu drwy fynychu gwersi wythnosol gyda'r Tîm Sgiliau Iaith. Erbyn hyn, rwy'n teimlo'n fwy hyderus i o leiaf roi cynnig arni ac rwy'n edrych ymlaen at roi hyn i gyd ar waith.

Julie Price, Uwch-ymgyngorydd i Nathan Gill AC

Aelodau Cynulliad a'u hetholwyr

Rydym wedi parhau i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu â'u hetholwyr yn yr iaith o'u dewis a chynhyrchu dogfennaeth ddwyieithog sy'n gysylltiedig â'r etholaeth. Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus y llynedd, mae cronfa gyfieithu Busnes Etholaethol Aelodau'r Cynulliad wedi'i hystrebu i gynnwys cyfieithu ar y pryd mewn digwyddiadau etholaethol. Mae pob Aelod Cynulliad newydd a'r Aelodau sydd wedi dychwelyd wedi cael gwybodaeth am y defnydd o'r gronfa, ac mae'r defnydd a wneir ohoni'n parhau'n gyson. Byddwn yn parhau i weithio gydag Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth i ddatblygu templedi a thestun safonol er mwyn hwyluso gweithio'n ddwyieithog yn eu cymunedau.

Dyfyniad

Mae'r trefniant newydd i gael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus yn yr etholaeth yn golygu y gallwn gynnig gwasanaeth cwbl ddwyieithog i aelodau'r cyhoedd. Rydym wedi gwneud cryn ddefnydd o'r gwasanaeth ac mae'r cyfarfodydd eu hunain yn cael eu cynnal yn naturiol yn y naill iaith neu'r llall.

Heledd Roberts, Rheolwr Swyddfa i Rhun ap Iorwerth AC

Dyfyniad

Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, roeddwn yn gweithio i Aelod Cynulliad a oedd yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol fel rhan o'i waith fel Aelod. Roeddwn yn gwneud defnydd cyson o'r gwasanaeth cyfieithu i Aelodau er mwyn cyfieithu cwesitynau ac areithiau byr o'r naill iaith i'r llall. Roedd y ffaith fy mod yn gallu defnyddio Microsoft Translator ac wedyn anfon y cyfieithiad i'w brawfddarllen mewn amser byr iawn yn help enfawr. Fel dysgwr, fe helpodd hynny fi i ddarparu gwasanaeth dwyieithog i'r Aelod a'i ethowyr fel y'i gilydd, ac fe helpodd fi i wella fy Nghymraeg.

Rheolwr Swyddfa i Aelod Cynulliad

Astudiaeth Achos - Technoleg ac ymgysylltu

Mae gwasanaeth Cyswllt Cyntaf y Cynulliad wedi bod yn treialu'r defnydd o iBeacons dwyieithog yn y Senedd a'r Pierhead. Dyfeisiadau bach Bluetooth yw I-Beacons sy'n darlledu signal adnabod unigryw ac y gall ffonau a thabledi eu pigo. Maent wedyn yn darlledu cynnwys sydd wedi ei recordio o flaen llaw yn unol â lleoliad yr ymwelydd yn yr adeilad. Gall y Beacons ddod â nodweddion pensaerniol a hanesyddol ein hadeliadau eiconig yn fyw. Bydd ymwelwyr yn gallu ymwneud â ni yn uniongyrchol drwy eu dyfeisiadau symudol a gallant ddewis ar ba ran o'r adeilad yr hoffent ganolbwyntio. Mae'r holl gynnwyd wedi ei lunio'n ddwyieithog a'i brofi ar ystad y Cynulliad. Caiff y teithiau eu cyflwyno'n llawn yn 2017 ac yn eu tro gellir eu cynhyrchu mewn ieithoedd eraill.

02. Gwasanaethau i bobl Cymru

Ymwelwyr ag Ystâd y Cynulliad

Ers i'n contractwyr arlwyo benodi staff dwyieithog ychwanegol, rydym wedi gweld defnydd rhagweithiol o'r iaith yng nghaffi'r Senedd ac o'i amgylch. Mae'r holl staff arlwyo wedi cael hyfforddiant sgiliau cwrteisi sylfaenol ac rydym wedi gweithio gyda'n contractwyr i recriwtio mwy o aelodau o staff dwyieithog i wella'r gallu dwyieithog ar gyfer digwyddiadau a lletygarwch.

Mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn gweithio gyda'r tîm Diogelwch i ddatblygu rhaglen hyfforddiant ar gyfer pob aelod o'r tîm. Bydd hyn yn adeiladu ar waith blaenorol i sicrhau bod pob aelod o staff Diogelwch llinell flaen yn datblygu sgiliau cwrteisi sylfaenol, a bydd hefyd yn annog dysgwyr mwy hyfedr i ddefnyddio eu sgiliau yn y gweithle. Yn ystod y diddymiad, buom yn gweithio gyda'r tîm i dreialu rhai dulliau newydd, gan gynnwys mentora un-i-un, hyfforddiant yn y gwaith a darparu *aide memoires* ac adnoddau sain ar gyfer aelodau newydd o staff.

Cefnogi cydweithwyr

Yn ogystal â darparu cymorth dysgu iaith, mae'r Tîm Sgiliau Iaith yn gweithio ar raglen gynhwysfawr sydd wedi'i hanelu at staff sydd eisoes â rhywfaint o sgiliau Cymraeg, ond sydd o bosibl yn brin o hyder. Mae'r sesiynau 'gloywi iaith', gan gynnwys sesiynau 'gwella' gramadeg ffurfiol yn ogystal â mentora mwy anffurfiol ar gyfer unigolion neu grwpiau bach, i gyd yn elfennau pwysig o waith y Tîm Sgiliau Iaith. Byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddatblygu ein hethos dwyieithog ymhellach, lle mae pob aelod o staff yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio a gwella ei sgiliau, ac yn teimlo y caiff ei werthfawrogi am y sgiliau sydd ganddo.

Rhannu arbenigedd

Mae Comisiwn y Cynulliad unwaith eto eleni wedi ymwneud yn rhagweithiol i ddarparu cyngor a rhannu arbenigedd gydag ystod o gyrff allanol. Rydym

wedi gweithio gyda nifer o gyrff academiaidd, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol y Drindod Dewi Sant a'r *Coleg Cymraeg Cenedlaethol* er mwyn cyfrannu at nifer o fodiwlau academiaidd ar gyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd. Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi wedi cynnal ei gydberthynas cydweithredol gyda'r Sefydliad Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd [ITI] a Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Rydym hefyd wedi datblygu ein cydberthynas â nifer o sefydliadau allanol, gan gynnwys llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill, i roi cyngor a chyfarwyddyd ymarferol ar faterion sy'n ymwneud â sefydlu a rhedeg gwasanaeth cyfieithu a'r defnydd effeithiol o dechnoleg iaith. Mae ein henw da fel arweinwyr yn gweithio'n ddwyieithog yng Nghymru yn ein galluogi i rannu ein profiad o ddefnyddio technoleg iaith, darparu gwasanaethau pwrpasol, hyfforddiant iaith mewnol ac ati gyda charfan ehangach o gyrff a sefydliadau.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn parhau i fwynhau cydberthynas adeiladol â Chomisiynydd y Gymraeg ac rydym yn ymgynghori â swyddfa'r Comisiynydd ar ystod o faterion, gan gynnwys y broses o ddrafftio'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad.

Astudiaeth achos – Rhannu arbenigedd

Fe gawson ni gyfarfod â swyddogion y Cynulliad ynghylch eu profiad hwy o gyflwyno cyfieithu peirianyddol i'w staff. Roedd eu cyngor arbenigol ac ymarferol yn werthfawr iawn, ac yn dilyn hynny, penderfynodd Llywodraeth Cymru gyflwyno'r dechnoleg i'w staff, gan lunio canllawiau ar y defnydd doeth o gyfieithu peirianyddol yn y gweithle. Mae'r dechnoleg yn ddefnyddiol wrth roi *brasgyfieithiad* i ddefnyddwyr di-Gymraeg, a bydd yn helpu i gynyddu faint o gyfathrebu dwyieithog sy'n digwydd ar draws y sefydliad.

Bethan Griffiths, Prif Swyddog Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg,
Llywodraeth Cymru

03. Gwasanaethau i staff y Cynulliad

Cynllunio ar gyfer darparu gwasanaeth dwyieithog

Mae gan bob maes gwasanaeth unigol y Cynulliad ei gynllun iaith ei hun. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gallu dwyieithog o fewn timau, ac yn rhoi manylion am y prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog. Pan fydd swyddi newydd yn cael eu creu neu swyddi'n dod yn wag, bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn defnyddio'r cynllun iaith maes gwasanaeth i benderfynu ar y lefel o sgiliau iaith angenrheidiol ar gyfer y swydd i'w hysbysebu. Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau Comisiwn y Cynulliad sy'n gyfrifol am gytuno ar sefydlu swyddi newydd a llenwi swyddi gwag, ac wrth wneud hynny mae'n ystyried y gofyniad o ran sgiliau iaith ar gyfer pob swydd.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Bwrdd Rheoli y Cynulliad ei adolygiad gallu blynyddol i sicrhau bod lefelau staffio digonol ar gael ar gyfer y Pumed Cynulliad. Fel rhan o'i ystyriaethau, roedd gallu dwyieithog o fewn timau yn thema ofynnol er mwyn sicrhau bod yr holl wasanaethau yn gallu darparu gwasanaethau dwyieithog fel rhan arferol a naturiol o'u gwasanaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda meysydd gwasanaeth unigol i ddatblygu a diweddarau cynlluniau iaith er mwyn sicrhau bod y gwaith cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau dwyieithog yn rhan annatod o bob maes.

Mae'r Fforwm Cydgysylltwyr Ieithoedd Swyddogol, sy'n cynnwys un cynrychiolydd o bob maes gwasanaeth, yn parhau i roi cyngor ac arweiniad i gydweithwyr ac yn monitro cydymffurfiaeth o fewn meysydd gwasanaeth. Mae'r Cydgysylltwyr hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod aelodau newydd o staff o fewn meysydd gwasanaeth yn cael hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael dealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer eu swydd benodol.

Astudiaeth achos – Fideo Ymwybyddiaeth Iaith

Er mwyn sicrhau bod pob aelod newydd o staff yn ymwybodol o ddiwylliant ac ethos dwyieithog y sefydliad o'r cychwyn cyntaf, roedd angen ffordd

arnom o sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gyflwyno yn fuan ar ôl iddynt ymuno â'r Cynulliad. Defnyddiwyd arbenigedd mewnol i sgriptio, cofnodi, golygu a chynhyrchu ein fideo ymwybyddiaeth iaith ein hun fel y gallai staff dderbyn hyfforddiant yn ystod eu hwythnos gyntaf. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu diweddarau'r cynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Gellir defnyddio'r fideo hefyd i ddiweddarau staff sydd wedi derbyn hyfforddiant beth amser yn ôl. Mae wedi cael ei dderbyn yn dda ac wedi ysgogi trafodaeth ar draws y sefydliad.

Dyfyniad

'Cefais fy sbarduno gan y fideo i ddechrau cael gwersi Cymraeg y mae'r Cynulliad yn eu cynnig. Fel rhywun sy'n dod o Loegr, roedd y Gymraeg yn newydd i mi, ac rwy'n teimlo y bydd dysgu'r iaith yn cyfoethogi fy amser yn y Cynulliad a fy mywyd bob dydd yng Nghymru.'

Katy Orford, y Gwasanaeth Ymchwil

04. Monitro ac adrodd

Cydymffurfio

Mae Cydgysylltwyr leithoedd Swyddogol yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth o ddydd i ddydd, ac maent wedi adrodd unwaith eto eleni mân achosion o fethu â chydymffurfio â gofynion y Cynllun. Mae'r cyhoedd hefyd wedi codi achosion o fethu â chydymffurfio drwy sianeli ffurfiol ac anffurfiol. Pan fydd achosion o'r fath yn cael eu nodi, bydd y Cydgysylltwyr yn trafod y materion gyda'r aelodau perthnasol o staff er mwyn sicrhau bod achosion o fynd yn groes i'r cynllun yn cael eu cywiro cyn gynted â phosibl. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i bob aelod o staff er mwyn sicrhau llai o achosion o ddiffyg cydymffurfio. Mae Penaethiaid Gwasanaeth, y Cydgysylltwyr a rheolwyr llinell yn atgyfnerthu disgwyliadau'r Cynllun yn rheolaidd ac mae'r Tîm leithoedd Swyddogol yn rhoi cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

Cwynion

Ar adegau yn ystod y flwyddyn rydym wedi methu â chyflawni'r safonau uchel rydym yn gosod inni ein hunain ac wedi methu â chyrraedd disgwyliadau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth neu'r cyhoedd. Mae nifer o gwynion anffurfiol a ffurfiol wedi dod i law, a gellir eu categoreiddio fel a ganlyn:

Technoleg

Bu adegau pan rydym wedi methu â chyhoeddi dogfennau yn unol â gofynion ein Cynllun oherwydd materion technolegol. Rydym hefyd wedi cael gwybod am nifer o achosion o lincs i ddogfennau Cymraeg sy'n arwain at y fersiynau Saesneg neu lincs sydd wedi torri. Mae adborth ar faterion o'r fath yn hynod werthfawr inni gan ei fod yn ein galluogi i gywiro camgymeriadau neu broblemau yn gyflym.

Dewis iaith

Mae adborth gan y cyhoedd wedi dangos bod achlysuron lle maent wedi methu â defnyddio eu dewis iaith wrth ymgysylltu â ni. Rydym wedi canfod problem gydag offer y ganolfan alwadau yn ein swyddfa yng ngogledd Cymru, gyda galwadau o bryd i'w gilydd yn cael eu hailgyfeirio yn awtomatig at y llinellau anghywir gan arwain at siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfeirio at linellau Saesneg. Mae gweithdrefnau wedi cael eu rhoi ar waith i ganfod achosion o'r fath cyn gynted â phosibl ac i alluogi'r galwr i ddefnyddio ei ddewis iaith, hyd yn oed pan fydd yn cael ei gyfeirio at y llinell anghywir.

Gwasanaeth cwsmeriaid

Yn gyffredinol, mae profiad ymwelwyr yn y Senedd o safbwynt dwyieithog wedi bod yn dda gydag ymwelwyr yn nodi ethos dwyieithog y sefydliad. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o ddigwyddiad yn ymwneud â grŵp o ymwelwyr a ofynnodd am wasanaeth Cymraeg y gwnaethom fethu â'i gyflawni. Mae ymchwiliad i'r digwyddiad yn cael ei gynnal ac rydym wedi cymryd y cyfle i sicrhau bod ein tîm Cyswllt Cyntaf a phartneriaid eraill yn ymwybodol o ofynion y Cynllun a sut i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol. Byddwn yn gweithio gyda'r timau priodol i atgyfnerthu'r angen i gynnig gwasanaethau dwyieithog mewn modd rhagweithiol.

Ymgynghoriadau'r Pwyllgorau

Rydym wedi cael gwybod pan fyddwn yn comisiynu tystiolaeth ar gyfer Ymchwiliadau neu Ymgynghoriadau Pwyllgorau nad ydym wedi bod yn ddigon clir o ran sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, gan arwain at gŵyn yn cael ei gwneud. Bydd y geiriad ar gyfer cyhoeddi a gwneud cais am dystiolaeth a dogfennau gan drydydd parti yn y Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad yn cael ei ddiwygio er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb. Byddwn yn gweithio gyda thimau'r Pwyllgorau i sicrhau bod geiriad unrhyw geisiadau am dystiolaeth neu ddogfennau eraill yn glir ac yn unol â gofynion y Cynllun.

Y gwersi a ddysgwyd

Rydym yn annog Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth, y cyhoedd a'n staff i roi adborth ar ein gwasanaethau dwyieithog ac rydym yn ymrwymedig i ddysgu o unrhyw adborth a gawn. Mae'r prif themâu sy'n codi o ganmoliaeth, cwynion ac adborth yn rhoi arwydd clir o arfer da a meysydd y mae angen eu gwella neu eu cryfhau. Bydd y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ar gyfer y Pumed Cynulliad yn adeiladu ar yr arfer da a sefydlwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad ac yn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau. Bydd y Cynllun yn amlinellu themâu â blaenoriaeth ar gyfer y Pumed Cynulliad a fydd yn cryfhau ein hethos a'n diwylliant dwyieithog ymhellach ac yn ein galluogi i gyflawni uchelgais y Comisiwn i gael ei gydnabod fel sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ymateb ITV Cymru Wales i Ymgynghoriad Pwyllgor Diwylliant Cynulliad Cymru ar ddyfodol S4C

Mae ITV Cymru Wales yn croesawu'r cyfle i ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cymru i ddyfodol S4C. Bydd yr ymchwiliad yn cyfrannu at adolygiad Llywodraeth y DU o'r darlledwr.

1. **Darpariaeth ITV**

Mae gan ITV ddwy gangen gynhyrchu sy'n cyflenwi rhaglenni i S4C ar sail fasnachol: ITV Cymru Wales ac ITV Studios.

ITV Cymru Wales

1.1. Mae ITV Cymru Wales yn darparu ystod eang o raglenni materion cyfoes a ffeithiol o ansawdd uchel i S4C. Er nad yw'n rhan o rwymedigaethau trwydded Sianel 3, mae gan ein darpariaeth iaith Gymraeg gyfraniad pwysig i ddarledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

1.2. Mae ein cyfraniad yn gwella cymysgedd y rhaglenni ar S4C ac yn cynnig lleisiau a safbwyntiau newydd. Yn allweddol, o gofio bod y BBC yn darparu allbwn newyddion S4C, mae'n bwysig bod y sianel yn parhau i gynnig pliwraliaeth gyda'n darpariaeth materion cyfoes.

1.3 Mae'n prif raglen materion cyfoes, *Y Byd ar Bedwar*, wedi bod yn ymchwilio i straeon cenedlaethol a rhyngwladol am fwy na 30 blynedd. Mae *Hacio*, ein rhaglen materion cyfoes ar gyfer pobl ifanc, yn ymgysylltu'r gynulleidfa ifanc â materion democrataidd a chymdeithasol sy'n berthnasol i'w bywydau, ac mae'r gyfres ddogfen wledig *Cefn Gwlad* yn parhau i fod yn un o raglenni mwyaf poblogaidd S4C.

1.4 Mae gennym hanes blaenorol o greu rhaglenni ffeithiol ac adloniant i S4C, ac mae'r rhaglen gwis *Sion a Sian* a'r gyfres realiti am Jude Cisse, gwraig y pêl-droediwr, ymysg y rhaglenni a gynhyrchwyd yn 2016.

1.5 Yn 2017, byddwn yn creu 20 rhifyn (30 munud) o *Y Byd ar Bedwar* a 12 rhifyn (30 munud) o *Hacio*. Byddwn ni'n creu 11 awr o *Cefn Gwlad* yn ogystal â rhifyn o'r rhaglen ddogfen *O'r Galon* a fydd yn dilyn brwydr un dyn yn erbyn canser.

1.6 Er ein bod ni'n cystadlu ag S4C am gynulleidfaoedd a refeniw hysbysebion, rydym hefyd gweithio mewn partneriaethau unigryw er mwyn sicrhau llwyddiant i ni'n dau. Un enghraifft o hyn yw *Y Ditectif*, cyfres sy'n ymchwilio i rai o droseddau enwocaf Cymru, a gynhyrchwyd ochr yn ochr â'n fersiwn Saesneg, sef *Crime Files* ar ITV Wales. Bydd ail gyfres yn cael ei darledu eleni.

1.7 Mae hefyd yn bwysig nodi bod ITV Cymru Wales yn helpu i gynyddu cynulleidfaoedd S4C drwy ein darllediadau newyddion. Rydym yn dangos clipiau newyddion o ymchwiliadau pwysig *Y Byd ar Bedwar* a *Hacio* yn rheolaidd yn nghynnwys ein prif raglen newyddion, *ITV Wales At Six*. Mae cyfran cynulleidfa *Wales At Six* wedi tyfu'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf, ac mae'r rhaglen erbyn hyn yn denu tua 200,000 o wylwyr bob nos. Mae hyn yn darparu manteision hyrwyddo sylweddol i S4C drwy ITV, y sianel fasnachol ar gyfer cynulleidfaoedd torfol fwyaf poblogaidd yn y DU.

ITV Studios

1.8 Mae ITV Studios hefyd yn cyfrannu at raglenni S4C. Fel rhan o'i strategaeth twf, mae ITV Studios nawr yn berchen ar Twofour Group, sef grŵp o gwmnïau cynhyrchu annibynnol, sy'n cynnwys Boom Cymru. Yn ogystal â gwneud rhaglenni ar gyfer darlledwyr yn y DU, darparodd Boom Cymru 400 awr o raglenni i S4C yn 2016, a hynny ledled yr holl genres ac eithrio newyddion a materion cyfoes, gan gynnwys rhaglenni plant.

2. Yr her ariannol

2.1 Mae'r rhaglenni rydym yn eu creu i S4C o ansawdd newyddiadurol uchel ac yn ddrud i'w creu. Mae'r toriadau i gyllid S4C yn 2012 wedi achosi heriau. Mae *Y Byd ar Bedwar* wedi cael ei ganmol yn eang am flynyddoedd lawer oherwydd natur ymchwiliol ei newyddiaduraeth. Mae'r rhaglen hefyd yn cyflwyno straeon sydd o bwys rhyngwladol i wylwyr yng Nghymru, yn ogystal â datgelu straeon nad ydynt yn rhan o'r agenda newyddion prif ffrwd. Oherwydd dibyniaeth y rhaglen ar ymchwil drylwyr a newyddiaduraeth heriol, mae'n rhaid cael arian ac amser i'w chreu.

2.2 Fel cwmni masnachol, rydym wedi cymryd camau breision i wella cynhyrchiant a rheoli costau; rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â S4C i greu arbedion maint. Erbyn hyn mae ITV yn un o'r cynhyrchwyr mwyaf effeithlon oherwydd eu bod wedi croesawu technoleg newydd, amlsgilio ac yn y blaen – mae nifer cyfyngedig o arbedion effeithlonrwydd posibl ar gyfer y dyfodol os ydym am barhau i greu cynnwys o ansawdd uchel i S4C. Felly, byddem yn poeni petai'r setliad ariannol i S4C yn y dyfodol yn arwain at ragor o doriadau yn y cyllid ar gyfer ymchwilio i faterion cyfoes.

3. Cyllid ar gyfer y dyfodol

3.1 Credwn y dylai trefniadau ariannu S4C yn y dyfodol gael eu llywio gan yr angen am sicrwydd o gyflenwad sy'n darparu rhaglenni o ansawdd uchel, fel rhan o pliwraliaeth darpariaeth cryf mewn genres.

3.2 Mae ITV yn croesawu cystadleuaeth o ba le bynnag y daw, cyhyd â bod pawb yn cael eu trin yn gyfartal a'i bod hi'n gystadleuaeth deg. Fel cystadleuydd i S4C o ran refeniw nawdd a hysbysebu yng Nghrymu, byddai ITV yn poeni ynglŷn â rhagolygon bod S4C yn ehangu rhagor ar weithgareddau masnachol mewn ffyrdd a fyddai'n amharu ar gystadleuaeth gyda chystadleuwyr sy'n cael eu hariannu'n fasnachol, fel ITV. Yn hyn o beth, mae'r gystadleuaeth o du S4C, a ariennir yn gyhoeddus, yn cyfateb i'r gystadleuaeth o du'r BBC.

3.3 Mae ITV yn wynebu cystadleuaeth anferth o ran gwylwyr a refeniw, a hynny ar deledu ac ar-lein. Byddem yn poeni petai S4C, fel buddiolwr arian cyhoeddus sylweddol, yn cael ei annog i gystadlu mwy mewn telerau masnachol. Mae pryderon penodol, er enghraifft, ynglŷn â'r maint sylweddol o arian cyhoeddus sydd ar gael i S4C ac sy'n cael ei ddefnyddio'n rhannol er mwyn rhoi cymhorthdal i gyfraddau hysbysebion (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol).

4. Y Cylch Gwaith ar gyfer y dyfodol

4.1 Mae ITV Cymru Wales yn credu y dylai pliwraliaeth mewn cyflenwad rhaglenni barhau i fod yn gonglfaen y cylch gwaith newydd, a pharhau i gyfrannu at ddeunydd y sianel ac at economi greadigol Cymru.

5. S4C annibynnol

5.1 Rydyn ni'n credu bod annibyniaeth barhaus S4C yn bwysig o ran amddiffyn pliwraliaeth presennol y ddarpariaeth yn y cyflenwad. Er ei fod yn cael ei ariannu'n bennaf gan ffi'r drwydded, credwn fod parhau ag atebolrwydd a threfniadau llywodraethu ar wahân drwy Awdurdod S4C yn allweddol i ddyfodol annibyniaeth y sianel, yn enwedig yng nghyswllt ffurfio BBC Studios. Mae'n ymddangos bod y Cytundeb Gweithredu gydag Ymddiriedolaeth y BBC wedi bod yn llwyddiannus ac rydym yn cefnogi ei barhad y tu hwnt i 2017 ar y cyd â Bwrdd Unedol newydd y BBC. Er hyn, credwn y bydd angen i hyn gael ei oruchwylio'n fwy gweithredol gan naill ai Ofcom neu'r llywodraeth, o ystyried y trefniadau newydd ar gyfer rheoleiddio'r BBC.

5.2 Yn y cyd-destun hwn, bydd rhaid rhoi sylw penodol i'r risg y bydd BBC Studios yn cael rhyw fath o berthynas cyflenwad rhaglenni sy'n cael ei ffafrio gyda S4C, o ystyried y cyllid ffi'r drwydded sylweddol sydd gan S4C. Yn wir, byddai budd cryf i'r cyhoedd petai BBC Studios yn cystadlu ar y sail eu bod yn gyfartal ag unrhyw gyflenwr rhaglenni posibl arall er mwyn gwneud yn siŵr bod y syniadau a'r rhaglenni gorau yn ennill bri a bod y lluosogrwydd yn cael ei gynnal.

6. Amlygrwydd a gwelededd S4C

6.1 Mae ITV yn credu bod angen i Lywodraeth y DU barhau i foderneiddio'r system ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol, gan wneud yn siŵr ei bod

yn parhau i fod yn addas ar gyfer y diben ac yn medru parhau i gynnig mynediad hwylus i bawb yn y DU at y cynnwys gwreiddiol gorau yn y DU.

6.2 Yn benodol, rydym yn credu y dylai'r llywodraeth gyfeirio materion sy'n ymwneud â sicrhau perthnasedd parhaus y drefn amlygrwydd priodol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ei bod yn rhwydd dod o hyd i gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Mae hyn yr un mor berthnasol i S4C ag ydyw i sianeli gwasanaeth cyhoeddus eraill.

6.3 Wrth i'r ffyrdd o gael gafael ar gynnwys luosogi, wrth i reolaeth dros ryngwynebau mynediad at gynnwys allweddol gael eu globaleiddio, ac wrth i ystyriaethau masnachol ddylanwadu mwyfwy ar ba mor weladwy a hygyrch yw cynnwys, mae angen i'r llywodraeth edrych yn fanwl ar ffyrdd o gynnal amlygrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn amgylchedd sy'n fwy heriol.

6.4 Dylai hyn fod yn waith cynnal a chadw sylfaenol a fydd yn sicrhau bod y system darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar S4C yn werthfawr ac yn effeithiol. Dylai'r system barhau i fod yn sail i economeg ecoleg teledu a dylai alluogi pawb i gymryd rhan ym mywyd Cymru (a'r DU yn gyffredinol), beth bynnag fo'u modd.

Diwedd

ITV Cymru Wales

23.2:17